General Dental Council

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon **2023**

HC 104

2023

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd San Steffan dan adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984.

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) o dan adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd San Steffan dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) o dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2024.

SG/2024/20

HC 104

© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle nodwyd deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gdc-uk.org

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, e-bostiwch
**information@gdc-uk.org neu ffoniwch: 020 7167 6000**

ISBN 978-1-5286-4773-1

E03097942 07/24

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys

**Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ........................................ 6**

**Adran un: Dadansoddi perfformiad ................................................. 10**

1. Diben statudol ........................................................................ 10
2. Trosolwg busnes 2023 ........................................................................ 14
   a) Adolygiad o'r Cynllun Busnes 2023 ........................................................ 14
   b) Ymrwymiad i gydraddoldeb ........................................................ 16
   c) Cyflawniadau a chynnydd yn 2023 ........................................................ 18
   d) Perfformiad cofrestru ........................................................ 23
   e) Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer ........................................................ 27
   f) Cynaliadwyedd ........................................................ 32
   g) Adolygiad ariannol ........................................................ 34

**Adran dau: Adroddiad Atebolrwydd ................................................. 42**

3. Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau ........................................................ 42
4. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ........................... 46
5. Datganiad llywodraethu ........................................................ 47
6. Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff ........................................................ 59
7. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd San Steffan a Senedd yr Alban........................................................ 72
8. Adroddiad yr archwilydd annibynnol ........................................................ 76

**Adran tri: Datganiadau ariannol ................................................. 79**

9. Cyfrifon ........................................................ 79
10. Nodiadau i'r cyfrifon ........................................................ 86
11. Cynghorwyr ........................................................ 120
12. Atodiad ........................................................ 121
    a) Dyfarniad ar y Cyfrifon ........................................................ 121

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Hoffem ddiolch i'n cyn-Brif Weithredwr, Ian Brack, a adawodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) tua diwedd 2023 ar ôl wyth mlynedd. O dan arweiniad Ian, newidiodd y sefydliad bron yn llwyr, a sefydlodd ddiwylliant cryf o gynllunio a chyflawni gweithredol a sail ar gyfer manwl gywirdeb a chynllunio ariannol cadarn. Diolch i'r manwl gywirdeb hwn, bu modd i ni i leihau ffioedd cadw blynyddol yr holl weithwyr deintyddol proffesiynol ar gyfer 2024, i £621 ar gyfer deintyddion (gostyngiad o £69 neu 10%, o gymharu â 2023) a £96 ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol (gostyngiad o £18 neu 15.8%, o gymharu â 2023). Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ystyried ac yn adolygu lefel y Ffi Gadw Flynyddol (ARF) ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn ofalus, a bydd yn gwneud hynny eto yn ddiweddarach yn 2024.

Ar ôl ymadawiad Ian, parhaodd y Tîm Arwain Gweithredol i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau, o dan arweinyddiaeth Gurvinder Soomal, y Prif Weithredwr Dros Dro. Yn dilyn proses recriwtio agored a chystadleuol, penodwyd Tom Whiting yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd newydd ac ymunodd â'r GDC ar 3 Mehefin 2024.

Ymunodd Tom â ni o Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) gan ddod â'r sgiliau, y rhinweddau a'r profiad sydd eu hangen i'n helpu i ddatblygu ymddiriedaeth a pherfformiad uchel ymhellach, yn ogystal â gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff, ac yn ein prosesau rheoleiddio.

Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau o ran diogelu'r cyhoedd ar ddechrau blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Gorfforaethol 2023 – 2025. Roedd llawer o'r pwysau yn y sector yn parhau i fodoli, fodd bynnag, gyda'n hymchwil ein hunain yn dangos bod cleifion yn cael trafferthion cael gafael ar ofal deintyddol, yn enwedig gwasanaethau deintyddol y GIG.

Daeth trafodaethau am y gweithlu deintyddol i'r brig oherwydd yr heriau yr oedd cleifion yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar ofal, a gwnaethom ymrwymo i gasglu data am batrwm y gweithlu a fyddai'n helpu i lywio trafodaethau am y gweithlu. Gwnaethom hyn oherwydd bydd meddu ar well dealltwriaeth o'r gweithlu deintyddol yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r proffesiwn, a all helpu i gefnogi gwaith cynllunio adnoddau'r gweithlu yn y dyfodol.

Gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allanol, yn enwedig Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, gwahoddwyd deintyddion i ddarparu eu data yn wirfoddol wrth adnewyddu eu cofrestriad ym mis Rhagfyr 2023. Byddwn yn gwahodd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i ddarparu data ar y gweithlu wrth adnewyddu eu cofrestriad yn haf 2024.

Roedd casglu data ar y gweithlu yn enghraifft dda o'r gwaith a wnaethom i gefnogi nod strategol newydd ar gyfer 2023, sy'n cydnabod bod angen i'r sefydliadau cywir ymdrin â risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y cyhoedd. Hefyd, mewn ymateb i'r nod hwn, ddiwedd 2022, gwnaethom ddechrau dod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i Rwydwaith Arweinyddiaeth Ddeintyddol. Mae'n Rhwydwaith i ni i gyd rannu heriau a phroblemau gyda'r nod o ddod o hyd i dir cyffredin a ffyrdd y gallwn gydweithio. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn 2023, gydag ystod eang o siaradwyr. Roedd y themâu'n cynnwys datblygu'r tîm deintyddol cyfan, a'r system o safbwynt gweithwyr deintyddol proffesiynol a chleifion a'r cyhoedd.

Newidiwyd rhywfaint o'n deddfwriaeth yn 2023, sy'n ddigwyddiad prin ond eto'n un i'w groesawu. Defnyddiwyd y newidiadau mewn ffordd gadarnhaol, fel man cychwyn i wella'r broses o gofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol sydd wedi cymhwyso dramor. Aethom ati i gynyddu nifer y lleoedd ar ddwy ran yr Arholiad Cofrestru Tramor (ORE) ac ymgynghori ar reolau newydd ar gyfer cofrestru deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol o dramor.



**Yr Arglwydd Toby Harris**
Cadeirydd



**Tom Whiting**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Gwnaethom rai newidiadau strwythurol mewnol yn y sefydliad, gan ddod ag Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru ynghyd i greu cyfarwyddiaeth Rheoleiddio newydd. Y pwrpas oedd cynyddu ein gwytnwch ac effeithlonrwydd a gwella recriwtio, hyblygrwydd a datblygiad gyrfa i staff ac mae eisoes yn talu ar ei ganfed.

O fewn Addasrwydd i Ymarfer, yn sgil cynnydd yn nifer y gweithwyr achos ar ddiwedd 2022, bu modd i ni gyflymu ein proses reoleiddio, a gyfrannodd at lwyth achosion cyffredinol ar ddiwedd 2023 a oedd 31% yn is nag yn 2022.

Cwblhaodd Pwyllgorau Ymarfer Annibynnol o'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol 91 o wrandawiadau cychwynnol yn 2023 (2022:85).

O'r achosion a oedd yn aros am wrandawiad cychwynnol (147 ar ddiwedd 2023), dechreuodd 47% o fewn naw mis i'r atgyfeiriad. Y nifer a fethodd ein targed naw mis oedd 70 ar ddiwedd Rhagfyr 2023.

Gwelsom gynnydd mawr yn nifer y ceisiadau gan ddeintyddion tramor i ymuno â'r gofrestr fel hylenyddion deintyddol neu therapyddion deintyddol, cyn i'r newid yn y ddeddfwriaeth atal y llwybr hwn i gofrestru. Gwnaethom recriwtio adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn, ac erbyn diwedd 2023 roedd dros 2,000 o geisiadau wedi'u hasesu gan baneli asesu cofrestru, gan arwain at dros 1,200 o gofrestriadau.

Yn 2023, cwblhaodd y swyddogaeth Gofrestru 11,476 o geisiadau ar draws pob llwybr. Dyma'r nifer fwyaf o geisiadau rydym erioed wedi'u prosesu, ac mae'n gynnydd sylweddol ar yr uchafswm blaenorol o 8,979 o geisiadau, a gwblhawyd yn 2015. Ym mhob maes, cafwyd gwelliant yn yr amser a gymerwyd i fwrw ymlaen â phob cais ar gyfer pob llwybr i gofrestru. Fodd bynnag, mae'r ôl-groniad o geisiadau gan ddeintyddion tramor i ymuno â'r gofrestr fel hylenyddion neu therapyddion deintyddol yn parhau, a byddwn yn dyfalbarhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2024.

Yn olaf, wrth i ni edrych ymlaen at weddill 2024, rydym yn hyderus yn ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ac y bydd yn ein helpu i chwarae ein rhan wrth weithio gyda'r sector deintyddol cyfan i gefnogi adferiad parhaus ym maes deintyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys newid deddfwriaethol i'r ffordd rydym yn cofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol tramor. Rydym hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ein gweithgareddau rheoleiddio pan fo modd i ni wneud hynny, yn absenoldeb diwygio deddfwriaethol, gan sicrhau bob amser bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

Gan edrych ymlaen, rydym wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i nodi'r meysydd cyffredin y gallwn weithio arnynt sy'n helpu cleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol fel ei gilydd, gan gydnabod bod y rhain yn aml yn gymhleth oherwydd eu bod yn torri ar draws ffiniau sefydliadol. Rydym am adeiladu partneriaethau sy'n ein helpu i fod yn rheoleiddiwr dibynadwy ac effeithiol, lle gallwn ni i gyd chwarae ein rhan i ddiogelu cleifion a chynnal hyder yn y proffesiynau deintyddol.

Mae'r GDC yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoleiddio proffesiynol a sicrhau diogelwch cleifion. Ond y gweithwyr deintyddol proffesiynol eu hunain sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion ac rydym yn cefnogi eu proffesiynoldeb. Rydym yn hynod werthfawrogol o bopeth a wnânt.

**Yr Arglwydd Toby Harris**
Cadeirydd

**Tom Whiting**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Adran un:
# Dadansoddi perfformiad

Mae'r adran hon yn crynhoi ein diben statudol, pwy ydym ni, yr hyn a wnawn, a phwy rydym yn ei reoleiddio. Mae'n cynnwys crynodeb o'n cyflawniadau a'n cynnydd gydol 2023 a'n perfformiad cyffredinol o ran sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn a'i warchod.

## 1. Diben statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yw'r corff statudol sy'n gyfrifol am reoleiddio aelodau'r tîm deintyddol yn y DU. Roedd 120,000 o bobl wedi cofrestru gyda ni ar 31 Rhagfyr 2023, yn cynnwys 45,000 o ddeintyddion a 75,000 o weithwyr proffesiynol gofal deintyddol (DCPs).

Rydym yn rheoleiddio'r tîm deintyddol cyfan sy'n cynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig, technegwyr deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol.

### Ein rôl a'n diben

Ein prif rôl yw diogelu'r cyhoedd, ac mae hon yn rôl a roddir i ni gan Senedd San Steffan ac a nodir yn y Ddeddf Deintyddion.

Rydym yn cyflawni hyn drwy ddilyn yr amcanion canlynol:

- Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio.
- Hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

Dylai cleifion a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei rhoi gan weithwyr deintyddol hyfforddedig a chymwys sy'n bodloni ein safonau.

Er mwyn diogelu'r cyhoedd, ar ei fwyaf sylfaenol, rydym yn gwneud pedwar peth:

- Cynnal cofrestr o weithwyr deintyddol proffesiynol sy'n bodloni ein safonau.
- Sicrhau nad oes unrhyw un sy'n methu â bodloni ein safonau yn cael eu derbyn ar y rhestr honno.
- Gosod a chefnogi safonau proffesiynol uchel mewn addysg ac ymarfer deintyddol.
- Gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd os bydd unrhyw weithiwr deintyddol proffesiynol yn methu â bodloni ein safonau.

Rydym yn cyflawni ein pwrpas drwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- Sicrhau ansawdd y rhaglenni addysg a hyfforddiant deintyddol sy'n arwain at gofrestru gyda'r GDC.
- Dim ond yn cofrestru'r gweithwyr deintyddol hynny sy'n bodloni ein gofynion o ran addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n cael ymarfer deintyddiaeth yn y DU.
- Sicrhau ansawdd hyfforddiant arbenigol sy'n arwain at ddeintyddion yn gallu disgrifio eu hunain fel arbenigwyr.
- Gosod safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer y tîm deintyddol cyfan.
- Ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol, a lle bo hynny'n briodol, gweithredu drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer.
- Sicrhau bod gweithwyr deintyddol yn diweddaru eu sgiliau'n rheolaidd drwy ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.
- Amddiffyn y cyhoedd rhag pobl sy'n cyflawni gwaith deintyddol heb fod wedi eu cofrestru.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau sy'n gyfrifol am agweddau eraill ar ddeintyddiaeth. Er enghraifft, y colegau Brenhinol sy'n gosod y safonau clinigol; y cyrff aelodaeth proffesiynol sy'n cynrychioli gweithwyr deintyddol proffesiynol; y GIG a Llywodraethau ar draws y pedair gwlad sy'n gyfrifol am gontractau'r GIG a chynllunio'r gweithlu; a'r rheoleiddwyr systemau ar draws y DU sy'n arolygu deintyddfeydd, fel y Comisiwn Sicrwydd Ansawdd (CQC) yn Lloegr.

Rydym yn ariannu'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol, sef swyddogaeth farnu'r GDC. Mae hyn yn annibynnol ac ar wahân i'n swyddogaeth ymchwilio. Mae'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol yn hwyluso'r gwaith gyda'n pwyllgorau gwrando annibynnol, sy'n cynnwys gweithwyr deintyddol proffesiynol a phanelwyr lleyg.

Yn ogystal, rydym yn ariannu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS) sy'n darparu gwasanaeth diduedd am ddim i helpu cleifion a gweithwyr deintyddol i ddefnyddio dulliau cyfryngu i ddatrys cwynion am ofal deintyddol preifat. Caiff ei ariannu drwy'r incwm a gasglwn gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

## Pwy ydym ni

Mae’r GDC yn un o ddeg rheoleiddiwr iechyd a gofal sy’n cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Rydym yn cael ein goruchwylio gan Gadeirydd a Chyngor anweithredol, sy’n cynnwys 12 aelod, gyda chwech yn aelodau lleyg a chwech yn weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig.

Yn 2023, roeddem yn cyflogi cyfartaledd o 377 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (2022: 362). Yn ogystal, fe wnaeth tua 550 o aelodau cyswllt a gwirfoddolwyr eraill ein helpu i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys paneli apêl ac Addasrwydd i Ymarfer, paneli asesu cofrestriadau, sicrhau ansawdd addysg ac ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y DCS.

Mae gennym bedair cyfarwyddiaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwyr Gweithredol sydd, ynghyd â’r Prif Weithredwr, yn ffurfio’r Tîm Arwain Gweithredol:

- Adnoddau Corfforaethol.
- Cyfreithiol a Llywodraethu.
- Rheoleiddio.
- Strategaeth.

Y Prif Weithredwr yw’r Cofrestrydd a’r Swyddog Cyfrifyddu hefyd.

Mae’r Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am:

- Arwain a chefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithrediadau’r GDC, a gwella eu hansawdd a’u heffeithlonrwydd.
- Gweithredu’r strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2023 – 2025.
- Cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i’r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau’r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith.
- Nodi ac adrodd ar risgiau strategol i’r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel briodol gydag atebolrwydd clir.

## Strwythur sefydliadol y GDC 2023




*Daeth cofrestru yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio (y Gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer yn flaenorol) o 1 Tachwedd 2023.

**ILPS: Gwasanaethau Cyflwyno Cyfreithiol Mewnol - ELPS: Gwasanaethau Cyflwyno Cyfreithiol Allanol.

# 2. Trosolwg busnes 2023

## a) Adolygiad o'r cynllun busnes 2023

2023 oedd blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Gorfforaethol 2023 – 2025, a gymeradwywyd gan y Cyngor ddiwedd 2022, yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac mae'n nodi ein blaenoriaethau tan ddiwedd 2025.

Nid yw ein rôl o ran diogelu'r cyhoedd wedi newid, tra bod ein cynllun yn cydnabod bod angen i ni foderneiddio a gwella ein perfformiad mewn rhai meysydd.

Mae gan ein strategaeth gorfforaethol bedwar nod strategol:

1. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn bodloni ac yn cynnal safonau uchel o ofal deintyddol diogel ac effeithiol.
2. Caiff pryderon sylw effeithiol a chymesur er mwyn diogelu'r cyhoedd a chefnogi dysgu proffesiynol.
3. Mae'r sefydliadau cywir yn ymdrin â risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y cyhoedd.
4. Mae rheoleiddio proffesiynol deintyddol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn addasu i'r amgylchedd allanol sy'n newid.

Er y byddwn yn parhau i bwyso am y cyfleoedd a all ddod yn sgil diwygio deddfwriaethol, ni ellir sicrhau hyn ac ni fydd yn datrys yr holl faterion presennol. Felly, byddwn yn parhau i ysgogi gwelliannau o fewn ein cyfyngiadau presennol, gan gefnogi a grymuso'r tîm deintyddol i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i safonau uchel o broffesiynoldeb ar yr un pryd.

Drwy gydol 2023, parhaodd y sector deintyddol i wynebu gwahanol bwysau a heriau. Tynnodd ein hymchwil sylw at y ffaith bod y system ddeintyddol yn parhau i gael ei gor-ymestyn. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd yn y galw gan gleifion a mwy o dystiolaeth o newid wrth i weithwyr deintyddol proffesiynol symud i ffwrdd o wasanaethau deintyddol y GIG i'r sector preifat, gan greu problemau sylweddol i gleifion sydd eisiau cael gafael ar wasanaethau'r GIG.

Yn dilyn adolygiad manwl a thrylwyr yn chwarter tri, cymeradwyodd y Cyngor gynlluniau'r GDC ar gyfer 2024 ac wrth wneud hynny, gosododd y gyllideb a'r Ffi Gadw Flynyddol (ARF) ar gyfer 2024.

Arweiniodd hyn at ostyngiad yn ffioedd cadw blynyddol pob gweithiwr deintyddol proffesiynol. Ar gyfer 2024, mae hyn yn £621 i ddeintyddion (gostyngiad o £69 neu 10%) a £96 ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol (gostyngiad o £18 neu 15.8%).

Ein huchelgais yw cadw ffioedd ar lefel resymol. Mae'r ffioedd wedi'u pennu ar lefel sy'n sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein rôl statudol o gynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd am y flwyddyn nesaf. Er y byddwn yn adolygu cynlluniau'r GDC eto'r flwyddyn nesaf, byddwn yn ymgymryd â hyn gyda'r bwriad o gynnal yr ARF ar yr un lefel yn 2025.

## Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2023 – 2025

Roedd ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer 2023 yn manylu ar ein cynllun gwaith am y flwyddyn. Cafodd ei adolygu a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y gwaith â blaenoriaeth yn derbyn adnoddau a chefnogaeth, i'n galluogi i gyflawni'r hyn a oedd yn y cynllun gwaith.

Roedd 50 o brosiectau ar y cynllun gwaith yn 2023. O'r rhain, cwblhawyd 12, tynnwyd chwech o'r cynllun wrth iddynt gael eu cyfuno â phrosiectau eraill neu eu dad-flaenoriaethu, gohiriwyd tri, ac mae'r gweddill ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn diwedd 2025.

Mae rhagor o fanylion am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio, gan gynnwys crynodeb o'r prosiectau a gyflawnwyd yn 2023 a'r nodau strategol maent yn cyd-fynd â nhw, i'w gweld yn adroddiad y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2023 – 2025, a gyhoeddir ar wahân.

## b) Ymrwymiad i gydraddoldeb

Ein huchelgais yw bod yn hyrwyddwr amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein sefydliad, gyda'r sector rydym yn ei reoleiddio, a chyda'r cyhoedd.

Rydym yn cydnabod bod sut rydym yn gwneud yr hyn a wnawn, sut rydym yn gweithredu pan fyddwn yn ei wneud, a sut rydym yn ymdrin â'r gymdeithas rydym yn rhan ohoni ac yn ei hadlewyrchu yn hollbwysig. Felly, rydym am i'n hymagwedd at gydraddoldeb fod yn gyfannol – nid yn unig drwy edrych ar ein systemau, ein prosesau, a'n polisïau, ond hefyd drwy edrych ar ein diwylliant, er mwyn helpu i adeiladu momentwm ar gyfer newid cadarnhaol parhaus a chynaliadwy.

### Ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu dealltwriaeth llawer gwell o'r gweithlu deintyddol, gan fod llawer mwy o weithwyr deintyddol proffesiynol wedi darparu eu gwybodaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r broses adnewyddu flynyddol. Rydym bellach yn cadw gwybodaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer tua 94% o'r holl weithwyr deintyddol proffesiynol.

Mae'n bwysig ein bod yn casglu'r data hwn fel rhan o'n rôl fel rheoleiddiwr, er mwyn sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio yn deg. Rydym yn defnyddio'r data hwn i'n helpu i ddeall proffil newidiol y gofrestr ac a yw rhai grwpiau'n fwy tebygol o ymuno â'r gofrestr neu ei gadael.

Rydym hefyd yn casglu data ar nodweddion gwarchodedig staff, panelwyr a swyddogion cyswllt y GDC i ddeall amrywiaeth y bobl sy'n gweithio i ni. Mae mwy o fanylion am hyn ar dudalen 68.

Un o'r amcanion allweddol yn ein Strategaeth 2021 – 2023 oedd deall yn well amrywiaeth y rhai a reoleiddiwn. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn ein Hadroddiadau Ystadegol ar Gofrestru and Addasrwydd i Ymarfer a gyhoeddir ar wahân.

Nawr bod gennym y data hwn ar nodweddion gwarchodedig gweithwyr deintyddol proffesiynol, byddwn yn ei ddefnyddio fel sail i'n polisïau a'n gweithdrefnau ac er mwyn sicrhau ein bod yn gymesur ac yn deg wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, rydym yn cynnal dadansoddiad yn ôl nodweddion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o'n data Addasrwydd i Ymarfer i ddeall a oes gwahaniaethau mewn penderfyniadau achos yn ôl nodwedd warchodedig, unwaith y rhoddir cyfrif am ffactorau'r achos a chyd-destun.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn deall mwy am y bobl sy'n codi pryderon gyda ni. Felly, rydym bellach yn bwriadu casglu gwybodaeth ychwanegol am nodweddion gwarchodedig gan hysbyswyr i'n helpu i ddeall mwy am y rhai sy'n codi pryderon gyda ni.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024 a 2025 wedi'i chyhoeddi ac mae'n adeiladu ar uchelgeisiau ein strategaeth flaenorol. Ein dyhead yw parhau i weithio gyda'r proffesiwn ehangach i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant nid yn unig ar draws yr hyn y mae'r GDC yn ei wneud, ond hefyd o ran sut mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn gweithio gyda chleifion ac â'i gilydd wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys annog eraill i wneud Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn flaenoriaeth yn eu harferion gwaith.

## Ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb yn ein gwaith

Rydym wedi ymrwymo i ystyried anghenion gwahanol grwpiau neu unigolion fel rhan o'n proses gynllunio ac wrth gyflawni'r gwaith a wnawn. Mae hyn yn bwysig gan ein bod ni eisiau:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth ymwybodol a diarwybod.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.
- Meithrin dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Fel aelod o rwydwaith y Grŵp Gweithredu Amrywiaeth mewn Deintyddiaeth (DDAG), rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo uchelgais craidd y Grŵp ar gyfer gweithredu ymarferol er mwyn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i ofal deintyddol ac yn rhan o safonau craidd pob gweithiwr deintyddol proffesiynol.

## c) Cyflawniadau a chynnydd yn 2023

Gwnaethom symud ymlaen a chyflawni rhaglen helaeth o brosiectau a gweithgareddau eraill yn 2023. Disgrifir enghreifftiau o rai o'r darnau hyn o waith isod, er mwyn adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau a gyflawnwyd gennym i'n helpu i gyflawni ein cylch gwaith rheoleiddio.

Yn ogystal, pan fo modd i ni wneud hynny, gwnaethom ddal ati i bwyso am y cyfleoedd a allai ddod yn sgil diwygio deddfwriaethol, ond ni ellir sicrhau hyn ac ni fydd yn datrys yr holl faterion presennol. Felly, rydym wedi nodi cyfleoedd ac wedi gwneud newidiadau i ysgogi gwelliannau, o fewn ein fframwaith deddfwriaethol cyfredol, gan gefnogi a grymuso'r tîm deintyddol i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol yn unol â safonau proffesiynoldeb uchel.

Wrth grynhoi'r cyflawniadau a'r cynnydd a wnaed yn 2023, rydym wedi rhestru'r rhain mewn trefn sy'n amlygu'r rhai y teimlwn fydd o'r diddordeb mwyaf i weithwyr deintyddol proffesiynol a rhanddeiliaid eraill, neu'n cael yr effaith fwyaf arnynt.

### Gwella tôn llais ein cyfathrebiadau Addasrwydd i Ymarfer

Gwyddom fod y broses Addasrwydd i Ymarfer yn anodd i weithwyr deintyddol proffesiynol y codwyd pryder yn eu cylch, a dangosodd ein hymchwil fod tôn llais ein llythyron Addasrwydd i Ymarfer yn ffactor a gyfrannodd at hyn. Yn 2023 gwnaethom adolygu ein holl gyfathrebiadau a'n llythyron Addasrwydd i Ymarfer, i wella eu tôn a sicrhau eu bod yn cael eu hailysgrifennu gan ddefnyddio Cymraeg a Saesneg clir.

Mae'r llythyron wedi'u diweddaru wedi cael eu defnyddio ers dechrau 2024 ac mae'r newidiadau wedi'u croesawu gan randdeiliaid.

### Data ar batrwm gwaith

Hyd yn hyn, prin iawn yw'r data ar y gweithlu y gall y sector deintyddol ei ddefnyddio, ac mae hyn wedi bod yn gryn her yn y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y GDC mewn sefyllfa unigryw o fod â'r data mwyaf cyflawn a oedd ar gael – rhestr o bawb sydd wedi cofrestru i ymarfer deintyddiaeth, ar draws yr holl broffesiynau a'r pedair gwlad. Felly, ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, aethom ati i gynnal prosiect casglu data ar batrwm gwaith fel rhan o'n hymdrechion i ddyfnhau dealltwriaeth y proffesiynau o'r gweithlu deintyddol.

Arweiniodd y gweithgaredd hwn at ddatblygu holiadur byr lle gofynnwyd i weithwyr deintyddol proffesiynol rannu ychydig o fanylion am eu patrymau gwaith. Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023 pan ofynnwyd i ddeintyddion, yn wirfoddol, i ateb llond llaw o gwestiynau am eu patrymau gwaith fel rhan o'u hadnewyddiad blynyddol. Gofynnir i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol gymryd rhan fel rhan o'u hadnewyddiad blynyddol yn 2024.

Ni wnaethom gyflawni'r gwaith hwn ar ein pen ein hunain, a buom yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, gan gynnwys y cymdeithasau proffesiynol a'r Prif Swyddogion Deintyddol ar draws y pedair gwlad, i fagu cefnogaeth a chymeradwyaeth, ac i annog gweithwyr deintyddol proffesiynol i ymateb i gwestiynau'r arolwg.

Bydd yr ymatebion a gawn yn ein helpu ni ac eraill i ddeall yn well:

- Ble mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn gweithio.
- Beth maen nhw'n ei wneud.
- Nifer yr oriau maen nhw'n eu gweithio.
- P'un a ydynt yn gweithio yn y GIG neu mewn practis preifat.

Gwnaethom hyn oherwydd bydd meddu ar well dealltwriaeth o batrymau gwaith y gweithlu deintyddol yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r proffesiwn, a all helpu i gefnogi gwaith cynllunio adnoddau'r gweithlu yn y dyfodol, a darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r newidiadau y mae'r proffesiwn a chleifion eu heisiau a'u hangen.

Cyhoeddwyd canfyddiadau cychwynnol ar y data ar batrymau gwaith deintyddion ym mis Mawrth 2024 a dadansoddiad pellach yn seiliedig ar leoliad ym mis Mai 2024.

## Rhaglen ymgysylltu â myfyrwyr a chofrestryddion newydd

Mae sicrhau bod myfyrwyr a chofrestryddion newydd yn deall pwy yw'r GDC a'r hyn a wnawn, a beth mae'n ei olygu i fod yn rhan o broffesiwn a reoleiddir, yn parhau i fod yn faes ymgysylltu pwysig i ni. Mae'r rhaglen hon bellach yn ei phumed flwyddyn, ac ym mlwyddyn academaidd 2022 – 2023 cynhaliwyd 42 o sesiynau ymgysylltu â myfyrwyr a chofrestryddion newydd, gan ymgysylltu â thua 3,200 o bobl.

Roedd hyn yn cynnwys dros 2,100 o fyfyrwyr BDS blwyddyn gyntaf a'r bumed flwyddyn, 800 o ddeintyddion sylfaen/galwedigaethol a thros 250 o fyfyrwyr hylenyddion deintyddol a therapyddion deintyddol.

Mae myfyrwyr nyrsio deintyddol wedi'u lleoli ar draws y DU mewn amrywiaeth o leoliadau, ac mae'n anodd dod â nhw at ei gilydd mewn niferoedd mawr. Felly, yn ogystal â'r cyflwyniadau, recordiwyd cyfres o weminarau byr, gan eu rhannu â chymdeithasau proffesiynol a chyrff dyfarnu, a'u rhoi nhw hefyd ar ein gwefan.

## Yn newydd i ymarfer deintyddol y DU

Mae'n bwysig ein bod yn helpu'r rhai sy'n newydd i ymarfer deintyddol yn y DU i wella eu dealltwriaeth o sut mae diogelwch a hyder y cyhoedd yn cael eu hybu, ble i gael cymorth a sut i gynnal eu cofrestriad.

Yn ogystal â rhedeg rhaglen i fyfyrwyr a chofrestryddion newydd sy'n canolbwyntio ar y DU, rydym hefyd wedi nodi'r angen i ymgysylltu â gweithwyr deintyddol proffesiynol newydd sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU. Roedd bron i 50% o'r deintyddion newydd a ymunodd â'r gofrestr yn 2023 wedi cymhwyso y tu allan i'r DU.

Yn dilyn cynllun peilot, sefydlwyd rhaglen o weminarau gennym, yn targedu'r grŵp pwysig hwn o weithwyr deintyddol proffesiynol. Roedd y digwyddiad cyntaf ym mis Hydref 2023, gyda dros 100 o bobl yn bresennol. Mae sesiynau pellach ar y gweill trwy gydol 2024.

## Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ddeintyddol

Aethom ati i gynnull y Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ddeintyddol (DLN) ddiwedd 2022 a'i sefydlu fel fforwm ymgysylltu allweddol ar gyfer arweinwyr deintyddol ledled y proffesiynau yn 2023, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal ym misoedd Mawrth, Gorffennaf a Thachwedd.

Mae'r DLN yn gyfle i arweinwyr deintyddol o bob rhan o'r pedair gwlad ddod at ei gilydd i drafod a chodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r proffesiwn, a rhannu sut maen nhw'n mynd i'r afael â nhw.

Amcanion y DLN yw rhannu gwybodaeth a meithrin cysylltiadau, creu gwell dealltwriaeth o gylch gwaith, blaenoriaethau a heriau cyffredin pawb, ac annog cydweithredu a pherchnogaeth i ddatrys heriau cyffredin.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn 2023 yn cynnwys 'Datblygu'r tîm deintyddol cyfan' ym mis Mawrth, 'y system o safbwynt gweithwyr deintyddol proffesiynol' ym mis Gorffennaf a'r 'system o safbwynt cleifion a'r cyhoedd' ym mis Tachwedd.

Cafwyd adborth gan tua thraean o fynychwyr y digwyddiad. Mae adborth gan randdeiliaid wedi bod yn galonogol iawn gyda 100% o'r rhai a roddodd adborth ym mis Tachwedd yn dweud eu bod o'r farn bod cyfleoedd da neu ragorol i gymryd rhan, o gymharu ag 83% ar gyfer y digwyddiad ym mis Gorffennaf. Yn ogystal, roedd 100% o'r mynychwyr a roddodd adborth ym mis Tachwedd wedi sgorio'r digwyddiad cyffredinol yn dda neu'n rhagorol, o gymharu â 93% ar gyfer y digwyddiad ym mis Gorffennaf.

## Dod â'r Broses Asesu Ceisiadau Rhestri Arbenigol (SLAA) yn fewnol

Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n cael eu hystyried yn arbenigwyr yn darparu rôl werthfawr yng ngofal iechyd y geg yn y DU. Fodd bynnag, mae'r broses o asesu ceisiadau i ymuno â'r rhestri arbenigol wedi wynebu rhai heriau yn hanesyddol. Ar ddechrau 2023, gwnaethom benderfynu gweinyddu'r broses ein hunain, er mwyn mynd i'r afael â phryderon, symleiddio'r broses, a gwneud newidiadau i'r broses ar gyfer ystyried apeliadau.

Arferai'r holl geisiadau SLAA i ymuno â rhestr arbenigol gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynghori Arbenigol (SAC) perthnasol, i asesu a gwneud argymhelliad ynghylch a oedd y gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi dangos cyfwerthedd i Dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant Arbenigol (CCST) y DU. Yna byddent yn cael eu derbyn ar y rhestr arbenigol berthnasol.

Ym mis Awst 2023, yn dilyn recriwtio 43 o banelwyr, daethpwyd â'r broses yn fewnol. Cwblhawyd naw panel yn ystod tri mis olaf 2023, a chliriwyd yr ôl-groniad erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

## Annog rhanddeiliaid i roi adborth ar ein hymgynghoriadau

Yn 2023 cynhaliwyd saith ymgynghoriad gennym. Buom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob un o'r rhain i ofyn am eu barn a'u hannog i ymateb i'n cynigion. Daeth chwe ymgynghoriad i ben yn 2023 a daeth y seithfed i ben ym mis Chwefror 2024.

Roedd nifer o'r ymgynghoriadau hyn yn ymwneud â'n safonau a'n canllawiau sy'n cwmpasu'r fframwaith ymarferwyr diogel o ran ymddygiadau a chanlyniadau ar gyfer addysg ddeintyddol, cwmpas diwygiedig y canllawiau ymarfer, canllawiau wedi'u diweddaru ar indemniad ac yswiriant, a chanllawiau ar roi gwybod am broblemau neu faterion yn codi. Hefyd, cynhaliwyd sawl ymgynghoriad gennym yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer, gan roi sylw i ddiwygiadau i ganllawiau y Pwyllgor Gorchmynion Interim, ac ar fformat ein gwrandawiadau.

Yn olaf, buom yn ymgynghori ar y llwybrau i gofrestru ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol â chymwysterau rhyngwladol.

Mae adroddiadau canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi a gellir eu gweld yn yr adran ymgynghoriadau ar ein gwefan.

## Cofrestru rhyngwladol

Yn dilyn sawl blwyddyn o drafod, negodi a chydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, pasiwyd deddfwriaeth a oedd yn cael yr effaith a ganlyn o 8 Mawrth 2023:

- Mae'r GDC wedi'i rymuso i ymgynghori ar Reolau sy'n llywodraethu ein prosesau cofrestru rhyngwladol, a'u llunio.
- Cafodd rheolau presennol yr Arholiad Cofrestru Tramor (ORE) eu dirymu gan y Gorchymyn ond cawsant eu "cadw" am 12 mis, sy'n golygu eu bod yn parhau i fod mewn grym tan 8 Mawrth 2024.
- Ni all unigolyn sydd â chymhwyster sylfaenol dramor fel deintydd wneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol.
- Diystyrwyd cyfrifiad amser ymgeiswyr ORE yr effeithiwyd arnynt gan gyfuniad o'r rheol sy'n mynnu bod dwy ran o'r arholiad yn cael eu cwblhau o fewn pum mlynedd a gohirio'r arholiad yn ystod y pandemig, yn ôl cyfnod atal yr arholiad.

Mae hyn yn golygu, o fis Mawrth 2024, bod ein prosesau cofrestru rhyngwladol yn cael eu llywodraethu gan reolau newydd. Ymgynghorwyd ar y rheolau hyn yn 2023, a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Nid yw ceisiadau gan ddeintyddion a gymhwysodd dramor ond a wnaeth gais i'r gofrestr gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol wedi'u derbyn ers 8 Mawrth 2023. Bydd ceisiadau a dderbynnir cyn y dyddiad hwnnw yn parhau i gael eu prosesu.

Cawsom nifer fawr iawn o geisiadau cyn cau'r llwybr, gan arwain at ôl-groniad o 5,700 o geisiadau. Gwnaethom neilltuo adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn, ac erbyn diwedd 2023 roedd dros 2,000 o geisiadau wedi'u hasesu gan baneli asesu cofrestru, gan arwain at dros 1,200 o gofrestriadau. Yn ogystal, cynyddwyd capasiti asesu ein paneli o 150 y mis ym mis Hydref i 250 y mis ym mis Rhagfyr, a byddwn yn parhau â'r capasiti asesu cynyddol hwn yn 2024. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd yr ôl-groniad hwn yn lleihau'n sylweddol tan ddiwedd 2024.

Hefyd, adolygwyd capasiti'r ORE gennym. Cynyddwyd y capasiti ar gyfer arholiad rhan un o 200 i 600 fesul sesiwn, gan gynyddu'r capasiti cyffredinol o 400 i 1,200, a chynyddwyd nifer y sesiynau arholiad rhan dau o dri i bedwar, gan gynyddu'r capasiti o 432 i 576 y flwyddyn. Bydd y capasiti cynyddol hwn yn parhau yn 2024.

Mae gwaith yn parhau yn 2024 i wella llwybrau cofrestru ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso dramor ac sy'n dymuno gweithio yn y DU.

## Gwella sut rydym yn gweithio gyda swyddogion cyswllt

Mae swyddogion cyswllt yn rhan hollbwysig o'r gweithlu rheoleiddio, sy'n hanfodol i lawer o'n gweithgareddau craidd, fel sicrhau safonau addysg ac ymddygiad.

Fe wnaeth dau brosiect a gwblhawyd yn 2023 wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda swyddogion cyswllt. Ystyriodd y cyntaf y grwpiau amrywiol, sut y cânt eu defnyddio a sut i fanteisio i'r eithaf ar eu gwaith. Sefydlodd yr ail brosiect gronfa ddata o'n swyddogion cyswllt i alluogi rheolaeth fwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r broses recriwtio a phenodi swyddogion cyswllt, ymgysylltu, cynllunio'r gweithlu, datblygu, tâl ac adrodd ar y gweithlu.

## Gweithredu systemau newydd i wella gwasanaeth i gofrestreion ac effeithlonrwydd y sefydliad

Mae systemau cefn swyddfa yn parhau i fod yn hanfodol i'n heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd gweithredol. Aethom ati i roi nifer o systemau cefn swyddfa newydd ar waith yn 2023, gan gynnwys system gyllid newydd a aeth yn fyw ym mis Ionawr 2023. Rydym eisoes yn gweld manteision effeithlonrwydd o ganlyniad.

Cyflwynwyd warws data newydd gennym i ddiweddaru systemau nad oeddent bellach yn gallu gwneud yr hyn oedd yn angenrheidiol. Mae ein system newydd yn cynnig gwell adroddiadau gwybodaeth reoli, gan ddarparu data perfformiad cyfredol i reolwyr.

Mae cofrestru gyda'r GDC, i'r rhan fwyaf o weithwyr deintyddol proffesiynol, yn brofiad untro ac rydym am iddo fod yn syml heb orfod dibynnu ar argraffu a phostio gwaith papur.

Aethom ati i ddechrau'r Rhaglen Swyddfa Ddi-bapur yn 2023, sy'n brosiect gwella'r gwasanaeth i archwilio'r cyflwyniad o wasanaethau cofrestru di-bapur ar gyfer cofrestreion yn y DU a thramor. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo yn unol â'r bwriad, a dechreuodd y broses dendro ar gyfer darparwr meddalwedd i gefnogi'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2024.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y gwaith hwn yn hwyluso ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o gofrestru gyda'r GDC. Bydd yn caniatáu profiad symlach i ymgeiswyr, heb y costau ychwanegol o argraffu a phostio cofnodion. Bydd y GDC hefyd yn elwa ar gofnodion electronig yn hytrach nag archifau papur, sy'n golygu y bydd hi'n haws cyrchu cofnodion a bydd llai o ofynion storio ffisegol.

Bydd hyn oll yn cyfrannu at wella ein systemau a'n prosesau gan sicrhau mwy o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chysondeb.

## Diwygio rheoleiddio

Ymgynghorodd y llywodraeth yn 2023 ar ddeddfwriaeth sy'n galluogi'r cam cyntaf i ddiwygio sut y rheoleiddir gofal iechyd proffesiynol. Gwnaethom ddadansoddiad manwl o'r cynigion deddfwriaethol a chyflwyno ymateb cynhwysfawr i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Er bod y diwygiadau cychwynnol yn canolbwyntio ar y Cyngor Meddygol Cyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio i ddarparu templed ar gyfer rheoleiddio proffesiynol yn ehangach.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth ar ddatblygu cynlluniau diwygio, er nad oes amserlen ar gyfer diwygio'r GDC.

## d) Perfformiad cofrestru

### Trosolwg

Rydym yn cynnal cofrestr o weithwyr deintyddol proffesiynol sy'n bodloni ein safonau ac sy'n gallu ymarfer deintyddiaeth yn gyfreithlon yn y DU.

Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr fod â chymwysterau priodol, neu basio asesiad, a bodloni gofynion iechyd, cymeriad ac iaith Saesneg i'w hystyried yn addas i ymarfer fel aelod o'r tîm deintyddol.

Mae sawl ffordd o gofrestru:

- Cymhwyster y DU cydnabyddedig.
- Diploma Ewropeaidd perthnasol.
- Cymhwyster tramor cydnabyddedig.
- Asesiad o addasrwydd i gofrestru, drwy asesiad o sgiliau a gwybodaeth gan banel y GDC.
- Pasio rhannau 1 a 2 o'r Arholiad Cofrestru Tramor.

Rydym yn cofrestru'r tîm deintyddol cyfan, ar draws pedair gwlad y DU. Mae hyn yn cynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig, technegwyr deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol.

### Rhestri arbenigol

Rydym yn cynnal rhestri o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i gael eu hystyried yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae gan bob ymarferydd deintyddol proffesiynol ddyletswydd i ddiweddaru ei sgiliau a'i wybodaeth yn ystod ei yrfa. Mae DPP yn un o'r gofynion ar gyfer cofrestru gyda'r GDC. Mae'r gofynion hyn yn amrywio yn ôl proffesiwn deintyddol, ond mae'n rhaid i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol gwblhau o leiaf ddeg awr o DPP dros bob cyfnod o ddwy flynedd.

### Amseroldeb cofrestru

Yn dilyn y nifer sylweddol a digynsail o geisiadau DCP rhyngwladol (tua 5,700) a oedd wedi dod i law erbyn 8 Mawrth 2023 (pan gaeodd y llwybr cofrestru hwn), recriwtiwyd gweithwyr achos ychwanegol gennym i gefnogi cynnydd pob llwybr ymgeisio. Erbyn diwedd 2023 roedd 2,000 a mwy o geisiadau wedi'u hasesu gan baneli asesu cofrestriadau, gan arwain at dros 1,200 o gofrestriadau.

Clirio'r ôl-groniad gan gynnal safonau trylwyr a sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i gael eu diogelu oedd blaenoriaeth y tîm cofrestru. Rydym ar y trywydd iawn i glirio'r ôl-groniad erbyn diwedd 2024.

Yn 2023, llwyddodd y swyddogaeth Cofrestru i gwblhau 11,476 o geisiadau ar draws pob llwybr, cynnydd sylweddol ar uchafswm o 8,979 o geisiadau yn y gorffennol, a gwblhawyd yn 2015. Yn ogystal, mae'r amser mae'n ei gymryd i symud pob cais i'r llwybr cofrestru wedi gwella ym mhob maes.

## Nifer y gweithwyr deintyddol proffesiynol ar gyfer 2023

Roedd cynnydd o 3.9% yng nghyfanswm y gweithwyr deintyddol proffesiynol ar ein cofrestr, o 115,541 ar ddiwedd 2022 i 120,030 ar ddiwedd 2023.[1]

| Math o gofrestriad | Nifer y gweithwyr deintyddol proffesiynol | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Deintydd | 45,204 | 38% |
| Gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | 74,826 | 62% |
| **Cyfanswm** | **120,030** | **100%** |

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y deintyddion a'r gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2023. Dim ond unwaith y mae gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, yn cael ei gyfrif yn y tabl hwn.

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grwpiau deintyddol ar 31 Rhagfyr 2023

| Teitl y cofrestriad | Nifer y gweithwyr deintyddol proffesiynol | % o gyfanswm y teitlau ar y gofrestr | Nifer y teitlau newydd a ychwanegwyd | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nyrs Ddeintyddol | 61,774 | 47.87% | 5,330 | 55.1% |
| Deintydd | 45,204 | 35.03% | 2,130 | 22.0% |
| Hylenydd Deintyddol | 9,572 | 7.42% | 910 | 9.4% |
| Therapydd Deintyddol | 5,961 | 4.62% | 1,020 | 10.5% |
| Technegydd Deintyddol | 5,092 | 3.95% | 139 | 1.4% |
| Therapydd Orthodontig | 1,021 | 0.79% | 117 | 1.2% |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 428 | 0.33% | 35 | 0.4% |
| **Cyfanswm** | **129,052** | **100%** | **9,681** | **100%** |

Gall gweithwyr deintyddol proffesiynol ddal mwy nag un teitl cofrestredig. Roedd cynnydd o 5.4% yng nghyfanswm y teitlau cofrestredig yn 2023, o 122,432 yn 2022 i 129,052 yn 2023.

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhanbarth cymhwyso ar 31 Rhagfyr 2023

### Deintyddion, yn ôl rhanbarth cymhwyso

### Ychwanegiadau newydd i'r gofrestr deintyddion yn 2023, yn ôl rhanbarth cymhwyso

| Rhanbarth cymhwyso | Nifer y ceisiadau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Wedi cymhwyso yn y DU | 1,087 | 51.0% |
| Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 818 | 38.4% |
| ORE – arholiad statudol y DU | 203 | 9.5% |
| Wedi cymhwyso - gweddill y byd | 22 | 1.1% |
| **Cyfanswm** | **2,130** | **100.00%** |

### Gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol, yn ôl rhanbarth cymhwyso

| Teitl gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | Wedi cymhwyso yn y DU | Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | Wedi cymhwyso - gweddill y byd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nyrs Ddeintyddol | 61,563 | 143 | 68 | 61,774 |
| Hylenydd Deintyddol | 7,606 | 459 | 1,507 | 9,572 |
| Therapydd Deintyddol | 4,436 | 3 | 1,522 | 5,961 |
| Technegydd Deintyddol | 4,873 | 197 | 22 | 5,092 |
| Therapydd Orthodontig | 957 | 2 | 62 | 1,021 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 426 | | 2 | 428 |
| **Cyfanswm** | **79,861** | **804** | **3,183** | **83,848** |

### Ychwanegiadau newydd i'r gofrestr gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol yn 2023, yn ôl rhanbarth cymhwyso

| Teitl gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | Wedi cymhwyso yn y DU | Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | Wedi cymhwyso - gweddill y byd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nyrs Ddeintyddol | 5,306 | 2 | 22 | 5,330 |
| Hylenydd Deintyddol | 383 | 21 | 506 | 910 |
| Therapydd Deintyddol | 337 | | 683 | 1,020 |
| Technegydd Deintyddol | 131 | 5 | 3 | 139 |
| Therapydd Orthodontig | 86 | | 31 | 117 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 35 | | | 35 |
| **Cyfanswm** | **6,278** | **28** | **1,245** | **7,551** |

### Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhywedd deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol ar 31 Rhagfyr 2023

| | Nifer y gweithwyr deintyddol proffesiynol | | | % o'r cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o gofrestriad** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** |
| Deintydd | 21,400 | 23,801 | 45,201 | 47.3% | 52.7 | 100% |
| Gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | 5,437 | 69,389 | 74,826 | 7.3% | 92.7% | 100% |
| **Cyfanswm** | **26,837** | **93,190** | **120,027** | **22.3%** | **77.7%** | **100%** |

Nodyn: Ni ddarparwyd manylion rhywedd gan dri deintydd.

Mae rhagor o fanylion am ein perfformiad cofrestru ar gael yn ein hadroddiad Ystadegau cofrestru a gyhoeddir ar wahân.

## e) Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer

### Trosolwg

Er mwyn diogelu'r cyhoedd, un o'n rolau fel rheoleiddiwr yw ymchwilio i bryderon a gweithredu pan fydd gweithiwr deintyddol proffesiynol yn gwyro'n sylweddol oddi wrth ein safonau. Pan fydd rhywun yn codi pryderon gyda ni sy'n bodloni ein trothwy, byddwn yn ymchwilio i weld a oes awgrym y gallai addasrwydd unigolyn i ymarfer fod wedi'i amharu.

Pan ddywedwn fod gweithiwr deintyddol proffesiynol yn "addas i ymarfer", rydym yn golygu bod ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad priodol i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, mae addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â mwy na dim ond perfformiad clinigol neu iechyd gweithiwr deintyddol proffesiynol.

Mae addasrwydd i ymarfer hefyd yn cynnwys unrhyw beth y gallai'r gweithiwr cofrestredig fod wedi'i wneud sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol proffesiynol a rheoleiddio'r proffesiwn hwnnw. Gallai hyn gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol, fel cyflawni trosedd.

Os oes pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd gweithiwr deintyddol sy'n cyflwyno risg ddifrifol i gleifion, neu sy'n amharu'n ddifrifol ar hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth, byddwn yn ymchwilio a lle bo'n briodol yn gweithredu i liniaru'r risg. Gallai pryderon ddod yn uniongyrchol gan glaf, drwy atgyfeiriad gan gorff arall (er enghraifft, hysbysiad gan yr heddlu am euogfarn neu rybudd troseddol), neu o ffynonellau eraill.

Mae'r mathau o faterion yr ydym yn ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- Camgymeriadau gofal clinigol, er enghraifft, camgymeriadau gyda diagnosis neu weithdrefn ddeintyddol.
- Methiant i archwilio'r claf yn iawn, cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y claf cyn rhoi triniaeth, cadw cofnodion boddhaol neu ymateb yn rhesymol i anghenion claf.
- Diffyg yswiriant indemniad proffesiynol.
- Problemau o ran atal haint (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr wrth roi triniaeth).
- Achosion difrifol o dorri cyfrinachedd claf.
- Troseddau posibl gan gynnwys twyll, camymddwyn rhywiol, lladrata neu anonestrwydd gan weithiwr deintyddol proffesiynol.
- Iechyd gwael neu gyflwr meddygol sy'n effeithio'n sylweddol ar allu gweithiwr cofrestredig i drin cleifion yn ddiogel.

Os gwelir bod addasrwydd gweithiwr deintyddol proffesiynol i ymarfer wedi'i amharu, efallai y byddwn yn penderfynu peidio â gweithredu, neu'n gorfodi cosb, sy'n cynnwys y canlynol:


- Cyhoeddi cerydd.
- Gosod amodau ar gofrestriad.
- Atal cofrestriad.
- Tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr deintyddion neu'r gofrestr gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol.

Mae proses apelio ar gael i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol sy'n rhan o'r gwrandawiad a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

## Cyfradd cau ar bob cam o'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn 2023

Mae'r diagram isod yn dangos y gyfradd cau gyfartalog ar wahanol gamau'r broses addasrwydd i ymarfer (dyma gyfartaledd yr achosion y gweithredwyd yn eu cylch yn 2023 yn hytrach na nifer yr achosion a ddaeth i law).

**Cyfradd gyfartalog cau achosion ar wahanol gamau o'r broses Addasrwydd i Ymarfer**



## Crynodeb o weithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn 2023

| Newidiadau yn y cyfraddau cau cyfartalog ar wahanol gamau'r broses Addasrwydd i Ymarfer rhwng 2021 a 2023 | 2021 | 2022 | 2023 | Newid canran o 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **O bob 100 achos a ddaeth i law:** | | | | |
| Ymlaen i asesiad | 87 | 85 | 86 | +1% |
| Ymlaen i benderfyniad arholwr achos | 43 | 34 | 34 | - |
| Ymlaen i wrandawiad Pwyllgor Ymarfer | 19 | 16 | 13 | -19% |
| Sancsiynau wedi'u gosod | 14 | 13 | 11 | -15% |
| Dim camau pellach | 5 | 3 | 2 | -33% |

| Gweithgarwch Addasrwydd i Ymarfer | 2021 | 2022 | 2023 | Newid canran o 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Pryderon newydd a ddaeth i law: | 1,349 | 1,264 | 1,297 | +3% |
| Penderfyniadau asesu a wnaed | 869 | 1,267 | 1,441 | +14% |
| Penderfyniadau archwilwyr achosion a wnaed | 304 | 326 | 356 | +9% |
| Llwyth achosion asesu ar ddiwedd y flwyddyn | 991 | 899 | 618 | -31% |

Dechreuodd llawer o'r achosion asesedig a gafodd eu cwblhau cyn 2023. Atgyfeiriwyd 40% o'r achosion a adolygwyd yn ystod y cam asesu i archwilwyr achosion a chaewyd 60% ohonynt yn y cam hwn.

Cafwyd 132 o atgyfeiriadau gan archwilwyr achosion i'r Pwyllgorau Ymarfer, 17% yn llai na 2022 (156). Hefyd, atgyfeiriodd archwilwyr achosion 10 o'r achosion hyn i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim.

Ceir rhagor o fanylion am ein perfformiad yn yr adroddiad ystadegol Addasrwydd i Ymarfer, a gyhoeddir ar wahân.

## Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol

Y Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol yw swyddogaeth farnu'r GDC ac mae'n annibynnol ac ar wahân i'n swyddogaeth ymchwilio ni.

Mae achosion a atgyfeirir gan archwilwyr achosion yn cael eu clywed gan un o dri Phwyllgor Ymarfer statudol: Ymddygiad Proffesiynol, Perfformiad Proffesiynol neu Iechyd. Mae pob panel yn cynnwys tri phanelwr, dau weithiwr deintyddol proffesiynol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn ddeintydd, ac aelod lleyg. Os yw'r cofrestrydd yn weithiwr proffesiynol gofal deintyddol, rhaid i un o'r panelwyr fod yn weithiwr proffesiynol gofal deintyddol hefyd.

Cynhaliodd y Pwyllgorau Ymarfer 91 o wrandawiadau cychwynnol yn 2023 (2022: 85). Roedd cynnydd bychan yn nifer yr achosion a oedd yn aros am wrandawiad cychwynnol gyda 147 ar ddiwedd 2023 (2022:145). O'r rhain, roedd 70 wedi methu ein targed naw mis erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023. (2022:78).

Yr amser canolrif ar gyfer gwrandawiadau cychwynnol i ddechrau o atgyfeiriad gan arholwyr achos oedd 10 mis ac un diwrnod (2022: 10 mis ac 20 diwrnod). Dechreuodd 47% o fewn naw mis i'w hatgyfeirio (2022: 38%).

Hyd cyfartalog gwrandawiad cychwynnol oedd pum niwrnod, sydd yr un fath ag yr oedd yn 2022. Daeth nifer o achosion hir iawn i ben yn 2023, a effeithiodd ar y cynnydd yn hyd gwrandawiadau. Daw'r rhan fwyaf o wrandawiadau cychwynnol i ben o fewn pum niwrnod.

**Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r holl wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sylweddol yn 2022 a 2023.**

| | Nifer y canlyniadau | | % o'r cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad y penderfyniad** | **2022** | **2023** | **2022** | **2023** |
| Amodau (gydag adolygiad) | 0 | 1 | 0% | 1.1% |
| Amodau gydag amodau ar unwaith (gydag adolygiad) | 9 | 6 | 10.5% | 6.6% |
| Dileu + atal dros dro ar unwaith | 18 | 24 | 20.8% | 26.4% |
| Ffeithiau a brofwyd ddim yn cyfateb i gamymddwyn. Cau'r achos. | 4 | 3 | 4.7% | 3.3% |
| Ffeithiau heb eu profi, achos wedi dod i ben | 2 | 2 | 2.3% | 2.2% |
| Addasrwydd i Ymarfer diffygiol. Cerydd | 8 | 6 | 9.3% | 6.6% |
| Heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer, achos wedi dod i ben | 8 | 10 | 9.3% | 11.0% |
| Dim achos i'w ateb | 1 | 2 | 1.2% | 2.2% |
| Atal dros dro yn syth | 0 | 2 | 1.2% | 2.20% |
| Atal dros dro yn syth (gydag adolygiad) | 27 | 24 | 32.5% | 26.4% |
| Atal dros dro | 4 | 8 | 4.7% | 8.7% |
| Atal dros dro (gydag adolygiad) | 3 | 3 | 3.5% | 3.3% |
| **Cyfanswm** | **84** | **91** | **100%** | **100%** |

## Gorchmynion dros dro

Ar unrhyw gam yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y bydd yr achos wedi'i ddatrys. Rydym yn gwneud hyn os ydym yn penderfynu bod risg wirioneddol o niwed sylweddol i aelod o'r cyhoedd, lle mae gwarchod hyder y cyhoedd yn y proffesiwn o fudd i'r cyhoedd, o fudd i gynnal safonau proffesiynol neu pan fo hyn er budd y gweithiwr cofrestredig ei hun.

Yn 2023, cyflwynodd y Pwyllgor Gorchmynion Interim 122 o ganlyniadau cychwynnol (2022: 146). Ni chyflwynwyd unrhyw orchymyn mewn 30 o achosion (2022: 53), gosodwyd amodau interim mewn 52 o achosion (2022: 51) a chyflwynwyd ataliad dros dro mewn 40 o achosion (2022: 42).

## f) Cynaliadwyedd

Mae adrodd ar gynaliadwyedd yn mynd y tu hwnt i agweddau ariannol ac yn cwmpasu nodau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG), ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi arferion cynaliadwy a mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio lleihau ein heffaith amgylcheddol mewn sawl ffordd ymarferol. Er enghraifft, mae ein swyddfa yn Llundain yn ymgorffori dyluniad cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon deuocsid (CO2), a system rheoli'r adeilad, sy'n ein galluogi i fod yn fwy effeithlon o ran ynni. Yn ein swyddfa yn Birmingham, rydym wedi gweithio gyda'r landlord i ailgylchu cymaint o ffrydiau gwastraff â phosibl ac wedi gwella'r system wresogi, awyru ac aerdymheru ar draws y llawr, gan arwain at well perfformiad gyda defnydd ynni is. Mae gan y ddwy swyddfa synwyryddion goleuo sy'n golygu bod y golau'n pylu ar ôl cyfnod o anweithgarwch. Mae mannau ailgylchu ym mhob cegin hefyd.

### Annog yr ymddygiadau cywir

Anogir staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a manteisio ar y cynllun Beicio i'r Gwaith sy'n caniatáu i ni alluogi gweithwyr i brynu beic fel rhan o fudd aberthu cyflog. Mae cyfleusterau storio beiciau diogel yn y ddwy swyddfa.

Rydym wrthi'n caffael y gallu i weithredu prosesau cofrestru digidol newydd ar gyfer cofrestreion cymwys yn y DU a thramor. Ar ôl ei weithredu, bydd y gostyngiad mewn papur yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn lleihau faint o wybodaeth sydd angen i ni ei gwaredu'n ddiogel.

Rydym yn ystyried materion cynaliadwyedd yn ein harferion caffael a buddsoddi hefyd. Mae ein cynghorwyr buddsoddi, sy'n rheoli ein portffolio asedau ariannol, yn defnyddio cysyniadau Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol, a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig, mewn unrhyw benderfyniad buddsoddi.

## Ein hôl troed carbon

Ein hallyriadau carbon mesuradwy ar gyfer 2023 oedd 183 tunnell o'r hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid (tCO2e). Ein ffynhonnell fwyaf o allyriadau oedd trydan a nwy, sef bron i 80% o'n holl allyriadau.


Cyfrifwyd ein hôl troed carbon drwy ddefnyddio data hygyrch ar gyfer ein defnydd o ynni a theithio busnes, gan ddefnyddio gofynion perthnasol safon gorfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr a manylion allyriadau absoliwt ac allyriadau (perthynol) wedi'u normaleiddio.

| Math o allyriad | Gweithgaredd | Unedau | 2022 (tCO2e) | % o'r cyfanswm | 2023 (tCO2e) | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynni anuniongyrchol (Cwmpas 2) | Allyriadau o brynu trydan, gan gynnwys gwres, stêm ac oeri (KWh). | 324,471 | 58.48 | 44.0% | 70.41 | 38.6% |
| | Allyriadau o brynu nwy, gan gynnwys gwres, stêm ac oeri (KWh). | 410,468 | 55.91 | 42.1% | 75.18 | 41.2% |
| Allyriadau anuniongyrchol eraill (Cwmpas 3) | Allyriadau sy'n gysylltiedig â cholledion grid, wrth gael trydan o'r orsaf ynni i'r sefydliad (KWh). | 324,471 | 5.35 | 4.2% | 6.44 | 3.5% |
| | Teithio busnes (milltiroedd) | 148,659 | 13.24 | 9.7% | 30.52 | 16.7% |
| **Cyfanswm yr allyriadau (tCO2e)** | | | **132.98** | **100%** | **182.55** | **100%** |


*Mae allyriadau Cwmpas 1 yn deillio o gerbydau a pheiriannau sy'n eiddo i'r sefydliad ac yn cael eu gweithredu ganddo

## g) Adolygiad ariannol


### Dadansoddiad o Incwm a Gwariant (£'000)




### Dadansoddiad o wariant gweithgarwch rheoleiddio (£'000)




### Dadansoddiad o weithgareddau ategol



## Ystadegau ariannol allweddol

Mae’r cyfrifon ar dudalennau 79-84 yn dangos ein hincwm a’n gwariant ar fformat cyfrifon arferol. Er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae’r tabl canlynol yn dangos ein rhaniad gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio:

Darperir manylion ailddatganiad 2022 yn Adran 3, nodyn 1.15 yr adroddiad.

| | Nodyn | 2023 £’000 | Ailddatganwyd 2022 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredol:** | | | |
| Ffioedd cofrestru | 2 | 40,679 | 38,711 |
| Ffioedd arholiadau | 2 | 1,807 | 1,511 |
| Incwm gweithredol arall | 2 | 11 | 14 |
| **Cyfanswm** | | **42,497** | **40,236** |
| **Gwariant gweithredu yn ôl gweithgaredd:** | | | |
| Gweithgareddau rheoleiddio | | 28,133 | 25,500 |
| Gweithgareddau cymorth | | 11,125 | 10,045 |
| **Cyfanswm** | | **39,258** | **35,545** |
| **Gwarged gweithredu** | | **3,239** | **4,691** |
| Trethiant | 7 | (516) | 881 |
| Incwm buddsoddi ac addasiad | | 2,296 | (3,083) |
| Elw o werthu asedau | | 3 | - |
| **Gwarged wedi’i gadw** | | **5,022** | **2,489** |

O’n hincwm yn 2023, roedd 71.7% wedi’i neilltuo ar gyfer cyflawni gweithgarwch rheoleiddio (2022: 71.7%), defnyddiwyd 25.4% ar gyfer swyddogaethau galluogi hanfodol (2022: 24.9%) a defnyddiwyd 2.9% ar gyfer gwariant arall nad yw’n arian parod (2022: 3.4%).

## Sylwebaeth ariannol

Cawn ein hariannu'n bennaf drwy ffioedd sy'n cael eu talu gan ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni i ymarfer deintyddiaeth yn y DU. Mae deintyddion yn talu ffi ar wahân i gynnal eu cofnod ar y rhestri arbenigol hefyd.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gweithredu £2.3 miliwn yn y flwyddyn 2023 i £42.5 miliwn, (2022: £40.2m). Y prif sbardunau ar gyfer y cynnydd hwn oedd:

- £1.2m o ganlyniad i effaith y cynnydd yn y ffi gadw flynyddol a godwyd ar Ddeintyddion yn 2023 (£10 y cofrestrydd) a chynnydd yn erbyn nifer amcangyfrifedig o adfer deintyddion.
- £0.2m yn gysylltiedig â ffioedd ychwanegol a dderbyniwyd sy'n adlewyrchu'r twf yn y gofrestr DCP.
- £0.6m o incwm ychwanegol a dderbyniwyd yn sgil cynnydd yn y ceisiadau cofrestru a ddaeth i law yn ystod 2023.
- £0.3m yn gysylltiedig ag arholiad ORE Rhan Un ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn.

## Dadansoddiad gwariant

Cynyddodd cyfanswm y gwariant gweithredu £3.8m yn 2023, i £39.3m (2022: £35.5m). Y newidiadau arwyddocaol (amrywiadau dros £0.25 miliwn) i'n gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio yn 2023 oedd:

- Cynnydd o £0.7m yng nghostau asesiadau paneli cofrestru a chynnydd dros dro yn ein hadnoddau mewnol ar gyfer gweithgareddau Cofrestru, i fynd i'r afael â'r lefelau uwch o geisiadau cofrestru a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn.
- Cynnydd o £0.7 miliwn mewn costau a sefydlogi adnoddau mewnol ar gyfer Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau wrth i ni wella amseroldeb cynnydd achosion ac wrth i ni fynd i'r afael â hen achosion.
- Cynnydd o £0.3m yng nghostau rhedeg yr Arholiad Cofrestru Tramor sy'n gysylltiedig â'r arholiad ychwanegol yn 2023.
- Cynnydd o tua £1.0m mewn costau ym meysydd Cyfleusterau a Thechnoleg Gwybodaeth wrth i chwyddiant uchel effeithio ar gost rhedeg a chynnal a chadw ein safleoedd.
- Cynnydd o tua £1.2m ar draws swyddogaethau rheoleiddio eraill wrth i lefelau cadw staff ostwng yn gyson ar draws y flwyddyn ac wrth i faterion recriwtio a chadw a gafwyd yn 2022 leihau.

Gydol 2023, gwnaethom barhau i elwa ar arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchwyd gan fentrau blaenorol a chyflawnwyd £1.0 miliwn o arbedion parhaus o'r prosiectau hyn. Hefyd, rydym yn parhau i weld enillion cadarnhaol yn ein buddsoddiad yn Shifting the Balance a'r Strategaeth Ystadau. Mae'r arbedion hyn yn cynrychioli 2.5% o'n sail gostau ar gyfer 2023. Daw'r arbedion cronnus dros y pum mlynedd hyd at Ragfyr 2023 i gyfanswm o £20.4 miliwn.

Rydym yn cyfyngu ar yr adrodd ar arbedion i uchafswm o 5 mlynedd. Gydol y broses o wneud arbedion effeithlonrwydd, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau nad yw gweithredu unrhyw brosiectau arbedion yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Rydym yn defnyddio'r arbedion hyn i sicrhau hyfywedd y sefydliad drwy gynyddu ein cronfeydd wrth gefn i lefel gynaliadwy ac ariannu rhaglenni sy'n buddsoddi mewn mesurau i ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithlon drwy leihau cost a baich gorfodi rheoleiddiol.

## Sefyllfa ariannol

Y cyfalaf a ddefnyddiwyd oedd £52.4 miliwn ar 31 Rhagfyr 2023 (2022: £47.4 miliwn) yn cynnwys cyfanswm asedau o £95.7 miliwn (2022: £89.2 miliwn) a rhwymedigaethau cyfredol ac anghyfredol o £43.3 miliwn (2022: £41.9m).

## Rhagolwg

Yn 2023, adolygwyd ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer y cyfnod 2024-2026. Wrth wneud hyn, adolygwyd a diwygiwyd ein cynlluniau i'r dyfodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol 2023 – 2025 y Cyngor.

Mae cyfanswm cyllideb 2024, y cytunwyd arni gan y Cyngor ym mis Hydref 2023, yn adlewyrchu cynnydd o £0.8 miliwn (1.8%) ar ein cyllideb yn 2023. Roedd y cynnydd yn adlewyrchu gwaith a ohiriwyd o gyfnodau cynharach oherwydd effaith y pandemig, effaith hysbys yr economi fyd-eang a chwyddiant y DU ar ein gorbenion wrth gwblhau ein cynllunio ariannol. Mae rhagor o fanylion am ein gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2024-2026 i'w gweld yn ein Cynllun corfforaethol a gostiwyd 2024 – 2026.

Bydd mentrau i gynhyrchu a monitro arbedion effeithlonrwydd newydd a gynhyrchir o fesurau a nodwyd eisoes yn parhau yn 2024. Er ein bod ni'n dal i chwilio am arbedion effeithlonrwydd newydd, byddwn yn sicrhau nad yw'r broses o ganfod arbedion effeithlonrwydd yn risg i ddiogelwch y cyhoedd.

## Y gronfa bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiwyd elfen buddion diffiniedig ein cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2023 gan Broadstone Consultants & Actuaries Limited, actiwari'r cynllun pensiwn.

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesu rhwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2023. Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2021, wedi eu rhagamcangyfrif drwy ganiatáu ar gyfer yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, cyfraniadau gwirioneddol a llifoedd arian ac wedi eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y rhagdybiaethau IAS19 a ddisgrifir isod. Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau.

Gall canlyniadau dan y safonau adrodd newid yn ddramatig yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Mae'r rhwymedigaethau wedi'u cysylltu ag arenillion ar fondiau corfforaethol sydd â sgôr AA, tra bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn ecwitiau neu fuddsoddiadau sy'n targedu taliadau ecwiti. Mae'n bwysig nodi mai'r gwahaniaeth rhwng y tybiaethau a ddefnyddir i ragamcanu llif arian yn y dyfodol a'r rhai a ddefnyddir i'w disgowntio sy'n bwysig, yn hytrach na gwerth absoliwt rhagdybiaethau unigol.

Mae IAS19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyfradd ddisgownt ddeillio o'r arenillion sydd ar gael ar fondiau corfforaethol 'o ansawdd uchel' sydd wedi'u dyddio'n briodol ar y dyddiad y mae'r cyfrifiadau ar waith. Yn gyffredinol, dehonglir bod bondiau o'r fath yn cael eu graddio ar lefel AA neu statws cyfatebol. Mae'r rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt ychydig yn is yn 2023 nag yn 2022. Effaith y symudiad hwn (gan gymryd bod popeth arall yn gyfartal) yw cynnydd bach i werth rhwymedigaethau.

Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd ar 31 Rhagfyr 2022, mae'r rhagdybiaeth chwyddiant RPI wedi'i ddeillio fel cyfartaledd pwysoledig o gyfraddau a nodwyd ar gromlin chwyddiant Banc Lloegr, yn seiliedig ar lifoedd arian rhagamcanol o gynllun model gyda hyd tebyg i rwymedigaethau ein cynllun. Yna cymhwyswyd didyniad o 0.1% i ddileu unrhyw bremiwm risg chwyddiant.

Mae'r canlyniad wedi cynyddu'r rhwymedigaeth budd diffiniedig (h.y. rhwymedigaethau cynllun at ddibenion IAS19) tua 1.3%.

Mae'r rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn y dyfodol wedi'i gymhwyso fel 0.5% y flwyddyn yn is na chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn y dyfodol (2022: 0.5%). Roedd hyn yn deillio fel cyfartaledd pwysoledig o fwlch o 1.0% y flwyddyn cyn 2030 (pan fydd RPI yn cyd-fynd â CPIH) a 0.2% y flwyddyn wedi hynny.

Roedd y pwysoliadau a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar lif arian disgwyliedig cynllun tybiannol o gyfnod tebyg yn y dyfodol. Y gyfradd ddeilliedig o chwyddiant RPI y dyfodol ar y sail hon yw 3.2% y flwyddyn (2022: 3.3% ) a'r gyfradd sy'n deillio o chwyddiant CPI yn y dyfodol yw 2.7% y flwyddyn (2022: 2.8%).

Ar 31 Rhagfyr 2023, mae gan y cynllun warged o £7.5m ar sail mabwysiadu tybiaethau IAS 19 mabwysiedig. O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rhaid i ni gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw.

Fel sy'n gyffredin gyda threfniadau cynllun pensiwn tebyg eraill, nid yw gweithredoedd ymddiriedolaeth y cynllun yn caniatáu i unrhyw warged wrth ddirwyn y cynllun i ben gael ei ddychwelyd i'r cyflogwr. Yn hytrach, byddai unrhyw warged sy'n deillio o hynny yn cael ei ddosbarthu i'w aelodau. Felly, mae unrhyw warged (ased pensiwn) sydd gan y cynllun ar adeg y prisiad yn perthyn i'r cynllun, sy'n endid cyfreithiol ar wahân.

Er bod prisiad diweddaraf y cynllun cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr 2023 yn dangos gwarged o £7.5 miliwn, prisiad moment mewn amser yw hwn. Mae'r prisiad tair-blynyddol diweddaraf ym mis Ebrill 2021 yn amcangyfrif mai £18.3 miliwn yw atebolrwydd hirdymor y cynllun (gan ddefnyddio methodoleg y Rheoleiddiwr Pensiwn wrth baratoi'r cyfrifiad).

Rhoddir manylion llawn y gwerthusiad a'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd yn nodyn 16.

## Risgiau hylifedd

Cynyddodd ein balans arian parod i £60.3 miliwn (2022: £56.5 miliwn) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balansau'n gylchol ac ar eu huchaf ym mis Rhagfyr/Ionawr ac ym mis Gorffennaf/Awst pan fydd y rhan fwyaf o ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol yn llawn, gyda nifer fach yn dewis talu eu ffi gadw flynyddol drwy bedwar rhandaliad chwarterol. Mae ein gwariant wedi'i wasgaru'n gyfartal gydol y flwyddyn ariannol.

Rydym yn asesu ein hylifedd yn y dyfodol yn rheolaidd, ac mae'r gwaith hwn yn cefnogi paratoi'r cyfrifon fel busnes hyfyw. Cwblhawyd y gwaith hwn yn fanwl ac fe'i hystyriwyd gan y Cyngor fel rhan o'n cylch cynllunio Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2024-2026 ym mis Hydref 2023, a chafodd ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Chwefror 2024.

Mae'r senarios rydym wedi'u modelu yn cynnwys asesu ystod o risgiau incwm, ac effaith amhariad ar ein portffolio buddsoddiadau. Yn dilyn ein modelu, rydym yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol.

Buddsoddir y balansau nad oes eu hangen am resymau gweithredol tymor byr yn unol â'n hegwyddorion buddsoddi, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2023.

## Cronfeydd wrth gefn

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £52.4 miliwn (2022: £47.4 miliwn), ac o'r rhain, roedd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £46.9 miliwn (2022: £43.6m).

Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd gennym £32.8 miliwn o gronfeydd hylifedd a chronfeydd heb eu neilltuo oedd ar gael ar unwaith ("cronfeydd wrth gefn rhydd"). Yn yr un modd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, mae gennym gronfeydd wrth gefn rhydd i sicrhau y gall ein gweithgareddau rheoleiddio barhau drwy unrhyw gyfnod o ostyngiad annisgwyl mewn incwm neu wariant uwch (risg ariannol).

Cedwir ein cronfeydd wrth gefn rhydd hefyd i liniaru yn erbyn unrhyw amrywiadau tymor byr yng ngwerth ein portffolio buddsoddi a rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Gall unrhyw amrywiadau tymor byr mewn prisiadau effeithio ar werth cronfeydd wrth gefn rhydd sydd ar gael i ni o flwyddyn i flwyddyn.

Caiff ein strategaeth a'n hegwyddorion buddsoddi eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i sicrhau bod lefel y risg buddsoddi'n cyd-fynd â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae rhwymedigaethau ein cynllun pensiwn buddion diffiniedig yn risg ariannol hirdymor. Mae'r Cyngor yn parhau i geisio lliniaru a rheoli'r risg hon drwy gyfleoedd ariannol i leihau peryglon i'r cynllun.

Mae ein dull presennol o gyllidebu yn lleihau lefel y gyllideb wrth gefn sydd gennym ar gyfer ansicrwydd ariannol. Yn hytrach, rydym yn gosod unrhyw risg ac ansicrwydd ariannol posibl o ran gwariant yn erbyn cronfeydd wrth gefn rhydd. Mae hyn yn golygu bod mwy o debygolrwydd o'r angen i alw yn erbyn cronfeydd wrth gefn rhydd, o gymharu â'r gorffennol.

Cafodd ein polisi cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024 ei adolygu a'i gytuno ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Hydref 2023 ac fe'i pennwyd gan gyfeirio at lefel y risg ariannol sy'n wynebu ein sefydliad. Nod y Cyngor yw rheoli ein cronfeydd wrth gefn ar lefel nad yw'n ormodol nac yn peryglu ein solfedd.

Mae Polisi Cronfeydd Wrth Gefn cymeradwy y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- Amcanion y Cyngor er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol.
- Ariannu cyfalaf gweithio a rheoli llif arian parod y Cyngor o ddydd i ddydd, gyda'r incwm ar ei uchaf ar adegau prysur yn yr haf a'r gaeaf.
- Risgiau i incwm a gwariant y Cyngor.
- Rhaglenni mawr o wariant cyfalaf a gynlluniwyd.

Wrth osod lefel darged, ystyriodd y Cyngor y byddai cronfeydd wrth gefn rhydd o isafswm o dri mis o wariant gweithredol ac uchafswm o chwe mis yn briodol, gyda'r targed yn bedwar mis a hanner o wariant gweithredol wedi'i addasu ar gyfer ein hasesiad presennol o risg ariannol, erbyn diwedd ein cynllun tair blynedd presennol o weithgareddau strategol.

Dangosodd ein hasesiad wrth baratoi cynllun CCP 2024 – 2026 y byddai ein cynlluniau gwariant presennol yn cynnal cronfeydd rhydd ar lefel sy'n fwy na Pholisi Wrth Gefn y Cyngor erbyn diwedd y cyfnod cynllunio hwnnw. Ym mis Hydref 2023, cytunodd y Cyngor i ostwng y Ffi Gadw Flynyddol ar gyfer deintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol, mewn ymateb i'r asesiad hwn. Mae'r gostyngiad hwn yn dychwelyd lefel y cronfeydd wrth gefn a ragwelir i darged cronfeydd wrth gefn y Cyngor erbyn diwedd y cyfnod strategol cyfredol (Rhagfyr 2025).

Ein lefel wirioneddol o gronfeydd wrth gefn rhydd ar 31 Rhagfyr 2023, fel y'i haddaswyd ar gyfer ein hasesiad cyfredol o risg ariannol, yw 3.5 mis o wariant gweithredu. Mae'r lefel hon yn adlewyrchu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein hincwm a'n gwariant, dros oes cynllun tair blynedd, ac mae o fewn ystod Polisi Wrth Gefn derbyniol y Cyngor.

Dyma ein sefyllfa wrth gefn ar y dyddiad adrodd isod:

| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2023 | £000 |
|---|---|
| | 46,930 |
| O'r arian hwn: | |
| Cronfeydd wrth gefn wedi eu hymrwymo i asedau sefydlog | (14,100) |
| Rhagolwg o symudiad cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn unol â'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2024 – 2026 | (13,479) |
| Asesiad presennol o risg ariannol dros gynllun Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2024 – 2026 | (7,222) |
| **Cronfeydd wrth gefn rhydd fel y'u haddaswyd ar gyfer asesiad presennol o risg ariannol** | **£12,129<br>3.5 mis** |

Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n briodol yng ngoleuni ein ffocws cynyddol ar heriau ac amcangyfrifon cynllunio ariannol tymor canolig.

## Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi eu harchwilio gan ein harchwilwyr, Haysmacintyre LLP o 10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1AG ac, yn unol â Deddf Deintyddion 1984, gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, National Audit Office, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP.

Mae adroddiad yr archwilydd annibynnol i'w weld ar dudalen 77 o'r adroddiad hwn, a thystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 72.

## Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol amdani. Rydym wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gwybod am y wybodaeth honno.

**Tom Whiting**, Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

12 Gorffennaf 2024

## Adran dau:

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn nodi sut rydym yn bodloni ein gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd.

# 3. Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau

## Strwythur y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod: chwe aelod nad ydynt yn gofrestredig (lleyg) a chwe gweithiwr proffesiynol deintyddol cofrestredig. Rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023, roedd aelodau'r Cyngor fel a ganlyn:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau nad ydynt yn gofrestredig (lleyg) |
|---|---|
| Donald Burden | Yr Arglwydd Toby Harris (Cadeirydd) |
| Jeyanthi John (tan 30 Medi 2023) | Terry Babbs |
| Angie Heilmann MBE | Ilona Blue |
| Serbjit Kaur MBE (o 1 Hydref 2023) | Anne Heal |
| Caroline Logan (tan 30 Medi 2023) | Sheila Kumar |
| Mike Lewis | Laura Simons |
| Timea Milovecz (o 1 Hydref 2023) | |
| Simon Morrow | |

Ym mis Medi 2023, cyrhaeddodd aelodau cofrestredig Jeyanthi John a Caroline Logan ddiwedd eu tymhorau fel Aelodau o'r Cyngor.

Yn dilyn ymarfer recriwtio agored a chystadleuol, cymerodd Serbjit Kaur MBE a Timea Milovecz yr awenau fel aelodau cofrestredig o'r Cyngor ar 1 Hydref 2023.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2023

| Aelod o'r Cyngor | Presenoldeb yng nghyfarfod y Cyngor | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chwefror | Ebrill | Mehefin | Medi | Hydref | Rhagfyr |
| Yr Arglwydd Toby Harris | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Terry Babbs | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ilona Blue | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Donald Burden | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Anne Heal | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Angie Heilmann MBE | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jeyanthi John | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Serbjit Kaur MBE | | | | | ✓ | ✓ |
| Sheila Kumar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mike Lewis | ✓ | ✗* | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Caroline Logan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Timea Milovecz | | | | | ✓ | ✓ |
| Simon Morrow | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Laura Simons | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

* Nid oedd Mike Lewis yn gallu mynychu sesiwn gyhoeddus y Cyngor ym mis Ebrill 2023, ond mynychodd am ran o'r sesiwn gaeedig.

Mae gan y Cyngor nifer o bwyllgorau statudol ac anstatudol sydd â rolau a chyfrifoldebau amrywiol.

## Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae chwe phwyllgor statudol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni dyletswydd statudol y GDC fel y nodir yn Neddf Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys panelwyr annibynnol o aelodau cofrestredig ac aelodau nad ydynt yn gofrestredig (lleyg). Nid yw aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y pwyllgorau statudol. Mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau statudol:

**Pwyllgor Ymchwilio (IC):** mae'n ystyried honiadau o addasrwydd i ymarfer er mwyn penderfynu a ddylid cyfeirio'r honiadau at un o'r tri Phwyllgor Ymarfer (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) am ymchwiliad llawn. Mae swyddogaethau'r IC yn cael eu dirprwyo i archwilwyr achos yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

**Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC):** gellir cyfeirio achos i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim unrhyw bryd i ystyried a fyddai gwneud gorchymyn (megis gosod amodau ar ymarfer neu atal dros dro) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn briodol cyn cynnal ymchwiliad llawn. Byddai gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gorchmynion Interim pan fo'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu fel arall er budd y cyhoedd.

**Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC):** mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn amharu ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.

**Pwyllgor Iechyd (HC):** mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod gallu gweithiwr deintyddol proffesiynol i ymarfer yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol.

**Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol (PPC):** mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn amharu ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.

**Pwyllgor Apeliadau Cofrestru (RAC):** mae'n ystyried penderfyniadau'r Cofrestrydd i wrthod caniatáu i weithiwr deintyddol proffesiynol gael ei gynnwys ar y gofrestr, i'w dynnu oddi ar y gofrestr ac i wrthod adnewyddu cofrestriad.

Mae rhagor o wybodaeth am waith ac aelodaeth pwyllgorau statudol y Cyngor yn adran Llywodraethu ein gwefan.

Penodir aelodau'r pwyllgorau statudol gan y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol (SPC). Mae'r SPC yn goruchwylio'r broses o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol.

Yn 2023, aelodau'r SPC oedd Syr Ross Cranston FBA (Cadeirydd lleyg), Carol Ashton (aelod lleyg), Serbjit Kaur MBE (aelod cofrestredig - tan fis Medi 2023 pan ymddiswyddodd o'r SPC wrth iddi ymgymryd â rôl fel aelod cofrestredig o'r Cyngor), Ei Anrhydedd y Barnwr Philip Sycamore (aelod lleyg) a Jasvinder Matharoo (aelod cofrestredig). Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer aelod cofrestredig ychwanegol o'r SPC yn 2024.

## Pwyllgorau anstatudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Yn 2023, cefnogwyd y Cyngor gan dri phwyllgor anstatudol:

- Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC).
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC).
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom).

Roedd cworwm ym mhob un o'r cyfarfodydd pwyllgor anstatudol a gynhaliwyd yn 2023.

Roedd nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer pob pwyllgor yn 2023, ac aelodau'r pwyllgorau hyn, fel a ganlyn:

| Pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2023 | Aelodaeth |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Risg** | Chwech | Sheila Kumar (Cadeirydd)<br>Angie Heilmann MBE (tan 30 Medi 2023) ^<br>Simon Morrow<br>Serbjit Kaur MBE (o 1 Hydref 2023) ^^<br>Laura Simons (o 1 Hydref 2023) ^^^<br>Aelod Annibynnol – Elizabeth Butler |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** | Chwech | Terry Babbs Cadeirydd)<br>Donald Burden<br>Anne Heal<br>Ilona Blue |
| **Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu** | Pump | Anne Heal (Cadeirydd)<br>Jeyanthi John (tan 30 Medi 2023)<br>Mike Lewis<br>Caroline Logan (tan 30 Medi 2023)<br>Laura Simons (tan 30 Medi 2023) ^^^<br>Angie Heilmann MBC (o 1 Hydref 2023)^<br>Aelod Annibynnol – Ann Brown |

^Bu Angie Heilmann MBE yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg tan 30 Medi 2023. Penodwyd Angie Heilmann MBE yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu o 1 Hydref 2023.

^^Penodwyd Serbjit Kaur MBE yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ôl iddi gael ei phenodi i'r Cyngor.

^^^Bu Laura Simons yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu tan 30 Medi 2023. Penodwyd Laura Simons yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Hydref 2023.

# 4. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 rhaid i ni baratoi cyfrifon blynyddol ar fformat a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a gwir am gyflwr y GDC a'i incwm a'i wariant, y newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd (ac, wedi hynny ym mis Hydref 2023, y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd Dros Dro) yn Swyddog Cyfrifyddu y GDC. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf cyfrifol i'r Cyfrin Gyngor a'r Senedd am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y GDC, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r GDC.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu:

- Dalu sylw i'r dyfarniad cyfrifon a gyhoeddir gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol.
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y dyfarniad cyfrifon, wedi eu dilyn gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny.
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy a derbyn cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r GDC a'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn bod y cyfrifon, lle bo'n berthnasol i'r GDC, wedi cydymffurfio â hwy dan bob amgylchiad perthnasol, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

# 5. Datganiad llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldebau'r Tîm Arwain Gweithredol

Yn fy rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal llywodraethu effeithiol a sicrhau bod mesurau rheoli mewnol cadarn yn eu lle i gefnogi polisïau, nodau ac amcanion y GDC, ac i ddiogelu asedau'r sefydliad, yr wyf yn bersonol atebol amdanynt. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu rwy'n ystyried, er nad wyf wedi fy nghyfyngu gan, y canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Wrth wneud fy asesiad, defnyddiais wybodaeth o drafodaethau gyda, ac adroddiadau gan, yr archwilwyr mewnol a thrwy fonitro ein cofrestri risg yn barhaus. Hefyd, cefais sicrwydd drwy'r flwyddyn gan Dîm Arwain Gweithredol y GDC (gan gynnwys trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu), o'r wybodaeth am berfformiad a rheolaeth ariannol a gynhyrchir gan y sefydliad ac o waith y Cyngor a'i bwyllgorau. Gan nad yw'r GDC wedi'i ddosbarthu fel corff hyd braich, nid oes angen iddo gydymffurfio â Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer 2017. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion ymarfer da a fynegir yn y ddogfen honno wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu. Cyflwynir ein harferion i sicrhau llywodraethu effeithiol, tryloyw ac atebol yn yr adran ar Effeithlonrwydd y Cyngor.

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r GDC yn gorff corfforedig wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Penodir y 12 aelod o'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, gan y Cyfrin Gyngor. Yn 2023, gwnaed dau benodiad i'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor. Gwnaed y penodiadau hyn o ganlyniad i gynllunio olyniaeth effeithiol oherwydd bod dau aelod cofrestredig o'r Cyngor wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod gwasanaeth ar 30 Medi 2023. Sicrhawyd y broses ar gyfer y penodiad gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad strategol y GDC. Ym mis Hydref 2022, pennodd y Cyngor Strategaeth Gorfforaethol y GDC ar gyfer 2023 – 2025. Parhaodd y Cyngor a'r Tîm Gweithredol i weithio yn unol â'r strategaeth hon yn 2023.

Pwrpas y strategaeth yw sicrhau bod y GDC yn cyd-fynd â chenhadaeth a phwrpas statudol y Cyngor, sicrhau bod systemau ar waith i fonitro perfformiad a dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif a sicrhau uniondeb. Mae'n nodi pedwar nod strategol ar gyfer y sefydliad, er mwyn cyflawni busnes gweithredol:

- **Nod Strategol Un:** Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cyrraedd ac yn cynnal safonau uchel o ofal deintyddol diogel ac effeithiol.
- **Nod Strategol Dau:** Rhoddir sylw effeithiol a chymesur i bryderon er mwyn diogelu'r cyhoedd a chefnogi dysgu proffesiynol.
- **Nod Strategol Tri:** Mae'r sefydliadau cywir yn ymdrin â risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y cyhoedd.
- **Nod Strategol Pedwar:** Mae rheoleiddio deintyddol proffesiynol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn addasu i'r amgylchedd sy'n newid.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb sylweddol. Felly, mae wedi penderfynu y gall gyflawni ei swyddogaethau yn y ffordd orau drwy ddirprwyo rhai materion i is-gyrff (megis un o'i bwyllgorau anstatudol) neu i mi fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

Nid yw'r Cyngor yn dirprwyo'r canlynol:

- Cymeradwyo strategaeth y GDC.
- Gwneud rheolau statudol.
- Cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun busnes blynyddol.
- Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac unrhyw adroddiad sydd angen ei gyflwyno gerbron dau dŷ'r Senedd.
- Dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif am reoli'r sefydliad.
- Goruchwylio risgiau strategol neu bennu parodrwydd i dderbyn risg.

Mae'r Cyngor a'i bwyllgorau'n gweithredu yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu a monitro Cylch Gorchwyl ei bwyllgorau. Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau ac mae datganiadau o fuddiant Aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd.

## Pwyllgorau Anstatudol

Yn ystod 2023, roedd tri phwyllgor anstatudol yn cefnogi'r Cyngor yn ei rôl a'i swyddogaethau. Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau cofrestredig ac Aelodau lleyg o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu, mae'r ddau wedi parhau i gael eu cefnogi gan Aelod Annibynnol. Mae manylion llawn aelodaeth pob pwyllgor yn yr adran ar Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau yn yr adroddiad hwn.

Rhan allweddol o rôl y pwyllgor anstatudol yw sicrhau bod materion penodol yn destun craffu a monitro manwl, ar ran y Cyngor, a rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar sail hyn. Felly, mae cadeiryddion y pwyllgorau'n rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod ac mae pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, yn crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

Cynhaliwyd cyfarfodydd pwyllgor gydol 2023 yn rhithwir ac wyneb yn wyneb.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Diben y Pwyllgor Archwilio a Risg yw darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y sefydliad, systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheolaeth risg y GDC a ffynonellau sicrwydd annibynnol a ddarparwyd gan wasanaethau'r archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys monitro a yw'r camau a nodir yn adroddiadau'r archwilwyr mewnol wedi'u cyflawni. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor yn craffu hefyd ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer lleisio pryderon am dwyll, chwythu'r chwiban ac ymchwiliadau arbennig. Mae Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gael ar wefan GDC.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y prosesau rheoli risg sydd yn eu lle'n ddigonol ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r Gofrestr Risg Strategol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sicrhau sicrwydd ar drefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol a chwblhau rhaglen flynyddol o adolygiadau risg archwiliad dwfn â ffocws gyda pherchnogion risg a nodwyd.

Yn 2023, adolygodd y Pwyllgor y risgiau sy'n gysylltiedig â 'Recriwtio a Chadw', 'Cofrestru', 'Addasrwydd i Ymarfer', 'Cyllid', a 'Sicrwydd Ansawdd Addysg'. Hefyd, bu'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu rhaglen archwilio fewnol y GDC ac yn craffu ar y dull o reoli risg strategol. Cefnogir y Pwyllgor gan gynghorwyr proffesiynol o'r archwilwyr mewnol ac allanol.

Fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo estyn y contract ffurfiol ar gyfer yr Archwilydd Allanol Annibynnol yn 2023 gyda'r contract i'w gyflawni gan Haysmacintyre LLP am gyfnod o ddwy flynedd.

## Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Diben y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yw darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy herio a monitro'r Tîm Gweithredol ar berfformiad ariannol a pherfformiad o fath arall a gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu setiau data priodol a chymesur fel y gall y Cyngor gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu strategaeth ariannol y GDC, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio a'r cyllidebau tair blynedd treigl, gan roi sicrwydd i'r Cyngor yn eu cylch fel y gall fod yn hyderus wrth eu cymeradwyo. Unwaith y bydd y strategaeth ariannol a'r gyllideb wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor, mae'r Pwyllgor yn craffu ar ddarpariaeth weithredol y Tîm Gweithredol yn eu herbyn. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i'r Tîm Gweithredol ar faterion gweithredol mawr sy'n cael effaith ariannol sylweddol, megis datblygu a buddsoddi mewn technoleg. Mae Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gael ar wefan GDC.

Yn 2023, bu'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio newydd ar gyfer 2024-2026 a'r gyllideb ar gyfer 2024, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2023.

Darparodd y Pwyllgor waith craffu manwl ar berfformiad y sefydliad trwy dderbyn adroddiadau'r Cerdyn Sgorio Cytbwys a'r Rhagolwg Ariannol, gan roi cefnogaeth a her briodol i'r Pwyllgor Gwaith. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn craffu ac yn derbyn diweddariadau gweithredol gan y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer ac yn cefnogi'r Pwyllgor Gweithredol i gymryd y camau priodol i sicrhau bod perfformiad a recriwtio yn cael eu rheoli'n briodol.

Gydol 2023, derbyniodd y Pwyllgor friffiau ar brosiectau allweddol ar draws y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio a nodwyd fel rhai ag effeithiau traws-sefydliadol posibl a rhyngddibyniaethau fel rhan o'r Rhaglen Newid.

## Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu

Diben y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu yw rhoi sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar y polisi taliadau ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Tîm Arwain Gweithredol, Aelodau'r Cyngor, Aelodau Annibynnol o bwyllgorau anstatudol a deiliaid swyddi Cyswllt penodol. Mae'r Pwyllgor yn craffu ar y broses o benodi a gwerthuso'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, Aelodau'r Cyngor ac Aelodau Annibynnol o bwyllgorau anstatudol, yn ogystal â'r trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu ar gael ar wefan GDC.

Yn ystod 2023, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar y broses benodi ar gyfer recriwtio dau Aelod cofrestredig newydd o'r Cyngor a chymeradwyodd gynlluniau sefydlu cysylltiedig. Roedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r broses benodi, a defnyddiwyd dull newydd i annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr drwy sefydlu rôl ar y Cyngor nad oedd angen cymaint o brofiad anweithredol ar ei chyfer. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o broses 2023 ac, yn dilyn hynny, bu'n craffu ar Brosesau Penodi ac Ailbenodi Aelodau arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024 ac yn eu cymeradwyo. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Polisi Penodiadau ar gyfer Swyddogion Cyswllt Llywodraethu Annibynnol, gan baratoi ar gyfer prosesau recriwtio yn 2024.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar Bolisi Taliadau Aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt ac yn eu cymeradwyo. Bu hefyd yn adolygu canlyniadau adolygiad cyffyrddiad ysgafn o dâl Aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt. Cymeradwyodd gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr a nododd y trefniadau ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dull o werthuso'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i'r Cyngor, a bu'n craffu ar y broses o bennu amcanion ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac yn eu cymeradwyo. Bu hefyd yn ystyried trefniadau cynllunio olyniaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, y Tîm Arwain Gweithredol, a'r Uwch Dîm Rheoli. Derbyniwyd diweddariadau gydol y flwyddyn mewn perthynas â phrosiectau sy'n gysylltiedig â phobl, gan gynnwys y Cynllun Pensiynau Buddion Diffiniedig, Cynllun Datblygu'r Gweithlu a'r Prosiect Holl Fuddion.

## Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol

Yn ogystal â'r pwyllgorau anstatudol uchod, mae'r Cyngor wedi ymarfer y pŵer i sefydlu 'Pwyllgor Penodiadau', sef y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol. Fe'i rheolir gan Orchymyn Rheolau Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Cyfansoddiad Pwyllgorau) 2009.

Prif ddiben y Pwyllgor hwn yw cynorthwyo'r Cyngor gyda phenodiadau i unrhyw un o bwyllgorau statudol y Cyngor, megis y paneli Addasrwydd i Ymarfer. Mae Cylch gorchwyl y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol ar wefan GDC.

Yn 2023, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y rhaglenni dysgu a datblygu ar gyfer panelwyr, yn ogystal ag ar y fframwaith sicrhau ansawdd a oedd yn cefnogi penderfyniadau'r pwyllgorau statudol. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar y gwelliannau i reolaeth achosion a'r prosiect Gwahanu Dyfarniadau yn dilyn lansio'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Proffesiynol Deintyddol ym mis Mehefin 2022.

Darparodd y Pwyllgor waith craffu ar y dull o asesu perfformiad panelwyr unigol a derbyniodd ddiweddariadau rheolaidd ar recriwtio carfan o gynghorwyr cyfreithiol a phroffesiynol.

## Effeithiolrwydd y Cyngor

Ers yr adolygiad allanol diwethaf o effeithiolrwydd y Cyngor yn 2019, mae'r Tîm Gweithredol a'r Cyngor wedi adolygu perfformiad y Cyngor. Yn 2022, fe wnaeth y Cyngor adnewyddu ei Reolau Sefydlog i adlewyrchu ei ffyrdd o weithio ac adolygu rôl ei Bwyllgorau anstatudol. Yn 2023, adolygodd y sefydliad ei Lawlyfr Llywodraethu sy'n dal fframwaith llywodraethu corfforaethol y GDC.

Yn ogystal, cynhaliodd y Cyngor drafodaethau penodol ar ddatblygiad y Bwrdd yn ystod 2023 a chymeradwyodd raglen datblygu dreigl tair blynedd i sicrhau bod y Cyngor, a'i iteriadau yn y dyfodol, yn parhau i feddu ar y sgiliau Bwrdd angenrheidiol i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Cynhaliwyd gweithdai ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2023 i ddatblygu'r gwaith hwn, a bydd y rhaglen hon yn parhau yn 2024.

O ran yr adolygiad allanol nesaf i effeithiolrwydd y Bwrdd, cytunodd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023 y dylai hyn ddigwydd yn 2024 a chanolbwyntio ar ddiwylliant.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd y Cyngor sicrwydd am effeithiolrwydd ei bwyllgorau anstatudol drwy dderbyn adroddiadau adolygu effeithiolrwydd gan bob pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, cafodd y Cyngor adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig gan Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y gwaith a wnaed ar ran y Cyngor ers ei gyfarfod diwethaf.

Ar lefel unigol, ac yn unol ag arferion gorau derbyniol, cymerodd Aelodau'r Cyngor ran mewn cyfarfodydd arfarnu blynyddol. Wrth baratoi ar gyfer y trafodaethau hynny, anogwyd unigolion i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain ac i nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r GDC yn cael ei lywodraethu ar ein gwefan. Mae'n cynnwys gwybodaeth am rolau'r Cyngor a'i bwyllgorau statudol ac anstatudol ac am Aelodau unigol o'r Cyngor. Mae presenoldeb Aelodau'r Cyngor yn cael eu nodi yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor, sydd ar gael i'r cyhoedd, a darperir tabl cryno o bresenoldeb yn yr adran Strwythur a Phwyllgorau'r Cyngor yn yr adroddiad hwn.

## Trosolwg o risgiau strategol

Mae'r Cyngor yn cadw cyfrifoldeb am oruchwylio risg strategol yn y GDC.

Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn gofrestr fyw sy'n destun adolygu, craffu a chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol ym mhob un o'i gyfarfodydd misol.

Mae'r Gofrestr Risg Strategol hefyd yn cael ei chyflwyno'n destun adolygu a chraffu i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob un o'i gyfarfodydd ac i'w hadolygu gan y Cyngor yn flynyddol.

Islaw'r Gofrestr Risg Strategol, i sicrhau ei bod yn gyflawn a bod yr holl risgiau ynddi'n rhai gwirioneddol strategol, mae gan bob cyfarwyddiaeth Gofrestr Risg Weithredol. Mae'r Cofrestri Risg Gweithredol hyn wedi eu his-gategoreiddio yn ôl tîm, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n fisol ac yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Gweithredol graffu arnynt yn flynyddol o leiaf. Mae pob risg, boed yn strategol neu'n weithredol, yn cyd-fynd â'r strategaeth gorfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio tair blynedd treigl.

Mae goruchwylio a monitro'r Gofrestr Risg Weithredol gan y Tîm Arwain Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Cyngor yn caniatáu asesiad o'r graddau y mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy reolaethau effeithiol. Mae hyn yn cynnwys nodi'r risgiau hynny sydd y tu allan i barodrwydd i dderbyn risg y Cyngor ac mae'n rhoi penderfyniad ynghylch sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn y trothwyon agored i risg a osodir gan y Cyngor.

Mae’r dogfennau risg hyn yn rhoi gwybodaeth i gynorthwyo a llywio penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn strategaeth gorfforaethol y Cyngor a helpu i ddwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif am berfformiad a chyflawniad y sefydliad.

Mae’r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg strategol yn flynyddol. Mae pob risg weithredol a strategol wedi’i halinio’n briodol â’r parodrwydd i dderbyn risg presennol.

## Datgelu’r prif risgiau, materion ac elfennau ansicr

Mae adeiladu, cynnal a gwella’r fframwaith rheoli lle bo angen er mwyn sicrhau swyddogaeth Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol, gan ystyried perfformiad ac ansawdd, wedi parhau’n brif risg allweddol. Mae hyn yn bwysig yng ngoleuni methu â chyflawni un safon PSA mewn Cofrestru ac un mewn Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer y cyfnod 2022 – 2023.

Nodwyd risgiau newydd gennym ym maes Technoleg Gwybodaeth. Roedden nhw’n cynnwys ystyriaethau risg a gafodd eu rheoli’n rhagweithiol, fel y bygythiadau seiberddiogelwch sy’n newid yn barhaus, a risgiau a reolir yn weithredol yn dilyn llygredd data GDC, a oedd â risgiau canlyniadol yn ymwneud â’n gallu i fodloni ein gofynion datgelu.

Mae risgiau lle mae’r rhesymau y tu hwnt i reolaeth y GDC. Bu’n rhaid i ni gadw’r rhain mewn cof, er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i leihau risgiau cyn gynted â phosibl ac i’r graddau y bo hynny’n bosibl. Mae enghreifftiau o’r risgiau hyn yn cynnwys newidiadau i bolisïau neu flaenoriaethau’r Llywodraeth a chyflenwi deintyddion y GIG.

Rydym wedi codi a mynd i’r afael â risgiau gweithredol sy’n gysylltiedig â chyflawni ar draws y sefydliad, nad oeddent mewn perthynas â gwendidau sylfaenol neu faterion perfformiad, ond yn ymwneud â’n ffordd o weithio. Roedden nhw’n cynnwys sut rydym yn cyllidebu ac yn rhagweld, yn enwedig o fewn ein swyddogaethau gweithredol craidd, sut rydym yn ystyried goblygiadau neu faterion posibl sy’n deillio o benderfyniadau a wneir, sut mae ystâd y GDC yn caniatáu inni weithredu’n effeithiol, a pha mor gyflym rydym yn newid pethau.

## Gwasanaethau Archwilwyr Mewnol

Mae gan y GDC dîm archwilio mewnol a gefnogir gan RSM, a ddarparodd wasanaeth archwilio mewnol annibynnol allanol i'r Cyngor yn ystod 2023. Yn dilyn dadansoddiad bwlch sicrwydd o'r cofrestri risg strategol a gweithredol, cafodd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2023 ei ddatblygu gyda RSM a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, lle bo angen, gwneir argymhellion i wella naill ai'r dyluniad neu gymhwyso'r fframwaith rheoli. Gellir categoreiddio'r rhain fel argymhellion blaenoriaeth 'uchel', 'canolig' neu 'isel'. Yn dilyn cytuno ar yr argymhellion hyn, pennir swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad a chytunir ar ddyddiad gweithredu. Mae sgoriau sicrwydd archwilio yn amrywio rhwng pedair lefel sicrwydd bosibl: sicrwydd sylweddol; sicrwydd rhesymol, sicrwydd rhannol a sicrwydd lleiaf.

Ar gyfer 2023, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried a derbyn adroddiadau Archwilio Mewnol RSM ar:

- System gyllid newydd.
- Rheoli risg strategol a gweithredol.
- Amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Recriwtio a chadw.
- Adran 60 Cofrestru Rhyngwladol.
- Rheolaethau ariannol allweddol.
- Gwneud penderfyniadau cofrestru a chydymffurfio â pholisi.

O ran yr adolygiadau sicrwydd a restrir uchod: cafodd dau sicrwydd sylweddol, cafodd tri sicrwydd rhesymol a chafodd dau sicrwydd rhannol. Ni chafodd unrhyw adolygiadau sicrwydd lleiaf. Gydol yr archwiliadau hyn, gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth uchel (yn ymwneud ag adolygu Recriwtio a Chadw), 20 blaenoriaeth ganolig a 12 o argymhellion blaenoriaeth isel. Y ddau adolygiad a gafodd sicrwydd rhannol oedd Recriwtio a Chadw, a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Er bod yr argymhelliad lefel uchel a wnaed yn rhan o'r adolygiad o recriwtio a chadw - mewn perthynas â chydymffurfio â phrosesau recriwtio ac anghysondebau cymeradwy yn y broses recriwtio - nid oedd unrhyw fethiannau na thueddiadau eraill a arweiniodd at yr adolygiadau sicrwydd rhannol hyn. Yn ogystal ag un argymhelliad blaenoriaeth uchel a grybwyllwyd yn flaenorol, fe wnaeth y ddau adolygiad arwain at 12 blaenoriaeth ganolig a dau argymhelliad blaenoriaeth lefel isel. Roedd yr holl argymhellion a gynhwyswyd yn y rhain (a'r holl adroddiadau eraill), yn manylu ar y camau y cytunwyd arnynt a'r amserlenni ar gyfer eu cyfer, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac i wella dyluniad/ cymhwyso'r fframwaith rheoli yn foddhaol.

Y farn archwilio fewnol gyffredinol gan RSM, ar sail gwaith a wnaed yn 2023, oedd bod gan y GDC fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae eu gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli mewnol i sicrhau ei fod yn parhau'n ddigonol ac yn effeithiol. Mae hon yn lefel gadarnhaol o sicrwydd a dyma'r ail ddyfarniad uchaf sydd ar gael gan RSM.

Mae gennym system ganolog o dracio gweithredu argymhellion archwilio mewnol ar waith. Mae'r argymhellion yn cael eu tracio, a chadarnhad a dilysu yn ofynnol gan berchnogion yr argymhellion ynghylch eu statws a phryd y byddant yn cyrraedd eu dyddiad gweithredu. Adroddwyd ar berfformiad gweithredu'r argymhellion i'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg gydol y flwyddyn.

## Tîm Arwain Gweithredol

Cefnogir y Cyngor gan staff, a arweinir gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r aelodau eraill o'r Tîm Arwain Gweithredol (neu'r Tîm Rheoli Gweithredol gynt).

Y Cyngor sy'n penderfynu ar y strategaeth a pholisi ynghyd â chanlyniadau ac allbynnau'r GDC er mwyn cyflawni ei bwrpas a'i werthoedd. Mater i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arwain Strategol yw sut y cyflawnir y canlyniadau a'r allbynnau hynny. Yn fy rôl fel Prif Weithredwr, rwy'n atebol i'r Cyngor am berfformiad y Tîm Gweithredol. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- Arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithrediadau'r GDC, a gwella eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd.
- Gweithredu'r strategaeth gorfforaethol a gymeradwyir gan y Cyngor.
- Cyllidebu a chynllunio busnes.
- Cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith.
- Nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel iawn gydag atebolrwydd clir.

Yn ystod 2023, fe wnaeth y Tîm Arwain Gweithredol gyfarfod yn ffurfiol o leiaf unwaith y mis.

Ymddiswyddodd y cyn Brif Weithredwr a'r Cofrestrydd (Ian Brack) ar 6 Tachwedd 2023. Mae rhagor o wybodaeth am delerau ei ymadawiad wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Taliadau, ar dudalen 63.

Dyma feysydd cyfrifoldeb aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol yn ystod 2023:

### Prif Swyddog Gweithredu: Gurvinder Soomal

(o 1 Ionawr i 6 Tachwedd 2023, pan gafodd ei benodi'n Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro ar 7 Tachwedd 2023):

Cofrestru, Gweithrediadau Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Prosiectau Corfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau (PMO), TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol, Cyfleusterau, Pobl a Datblygu Sefydliadol.

### Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro: Samantha Bache

(o 13 Tachwedd 2023)
Cofrestru, Gweithgareddau Cofrestru, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Darparu Prosiectau, Cynllunio Busnes a PMO, TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol, Cyfleusterau.

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer: John Cullinane

(rhwng 1 Ionawr a 31 Hydref 2023)
Addasrwydd i Ymarfer, Archwilwyr Achosion, Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Proffesiynol Deintyddol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio: Theresa Thorp

(o 14 Medi 2023)
Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer, Archwilwyr Achosion a Sicrwydd Ansawdd, Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Proffesiynol Deintyddol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth: Stefan Czerniawski

Strategaeth, Polisi ac Ymchwil, Ymgysylltu a Chyfathrebu Allanol, Cyfathrebu Mewnol, Ymchwil a Sicrwydd Ansawdd Addysg.

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu: Lisa Marie Williams

Gwasanaethau Cyflwyniad Cyfreithiol, Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Mewnol, Llywodraethu, a Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae Cyfarwyddwyr Cyswllt, a elwir yn Uwch Dîm Rheoli yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni blaenoriaethau sefydliadol y GDC a thimau staff blaenllaw.

### Gwybodaeth Reoli ac Adrodd ar Berfformiad

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2024 – 2026 yn 2023 a'i gysoni â strategaeth gorfforaethol a blaenoriaethau'r Tîm Gweithredol. Mae'r GDC yn ailymweld â'i Gynllun Corfforaethol wedi'i Gostio yn flynyddol.

Yn 2023, gwnaed gwaith cynllunio manwl i bennu'r cynlluniau a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2024-2026. Ym mis Hydref 2023, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer 2024-2026.

Cafodd y gwaith o gyflawni yn erbyn y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer 2023 ei fonitro gydol y flwyddyn gan y Tîm Rheoli Gweithredol, gan ddefnyddio adroddiadau cynnydd portffolio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gerdyn sgorio cytbwys, gyda chynnydd yn cael ei adrodd bob chwarter i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y data a'r adroddiadau hyn ac yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar berfformiad y sefydliad. Bydd y Pwyllgor yn uwchgyfeirio unrhyw feysydd o bryder penodol sydd angen eu hystyried gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad perfformiad sefydliadol blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn.

Yn 2023, adolygwyd statws rhaglenni a phrosiectau'r GDC yn rheolaidd hefyd, ac roedd yr adroddiad hyn ynghyd ag adroddiadau am reoli risg, yn llywio prosesau cynllunio busnes gweithredol.

# Llywodraethu Gwybodaeth, Ceisiadau am Wybodaeth a Digwyddiadau Diogelu Data

## Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod 2023, cynhaliwyd ein gwasanaethau llywodraethu gwybodaeth, rheoli a gwaredu gwybodaeth, sut rydym yn adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau diogelu data a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff newydd yn cwblhau cwrs e-ddysgu ar y ddeddfwriaeth hon wrth ymsefydlu, yn ogystal ag e-ddysgu gloywi blynyddol ar GDPR y DU.

Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau rhannu data, arolygon ac ymchwil cymhleth er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth mewn modd cyfrifol, effeithiol ac mewn ffordd sy'n cefnogi nodau'r GDC.

Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o storio oddi ar y safle ac ystyriwyd yr offer meincnodi fframwaith llywodraethu gwybodaeth sydd ar gael, cyn penderfynu symud i Fframwaith Sicrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2024.

Diweddarwyd ein canllawiau Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Data (DSI), a chrëwyd ffurflen DSI newydd sy'n casglu mwy o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i reoli digwyddiad, gan sicrhau bod y broses yn fwy hygyrch a hwylus i ddefnyddwyr.

Cwblhawyd y Prosiect Archwilio Rheoli Gwybodaeth, sy'n rhan o'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio, ym mis Tachwedd 2023. Gweithiodd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth gyda thimau ar draws GDC i'n helpu i reoli'r gyriannau rhwydwaith yn well, sicrhau bod caniatâd wedi'i osod yn gywir, ei bod hi'n haws dod o hyd i wybodaeth a bod gwybodaeth yn cael ei dileu yn unol â'r amserlen gadw. Roedd canlyniadau'r prosiect yn cynnwys lleihau'r gofod storio o hyd at 50%, cyfres o ddogfennau cynghori a pholisi a seilwaith wedi'u diweddaru i gefnogi pob tîm ar draws y GDC i gynnal eu dogfennau.

Roedd gwaith pellach ym maes Rheoli Cofnodion yn cynnwys adolygiad o wasanaethau ein darparwr storio oddi ar y safle, gan arwain at well perfformiad ar weithdrefnau adrodd, adneuo a darparu a rheoli stocrestri. Arweiniodd y broses flynyddol o arfarnu copïau caled at ddinistrio 109 o flychau.

Mae Asesiadau Effaith ar Ddiogelu Data yn ofyniad ar gyfer unrhyw ddefnydd newydd o ddata personol a allai fod â risgiau i'r data a'r unigolion dan sylw. Yn ystod 2023, cafodd y broses a'r dogfennau ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn eu symleiddio, a sefydlwyd proses fwy cydweithredol.

Mae unrhyw faterion llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn ystod 2023, cawsom gyfanswm o 324 o geisiadau (2022: 410). Fe wnaethom ymateb i gyfanswm o 303. Roedd hyn yn cynnwys 200 cais am wybodaeth gorfforaethol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 103 am wybodaeth bersonol dan y Ddeddf Diogelu Data, sef ceisiadau gwrthrych am wybodaeth (SAR). Roedd y 303 cais yr ymatebwyd iddynt yn 2023 yn cynnwys nifer o geisiadau a gyflwynwyd o 2022.

Dechreuwyd cofnodi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 'cymhleth' yn 2022. Mae'r rhain yn geisiadau a oedd yn cynnwys sawl tîm gwahanol, gwybodaeth wahanol neu eithriadau technegol heriol rhag datgelu. Cofnodwyd 36 o geisiadau cymhleth yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd y 303 cais yr ymatebwyd iddynt yn 2023, 13% yn llai o gymharu â 2022 (cyfanswm o 348, sy'n cynnwys 213 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 65 SAR). Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn ceisiadau arferol am ddata personol gan ymgeiswyr sy'n sefyll yr Arholiad Cofrestru Tramor. Er bod y gofynion Rhyddid Gwybodaeth yn 2023 yn parhau'n gyson, gwelsom gynnydd o lefel y duedd yn ystod misoedd Ionawr, Mai ac Awst.

Ymatebwyd i 83% o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (165) o fewn yr amserlen statudol (20 diwrnod gwaith) neu hawliwyd estyniad priodol er mwyn gallu gwneud prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 81% o'r ceisiadau gwrthrych am ddata (81) o fewn yr amserlen statudol (un mis) neu hawliwyd estyniad priodol.

Cawsom 10 cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2023. Roedd pump o'r rhain mewn perthynas ag ymatebion hwyr y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2022: pedwar) a dau yn ymwneud â cheisiadau hwyr ar gyfer SAR (2022: un). Roedd tri yn cwyno am ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Ar gyfer y cwynion a oedd yn ymwneud â chais hwyr, gwnaethom ymateb i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ac ni chafwyd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r rhain.

Canlyniad y cwynion am gynnwys ein hymatebion oedd bod y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth wedi cytuno â'n hymatebion cychwynnol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion i ddatgelu unrhyw wybodaeth ychwanegol.

## Digwyddiadau diogelu data

Yn 2023 rydym wedi parhau i gofnodi, rheoli ac adrodd yn ganolog ar ddigwyddiadau diogelu data. Hefyd, rhannwyd negeseuon mewnol gennym er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r angen i roi gwybod yn gyflym am ddigwyddiadau diogelu data.

Rydym wedi adrodd a chofnodi digwyddiadau am ddefnyddio, cyrchu a dinistrio data personol gan y GDC, a thrydydd partïon lle mae'n effeithio ar wybodaeth y GDC. Rydym yn cofnodi digwyddiadau a 'damweiniau fu bron â digwydd' fel y gallwn ddysgu o'r digwyddiadau hyn.

Nid yw'r holl ddigwyddiadau diogelu data a gofnodir yn torri rheolau data personol. Cofnodwyd 124 o Ddigwyddiadau Diogelu Data yn 2023 (2022: 98). Pan fydd achos o dorri data personol, rydym wedi sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gollwyd neu a ddatgelwyd yn amhriodol drwy ddamwain neu gamgymeriad, wedi'i hadfer. Yn ogystal, sicrhawyd bod unrhyw risgiau yn destun asesiad ac ymateb, a bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi i'w hatal rhag digwydd eto ac i wella ein gwasanaeth.

Roedd pedwar digwyddiad diogelu data yn achos o dorri data personol, a aseswyd ac a adroddwyd gennym i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd hyn oherwydd sensitifrwydd y wybodaeth dan sylw. Penderfynodd y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ar gyfer pob un o'r adroddiadau hyn. Ar gyfer un digwyddiad, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwr adfer trydydd parti er mwyn helpu i adfer y cofnodion llygredig.

## Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ar ôl ystyried yr holl adroddiadau oedd ar gael i mi, gan gynnwys cynrychiolaeth gan y Swyddog Cyfrifyddu blaenorol a chyngor allanol, rwy'n parhau'n ffyddiog bod system rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y Cyngor yn effeithiol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i barhau i gefnogi polisïau, nodau ac amcanion y GDC.

**Tom Whiting,** Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

12 Gorffennaf 2024

# 6. Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

Mae elfennau ariannol yr adroddiad hwn wedi'u harchwilio gan yr archwilwyr allanol, Haysmacintyre LLP, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Lle mae adrannau wedi'u harchwilio'n allanol, mae'r rhain wedi'u nodi ag 'yn amodol ar archwiliad' yn y disgrifiad pennawd.

## Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyngor

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu yn craffu ar gydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor a'r Cadeirydd. Pennir cydnabyddiaeth ariannol gan ddefnyddio data sydd ar gael o bob marchnad gymharol ar gyfer y cyfraddau presennol ar gyfer swyddi tebyg ac ymrwymiadau amser am gyflawni'r rôl.

Cafodd tâl Aelodau'r Cyngor ei adolygu diwethaf gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu ym mis Chwefror 2022 a chafwyd adolygiad ysgafn ym mis Mehefin 2023 hefyd. Cytunodd y Pwyllgor i gadw lefel bresennol cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor, a chefnogwyd y penderfyniad hwn gan y Cyngor ym mis Medi 2023. Bydd Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor yn cael ei adolygu nesaf yn 2024.

Mae tâl y Cadeirydd wedi'i bennu ar gyfradd o £55,000 y flwyddyn ar sail ymrwymiad o 2.5 ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl blynyddol o £15,000, ar sail ymrwymiad o 36 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tâl ychwanegol blynyddol o £3,000 yn cael ei dalu i gadeiryddion y pwyllgorau.

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol y Tîm Arwain Gweithredol

Nid yw'r polisïau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad. Cafodd y polisïau hyn eu hadolygu a'u cymeradwyo ddiwethaf gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu ym mis Tachwedd 2022.

Mae datblygiad cyflog i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn dibynnu ar berfformiad yr unigolyn a meincnodau tâl allanol ar gyfer rolau cymharol. Er bod y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu yn cytuno ar y tâl ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu yn craffu ar unrhyw gynnydd mewn cyflog, neu mewn taliadau eraill.

Mae unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr (fel a phan fo'n briodol) yn cael ei argymell gan Gadeirydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu, a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r polisi cydnabyddiaeth ariannol.

Dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 4.5% i holl aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol o 1 Ebrill 2023.

O dan gontract cyflogaeth y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i unrhyw rybudd terfynu contract gan y cyflogai neu'r cyflogwr fod yn chwe mis. O dan gontractau'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill, mae angen i'r cyflogai neu'r cyflogwr roi rhybudd o dri mis ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Mae'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o brif gynllun pensiwn yr ymddiriedolaeth.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol staff

Mae polisi cydnabyddiaeth ariannol staff yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Cyswllt, Pobl a Datblygu Sefydliadol, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, a'r Cyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu drwy ystyried sefyllfa'r GDC i ddarparu ymagwedd dryloyw, gynaliadwy a theg at ein fframwaith gwobrwyo er mwyn denu a chadw pobl o'r radd flaenaf fel bo'r GDC yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau strategol a chyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau statudol.

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o dalu cyflogau cyfartal am waith o werth cyfartal i'n holl weithwyr gyda'r nod o sicrhau bod ein systemau tâl yn deg a diduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a chynnal adolygiadau cyflog cyfartal i ddileu unrhyw fwlch cyflog na ellir ei egluro ar seiliau gwrthrychol, ac rydym yn adrodd yn gyhoeddus am hyn bob blwyddyn.

Dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 4.5% i bob aelod o staff o 1 Ionawr 2023.

## Ffioedd a threuliau Aelodau'r Cyngor (yn amodol ar archwiliad)

| | Ffioedd i'r £1000 agosaf | | Buddion mewn nwydd i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| **Yr Arglwydd Toby Harris**<br>Cadeirydd y Cyngor (Lleyg) | 55 | 55 | 200 | 100 | - | - | 55 | 55 |
| **Terry Babbs**<br>Aelod Lleyg o'r Cyngor | 18 | 18 | 1,700 | 1,000 | - | - | 19 | 19 |
| **Ilona Blue**<br>Aelod o'r Cyngor (Lleyg)<br>O 1 Ebrill 2022 ymlaen<br>(cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 15 | 11<br><br>(15) | 700 | 600 | - | - | 16 | 12 |
| **Donald Burden**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig) | 15 | 15 | 9,100 | 5,100 | - | - | 24 | 20 |
| **Anne Heal**<br>Aelod o'r Cyngor (Lleyg) | 18 | 18 | 800 | - | - | - | 19 | 18 |
| **Angela Heilmann**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig) | 15 | 15 | 1,300 | 1,000 | - | - | 16 | 16 |
| **Serbjit Kaur**<br>Aelod o'r Cyngor Cofrestredig<br>O 1 Hydref 2023 ymlaen<br>(cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 4<br><br>(15) | 0 | 1,600 | - | - | - | 6<br><br>(17) | - |
| **Shelia Kumar**<br>Aelod o'r Cyngor (Lleyg) | 18 | 18 | - | - | - | 1 | 18 | 19 |
| **Michael Lewis**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig) | 15 | 15 | 2,600 | 1,100 | - | - | 18 | 16 |

| | Ffioedd i'r £1000 agosaf | | Buddion mewn nwydd i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| **Timea Milovecz**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig)<br>O 1 Hydref 2023 ymlaen<br>(cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 4<br><br>(15) | 0 | 400 | - | - | - | 4<br><br>(15) | - |
| **Simon Morrow**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig) | 15 | 15 | 4,100 | 1,900 | - | - | 19 | 17 |
| **Laura Simons**<br>Aelod o'r Cyngor (Lleyg) | 15 | 15 | 600 | 100 | - | - | 16 | 15 |
| **Jeyanthi John**<br>Aelod o'r Cyngor (Cofrestredig)<br>Tan 30 Medi 2023<br>(cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 11<br><br>(15) | 15 | 1,100 | 200 | - | - | 12<br><br>(16) | 15 |
| **Caroline Logan**<br>Aelod o'r Cyngor Cofrestredig<br>Tan 30 Medi 2023<br>(cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 11<br><br>(15) | 15 | 2,600 | 500 | - | - | 14<br><br>(18) | 16 |

## Buddion a threuliau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion a threuliau mewn nwyddau yn cwmpasu treuliau teithio a ddarperir gennym ni ac sy'n cael eu trin fel enillion trethadwy gan Gyllid a Thollau EF. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn cynnwys treth, a thelir y symiau trethu i Gyllid a Thollau EF.

## Cydnabyddiaeth ariannol y Tîm Arwain Gweithredol (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r manylion am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau'r Tîm Gweithredol ar gael isod. Mae'r tabl hefyd yn datgelu enillion trethadwy, taliadau eraill (ac eithrio unrhyw daliadau iawndal lle'r oeddent yn ddyledus) a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mewn bandiau cyflog ar gyfer aelodau eraill y Tîm Arwain Gweithredol a wasanaethodd yn 2023 (a gwybodaeth gymharol ar gyfer 2022).

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn nwydd i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| **Ian Brack***<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>Tan fis Tachwedd 2023 | 155-160 | 140-145 | - | - | 16 | 14 | 170-175 | 155-160 |
| **Gurvinder Soomal****<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro o 7 Tachwedd 2023<br>Prif Swyddog Gweithredu tan 6 Tachwedd 2023 | 145-150 | 140-145 | 7,400 | - | 15 | 14 | 170-175 | 150-155 |
| **Samantha Bache*****<br>Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro O 13 Tachwedd 2023 ymlaen (cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 15-20<br>(120-125) | - | 900 | - | 2 | - | 15-20<br>120-125 | - |
| **Lisa Marie Williams**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu | 130-135 | 125-130 | 2,900 | - | 13 | 13 | 150-155 | 140-145 |
| **Theresa Thorp**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio O 14 Medi 2023 ymlaen (cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 35-40<br>(125-130) | - | 2,900 | - | 2 | - | 40-45<br>130-135 | - |
| **Stefan Czerniawski**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth | 130-135 | 125-130 | 3,100 | - | 13 | 13 | 150-155 | 140-145 |

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn nwydd i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 | 2023 | 2022 |
| **John Cullinane****** Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer Tan 31 Hydref 2023 (cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | 90-95 (115-120) | 100-105 | - | - | 9 | 10 | 100-105 (115-120) | 110-115 |
| **Sarah Keyes******* Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol Tan 3 Mai 2022 (cyfwerth â'r flwyddyn lawn) | - | 40-45 (120-125) | - | - | - | 4 (12) | - | 45-50 |

*Gadawodd Ian Brack fel Prif Weithredwr ar 6 Tachwedd 2023 ond parhaodd i fod yn gyflogai i'r GDC tan ddiwedd ei gyfnod rhybudd ymadael contractiol, 2 Mai 2024. Ar ôl derbyn cyngor annibynnol, cytunodd y Cyngor y byddai - fel y Prif Weithredwr sy'n gadael - yn derbyn taliad colli swydd ar ddiwedd y cyfnod yn ogystal â'r cyflog a barhaodd i gael ei dalu'n fisol yn ystod y cyfnod rhybudd.
**Ymgymerodd Gurvinder Soomal â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro o 7 Tachwedd, 2023. Cyn hyn roedd yn Brif Swyddog Gweithredu.
***Ymgymerodd Samantha Bache â rôl y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro o 13 Tachwedd, 2023. Cyn hyn roedd yn Gyfarwyddwr Cyswllt, Cyllid.
****Gadawodd John Cullinane rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer ar 31 Hydref 2023. Fe'i penodwyd yn Rheolwr Gweithredol, Gwrandawiadau o 1 Tachwedd 2023.
*****Ni lenwyd swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, yn dilyn ymadawiad Sarah Keyes ym mis Mai 2022.

Ni dderbyniodd yr un o'r Tîm Arwain Gweithredol unrhyw fonws perfformiad yn 2023.

## Buddion a threuliau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion a threuliau mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gennym ni ac y mae Cyllid a Thollau EF yn eu trin fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn cynnwys treth, a thelir y symiau treth i Gyllid a Thollau EF. Roedd eitemau yn y categori hwn yn cynnwys costau teithio a wariwyd ar fusnes y Cyngor.

## Taliadau trydydd parti (yn amodol ar archwiliad)

Ni wnaed unrhyw daliadau trydydd parti yn ystod 2023. Gwnaethpwyd taliad o £155-160k i asiantaeth recriwtio (Faerfield Ltd) ar gyfer darparu Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro yn ystod 2022. Y ffigurau a ddatgelir yw'r symiau a dalwyd gan y GDC ar gyfer y gwasanaeth ac nid ydynt yn daliadau cyflog i'r unigolyn.

## Lluosrifau cyflog (yn amodol ar archwiliad)

Er mwyn atal unrhyw ystumio canlyniadau a galluogi cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, mae mesur cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol wedi'i safoni ar draws y sefydliad i gynnwys cyflog, lwfansau, taliadau bonws perfformiad a buddion mewn nwyddau ar sail cyfwerth ag amser llawn, ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol sy'n ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu presennol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau adleoli nac unrhyw addasiadau i gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â chyfnodau cyfrifyddu blaenorol.

Rydym yn paratoi'r datgeliad hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor wrth gyfrifo lluosrifau cyflog.

Roedd cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £15,000 i £159,050 yn 2023 (2022: £15,000 i £142,087). Y tâl isaf ac eithrio Aelodau'r Cyngor yw £20,062 (2022: £21,338)

Cydnabyddiaeth ariannol band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, ar 31 Rhagfyr oedd £165,000 i 170,000. (2022: £140,000 i £145,000). Yn 2023, ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion (2022: dim) gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol mwy na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

| Newid canrannol cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| % y newid o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol yng nghydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 17.5% | 0.0% |
| % y newid o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cydnabyddiaeth ariannol canolrif gweithlu'r sefydliad | 2.3% | (0.6)% |

Cynyddodd cyflog canolrifol y gweithlu 2.3% yn 2023, yn sgil y dyfarniad cyflog blynyddol o 4.5% a wnaed i'r holl staff ym mis Ionawr 2023, ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod cyflog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf wedi dychwelyd i gyfradd y farchnad.

Cynyddodd y newid canrannol yng nghydnabyddiaeth band y cyfarwyddwr ar y cyflogau uchaf 17.5% yn 2023. Etholwyd Ian Brack, y Prif Weithredwr blaenorol, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, yn hanesyddol i gadw ei gyflog dan ystod bandiau'r farchnad ar gyfer ei rôl. Roedd y Cyngor wedi cytuno ar gynlluniau i ddychwelyd y swydd i'r ystod bandiau cyfradd y farchnad y cytunwyd arnynt yn gynaliadwy dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, fe wnaeth ei ymadawiad ym mis Tachwedd 2023 gyflymu'r broses hon.

Mae'r cyflog cyfradd band a ddiweddarwyd ar gyfer y rôl wedi'i gymhwyso wrth benodi'r Prif Weithredwr Dros Dro, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r tabl isod yn datgelu'r berthynas rhwng cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn erbyn 25ain canradd, y canolrif a 75ain canradd cydnabyddiaeth ariannol ein gweithlu. Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y gweithiwr yn y 25ain canradd, y canolrif a 75ain canradd yn cael ei dorri i lawr ymhellach i ddatgelu'r elfen gyflog. Ar gyfer 2023, mae canol cydnabyddiaeth ariannol band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r gymhareb. Mae datgeliad 2022 wedi'i ddiweddaru at ddibenion cymharol.

| Gwybodaeth am y gymhareb cyflog | 25ain canradd | Canolrif | 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| **2023** | | | |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 32,404 | 38,928 | 54,127 |
| Elfen gyflog cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 32,404 | 38,928 | 53,877 |
| Cymhareb (yn erbyn y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) | 5.4 | 4.5 | 3.2 |
| **2022** | | | |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 29,787 | 38,045 | 52,439 |
| Elfen gyflog cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 28,287 | 37,045 | 51,939 |
| Cymhareb (yn erbyn y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) | 4.8 | 3.7 | 2.7 |

## Pensiynau

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig drwy ymddiriedolaeth gan The People's Pension yw ein prif gynllun pensiwn, sy'n gwneud mwy na bodloni'r gofynion awto-gofrestru. Mae cyflogeion yn cyfrannu 3% o'u cyflog ac mae'r GDC yn cyfrannu 6% (2022: 6%). Mae'r GDC yn cyfrannu'r un faint ag unrhyw gyfraniadau ychwanegol gan y gweithiwr hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 10%. Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd 372 o weithwyr (92%) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail ymddiriedolaeth (31 Rhagfyr 2022: 329, 90%).

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r GDC cyn mis Ionawr 2015 yn gallu ymuno â chynllun pensiwn buddion diffiniedig, ond roedd yn rhaid iddynt wneud hynny cyn mis Gorffennaf 2016. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 1 Gorffennaf 2016 ac, ar ôl ymgynghori ag aelodau yr effeithiwyd arnynt, ym mis Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig i gronni yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021.

Roedd aelodau'r cynllun buddion diffiniedig hyd at adeg cau'r cynllun yn gwneud cyfraniad o 8% o'u cyflog. Cyfraniad y cyflogwr tan 31 Mawrth 2021 oedd 20.3%. Nid oes unrhyw weithwyr yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o'r cynllun buddion diffiniedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a phensiynau yn nodyn 3 a nodyn 16 y cyfrifon.

# Adroddiad staff

## Niferoedd staff a manylion enillion (yn amodol ar archwiliad)

Y nifer cyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn ac yn ôl swyddogaeth oedd:

| Swyddogaeth* | Staff a gyflogir yn barhaol (Cyfwerth ag Amser Llawn - FTE) | Eraill (FTE) | Cyfanswm FTE 2023 | Cyfanswm FTE 2022* |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | 144.8 | 9.7 | 154.5 | 145.2 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 56.3 | 4.9 | 61.2 | 64.1 |
| Strategaeth | 35.6 | 4.3 | 39.9 | 38.3 |
| Adnoddau Corfforaethol | 117.7 | 3.9 | 121.6 | 116.6 |
| **Cyfanswm** | **354.4** | **22.8** | **377.2** | **364.2** |

*Mae cyfansymiau ar gyfer 2022 wedi'u hailddatgan i gyd-fynd â'r strwythur sefydliadol presennol.

## Cyfansoddiad y staff

Menywod yw 63% o'r gweithlu (2022: 62%). Mae pobl 50+ oed yn cynrychioli 23% o'r gweithlu (2022: 22%).

Fe wnaeth 90% o'n gweithlu ddarparu data amrywiaeth a chydraddoldeb (nad yw'n orfodol) o'u gwirfodd yn ystod 2023 (2022: 87%), sy'n dangos bod 47% (2022: 50%) o'n staff o gefndir gwyn a 45% (2022: 37%) o gefndir ethnig leiafrifol.

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fis Ebrill 2023 (dyddiad ciplun Ebrill 2022) ar gyfartaledd yn 14.7% (canolrif 21.4%) o blaid dynion.

Fodd bynnag, nid yw'r GDC yn talu taliadau bonws ond mae taliadau fel ein taliadau cydnabyddiaeth, a ddyfernir i gydweithwyr i gydnabod rhai sydd wedi gweithio y tu hwnt i'r safonau arferol a ddisgwylir, yn cael eu categoreiddio fel taliadau bonws at ddibenion adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Derbyniodd 11.6% o fenywod ac 14.3% o ddynion daliadau o'r fath rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 (dyddiad ciplun Ebrill 2022).

## Absenoldeb gweithwyr

Ein nod yw trin staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a lle bo hynny'n bosibl, drwy roi cymorth i'w helpu i adfer eu hiechyd a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Rydym yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar ein rheolwyr llinell i gynnal cyfweliad dychwelyd i weithio ar ôl pob cyfnod o absenoldeb er mwyn rheoli hyn yn effeithiol.

Collwyd cyfanswm o 2,681 o ddiwrnodau oherwydd salwch yn 2023 (2022: 3,161 o ddiwrnodau). Mae hyn yn ostyngiad o 15% mewn absenoldeb oherwydd salwch. Collwyd 6.6 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch yn 2023. (2022: 8.5 diwrnod fesul cyflogai).

Mae'n werth cymharu'r lefelau absenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf, sy'n rhoi darlun gwell o'r newidiadau cyffredinol mewn lefelau absenoldeb.

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | 2,156 | 3052 | 3,161 | 2,681 |
| Diwrnodau cyfartalog a gollwyd fesul cyflogai | 6.1 | 8.6 | 8.5 | 6.6 |

Yn ôl adroddiad diweddaraf ar absenoldeb salwch ym marchnad lafur y DU 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 5.7 diwrnod yw lefel gyfartalog absenoldeb gweithwyr yn 2022. (2021:4.6 diwrnod) y flwyddyn y cyflogai.

## Trosiant staff

Cyfanswm trosiant staff 2023 oedd 19% (2022:25%). Mae hyn yn cynnwys trosiant gwirfoddol, diswyddiadau, diwedd contractau cyfnod penodol, ymddeoliad ac unrhyw ddiswyddiadau y cytunwyd arnynt. Roedd trosiant staff gwirfoddol 2023 yn 76% o gyfanswm y trosiant staff. Mae hyn yn parhau i fod yn arwydd o farchnad gyflogaeth ehangach heriol ar gyfer recriwtio a chadw.

Ysgogir hyn gan nifer o ffactorau gan gynnwys newidiadau yn y farchnad lafur, pwysau chwyddiant ar gyflogau oherwydd yr argyfwng costau byw a diffyg ymgeiswyr gyda sgiliau arbenigol iawn mewn meysydd fel TG, y Gyfraith, Cyllid a Chaffael.

I gefnogi recriwtio a chadw staff, mae nifer o brosiectau ar waith gan gynnwys Newid Diwylliant, Holl Fuddion a Datblygu'r Gweithlu.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gael ein cydnabod fel sefydliad gwrth-wahaniaethol gweithredol sy'n cynnal ac yn hyrwyddo arferion gorau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn gynghreiriad gweithredol dros newid a thros sicrhau bod ein gweithlu mor amrywiol a chynhwysol â'r cymunedau a wasanaethwn. Mae ein penderfyniadau ynghylch recriwtio, hyfforddi, dyrchafu, a chyfleoedd mewnol ac allanol yn seiliedig ar allu, medrusrwydd a photensial.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2024 a 2025 wedi'i chyhoeddi ac mae'n adeiladu ar uchelgeisiau ein strategaeth flaenorol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sef:

- Datblygu a chefnogi proffesiwn cynhwysol sydd wedi'i arfogi i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf i bob claf.
- Nodi a dileu unrhyw rwystrau y mae cleifion, y cyhoedd, gweithwyr deintyddol proffesiynol a phartneriaid yn dod ar eu traws wrth ymgysylltu â ni.
- Sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio a'r penderfyniadau a wnawn yn deg ac yn gyson ac yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Sicrhau bod ein camau gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu harwain a'u llywio gan wybodaeth a geir drwy ddata, ymchwil ac adborth.
- Ymgorffori diwylliant gweithle cynhwysol ar bob lefel yn y GDC lle mae'r holl staff yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu hintegreiddio, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn croesawu gweithwyr o bob rhan o gymdeithas. O dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfweliadau i bobl ag anableddau, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf sylfaenol y swydd dan sylw.

## Proffil Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant staff y GDC

Mae 63% o'n staff yn fenywod a 37% yn ddynion.
Mae 45% o'n gweithlu yn datgan eu bod yn lleiafrif ethnig. O'r staff hynny sy'n nodi eu bod yn lleiafrif ethnig, mae 69% yn fenywod a 31% yn ddynion.
Mae 60% o'n Tîm Arwain Gweithredol yn fenywod a 40% yn ddynion.
Mae 55% o'r Uwch Dîm Rheoli yn fenywod a 45% yn ddynion.

## Proffil Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant swyddogion cyswllt y GDC

Mae 54% o'n swyddogion cyswllt yn fenywod a 46% yn ddynion.
Mae 28% o'n swyddogion cyswllt yn ystyried eu hunain yn lleiafrif ethnig, gydag 11% yn nodi bod yn well ganddynt beidio â dweud/anhysbys.

## Rhwydweithiau Gweithwyr

Mae meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol yn hanfodol i wneud y GDC yn lle gwych i weithio, ac mae ein rhwydweithiau gweithwyr yn allweddol i gyflawni hyn. Mae gennym bedwar grŵp rhwydwaith staff sefydledig:

- **Rainbow:** Ffurfiwyd yn 2023, mae Rainbow yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo cynwysoldeb gweithwyr LHDTC+. Mae'n darparu fforwm agored i gydweithwyr, a man diogel i drafod materion sy'n effeithio ar y gymuned LHDTC+.
- **REACH:** (Race, Ethnicity and Cultural Heritage) Ffurfiwyd yn 2020 fel casgliad o gydweithwyr Du, Asiaidd, ethnig amrywiol, a'u Cynghreiriaid, ac mae'n darparu gofod diogel i gydweithwyr amrywiol eu hethnigrwydd rannu eu profiadau bywyd. Nod REACH yw hybu cynhwysiant a pharch at amrywiaeth a galluogi cydweithwyr i gyrraedd eu llawn botensial yn y gwaith.
- **GET:** (Gender Equality Together) Ei nod yw deall materion sy'n seiliedig ar rywedd yn well yn y gweithle, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar fenywod, ac mae'n annog ei aelodau i drafod y materion go iawn sy'n effeithio arnynt yn y gweithle.
- **Enable:** (y Rhwydwaith Anabledd gynt) Mae'n hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer cydweithwyr anabl a all fod yn wynebu rhwystrau oherwydd cyflyrau corfforol ac anghorfforol hirdymor.

## Ymgysylltu â gweithwyr

Ehangwyd ar ein cynnig ymgysylltu â gweithwyr yn 2023, gan ychwanegu cyfleoedd ymgysylltu dwy ffordd ychwanegol ac adolygu gwelliannau i'n mewnrwyd yn y dyfodol.

Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn parhau i rannu negeseuon e-bost wythnosol i ddiweddaru cydweithwyr, er mwyn rhannu negeseuon allweddol strategol, gweithredol a lles ymhlith staff.

Parhaodd y diweddariad busnes ar-lein misol, GDC Live, i ddenu lefelau uchel o ymgysylltu, gan roi cyfleoedd i staff a thimau rannu eu gwaith a'u blaenoriaethau ag eraill.

Defnyddiwyd e-byst gweithwyr a chyflwyniadau ar-lein i sicrhau bod negeseuon allweddol am flaenoriaethau'r GDC yn gyson ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

Yn yr hydref, aethom ati i lansio rhaglen newid i bennu'r cynnig ymgysylltu â gweithwyr yn y dyfodol gan gynnwys tâl a buddion, datblygu gyrfa a sgiliau, diwylliant ac amgylchedd y gweithle. Lansiwyd y rhaglen mewn digwyddiad dwy ffordd GDC Live a gynhaliwyd gan y Tîm Gweithredol ac a fynychwyd gan fwy na 70% o staff. Dilynwyd hyn gan grwpiau ffocws staff er mwyn cipolwg ar farn gweithwyr ar bob lefel. Bydd y rhaglen newid hon yn cael ei datblygu yn ystod 2024.

Cynhaliwyd arolwg profiad gweithwyr ym mis Tachwedd 2023, gan roi cyfle i bob gweithiwr roi adborth ar sut mae'n teimlo am weithio yn y GDC. Cafwyd cyfradd gyfranogiad o 80%. Bydd camau gweithredu i wella ymgysylltiad gweithwyr yn cael eu datblygu yn ystod 2024.

Gwnaethom barhau i wella ein dull o gynefino a chynnwys ein rhaglen sefydlu staff yn ystod 2023. Hefyd, aethom ati i adolygu ein polisïau staff a pharhau i redeg rhaglenni i gefnogi arferion lles cadarnhaol.

Cafodd ein systemau staff mewnol eu gwella trwy ychwanegu hysbysiadau a ffurflenni ar-lein, gan sicrhau dull mwy effeithiol ac effeithlon o reoli prosesau craidd fel absenoldeb salwch, cyfnodau sefydlu a gwyliau blynyddol.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Gweledigaeth ac ymrwymiad y GDC i Iechyd a Diogelwch yw cynnal a hyrwyddo amgylchedd iach sy'n rhydd o niwed. Adolygwyd Aelodaeth a Chylch Gorchwyl Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y GDC yn ystod 2020, a chawsant eu gwella i sicrhau'r Tîm Arwain Gweithredol bod rhwymedigaethau deddfwriaethol y sefydliad yn cael eu bodloni. Y rhwymedigaethau hynny yw diogelu iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter i adolygu gweithgarwch dau safle'r GDC, a chyflwynir adroddiad chwarterol i'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y GDC yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Yn dilyn archwiliad o Iechyd a Diogelwch GDC yn 2022, mae'r tîm wedi sicrhau bod yr holl argymhellion a wnaed drwy'r archwiliad wedi eu rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gwella cydymffurfiaeth staff ar blatfform eDdysgu Iechyd a Diogelwch y sefydliad, cyflwyno asesiad risg desg ar gyfer gweithio gartref, a gwella gwelededd iechyd a diogelwch o fewn pecynnau sefydlu staff newydd.

Yn ystod 2023, ni chafodd unrhyw ddamweiniau eu hadrodd o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Cofnodwyd 12 o fân ddigwyddiadau ar draws y ddau safle, gyda'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â mân friwiau a ddigwyddodd ar y safle. Mae damweiniau fu bron â digwydd yn parhau i gael eu hadrodd a'u monitro, ond ni ddigwyddodd unrhyw un yn ystod 2023.

Mae ein ap 'Help@hand', sy'n cael ei gyflenwi gan ddarparwr 3ydd parti, yn adnodd gwerthfawr i holl aelodau staff, gyda mynediad at wasanaethau fel Meddyg Teulu o Bell, Cymorth Iechyd Meddwl, sesiynau Ffisiotherapi, Cyngor Bywyd, Arian a Lles. Hefyd, mae gennym 34 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig.

## Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

Ni chafodd unrhyw weithiwr oddi ar y gyflogres ar gyflog mawr (sy'n ennill mwy na £244 y dydd) ei ddefnyddio gennym yn ein gwaith ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae pob swydd wedi eu llenwi naill ai gan weithwyr parhaol, cyfnod penodol neu ar secondiad, neu (ar gyfer anghenion tymor byr llai na 6 mis) gan weithwyr o asiantaethau cyflogaeth.

## Gwariant ar ymgynghorwyr

Gwariant y GDC ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2023 oedd £269k (2022: £227k). Mae gwariant ymgynghori yn ymwneud â chontractau gwasanaeth proffesiynol trydydd parti, lle nad yw'r sgiliau a'r profiad ar gael yn fewnol.

## Iawndal am golli swydd (yn amodol ar archwiliad)

Gadawodd dau weithiwr dan delerau diswyddo gorfodol yn 2023. Talwyd pecynnau iawndal gwerth rhwng £10,583 a £23,325 iddynt.

Gadawodd pum gweithiwr (gan gynnwys y prif weithredwr) dan delerau ymadael gwirfoddol yn ystod 2023. Talwyd pecynnau iawndal gwerth rhwng £7,562 a £161,541 iddynt.

| **Blwyddyn**<br>**Cost band ymadael** | **2023**<br>**Nifer yr ymadawiadau** | **2022**<br>**Nifer yr ymadawiadau** |
|---|---|---|
| <£10,000 | 3 | - |
| £10,000 - £25,000 | 3 | 1 |
| £25,000 - £50,000 | - | 1 |
| £150,000 - £175,000 | 1 | |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 7 | 2 |
| **Cyfanswm cost** | **£231,287** | **£43,309** |

**Tom Whiting,** Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

12 Gorffennaf 2024

# 7. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol I Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 o dan Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Rhagfyr 2023;
- Y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r Datganiad o Newid mewn Cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2023 ac o'r gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad o'm cyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiedir y sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif fel archwilydd. Y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais yn ystod yr archwiliad, neu yn ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad ichi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wneir rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan y gyfraith; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â phenderfyniadau gan y Cyfrin Gyngor.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn eu hystyried yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Deintyddion 1984.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gam-ddatgan materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Lluniaf weithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar fy nealltwriaeth o'r Cyngor, nodais fod y prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â Deddf Deintyddion 1984, ac ystyriais i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriais hefyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny gan gynnwys y Fframwaith o awdurdodau sy'n cael effaith uniongyrchol ar y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol, megis y penderfyniad ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a Deddf Deintyddion 1984.

Rwyf yn gwerthuso cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o wrthwneud rheolaethau), a phenderfynais fod y risg o bostio cofnodion cyfnodolion amhriodol a rhagfarn rheolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn isel. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnais yn cynnwys:

- Trafod gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu dybiedig o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a gynlluniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cyfnodolion;
- Profi ailddatganiad y cyfnod blaenorol ar gyfer incwm gohiriedig;
- Herio rhagdybiaethau a phenderfyniadau a wneir gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol; ac
- Wrth fynd i'r afael â'm sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, ystyried unrhyw daliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn, cynnal adolygiad o bapurau a chofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac adolygiad cymharol cyffredinol o'r flwyddyn gyfredol yn erbyn y flwyddyn flaenorol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na fyddaf yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith neu reoliad ei thynnu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddaf yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r risg hefyd yn uwch o ran afreoleidd-dra sy'n digwydd oherwydd twyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn ymwneud â chuddio bwriadol, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddwyd arnynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Gyffredinol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain
SW1W 9SP

Dyddiad 15 Gorffennaf 2024

# 8. Adroddiad yr archwilydd annibynnol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (“y Cyngor”) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 sy’n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisïau cyfrifyddu allweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw’r gyfraith berthnasol a’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr busnes y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2023, ac o’r gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU; ac
- wedi eu paratoi’n unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a’r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

## Sail ar gyfer barn

Rydym wedi cyflawni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) safonau ISA (y DU) a’r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau’r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o’r Cyngor yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth baratoi’r datganiadau ariannol, daethom i’r casgliad bod defnydd Aelodau’r Cyngor o gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rydym wedi’i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r adeg y mae’r datganiadau ariannol wedi’u hawdurdodi i’w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Aelodau’r Cyngor sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar wahân i’r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni ac eithrio i’r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos yn gamddatganiad perthnasol. Os gwelwn unrhyw anghysondeb pwysig o'r fath neu rywbeth sy'n ymddangos i fod yn gam-ddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes cam-ddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatganiad pwysig o'r wybodaeth arall. Os casglwn, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth arall yma'n gamddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau pwysig yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol y byddem yn ei adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oes ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na chawsant ymweliad gennym; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o dâl a bennir yn ôl y gyfraith; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol a ystyrir yn angenrheidiol gan Aelodau'r Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad pwysig, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes gweithredol a chan ddefnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod Aelodau'r Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r Cyngor neu roi'r gorau i weithredu, neu fod â dim dewis realistig amgen heblaw gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw ennill sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gam-ddatganiad pwysig, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISA (y DU) bob amser yn canfod cam-ddatganiad pwysig. Gall cam-ddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd ddefnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Ar sail ein dealltwriaeth o'r Cyngor, nodwyd mai'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw'r rhai sy'n ymwneud â Deddf Deintyddion 1984, ac ystyriwyd i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol megis y penderfyniad ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol.

Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr i drin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynwyd bod y risg o bostio cofnodion cyfnodolion amhriodol a rhagfarn reoli mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn isel. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

- Trafod â'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a gynlluniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cyfnodolion;
- Profi'r ailddatganiad cyfnod blaenorol ar gyfer incwm gohiriedig; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu o bwys.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po bellaf y mae cydymffurfiaeth â chyfraith neu reoliad o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r risg hefyd yn uwch o ran afreoleidd-dra sy'n digwydd oherwydd twyll yn hytrach na chamgymeriad, gan fod twyll yn cynnwys cuddio bwriadol, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Adriannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau o dan y Ddeddf a wneir gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gyflawni fel y gallwn ddatgan i Aelodau'r Cyngor y materion hynny sy'n ofynnol i ni eu datgan mewn adroddiad Archwilio ac nid i unrhyw bwrpas arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Cyngor a'r Aelodau.

**Haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

15 Gorffennaf 2024

# Adran tri:
# Datganiadau ariannol

## 9. Cyfrifon

### Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2023

| | Nodyn | 2023 £'000 | Ailddatganwyd 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 40,679 | 38,711 |
| Arholiadau Cofrestru Tramor | 2 | 1,807 | 1,511 |
| Amrywiol | 2 | 11 | 14 |
| **Cyfanswm yr Incwm Gweithredu** | | **42,497** | **40,236** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 3 | 21,230 | 19,075 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 4 | 6,914 | 6,698 |
| Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau | 5 | 4,481 | 3,991 |
| Gweinyddiaeth | 6 | 4,438 | 3,793 |
| Llety | 6 | 1,452 | 1,361 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 6 | 445 | 386 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **38,960** | **35,304** |
| Cost cyllid | 6 | 298 | 241 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **39,258** | **35,545** |
| **Gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **3,239** | **4,691** |

| | Nodyn | 2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Enillion o werthu asedau | | 3 | - |
| Incwm o fuddsoddi | 2 | 586 | 352 |
| Enillion / (colledion) a wireddwyd o werthu buddsoddiadau | 10 | 48 | (639) |
| Enillion/(colledion) na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | 1,662 | (2,796) |
| **Gwarged am y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddi ac addasiad** | | **5,538** | **1,608** |
| Trethiant | 7 | (516) | 881 |
| **Gwarged wedi'i gadw ar ôl treth** | | **5,022** | **2,489** |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau heb eu hailddosbarthu | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 16 | (2,634) | 319 |
| (Colled)/Elw oherwydd effaith uchafswm asedau | 16 | 2,634 | (319) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | **-** | **-** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **5,022** | **2,489** |

Mae nodyn 1.15 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ailddatganiad alldro 2022.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 86 i 119 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2023

| | Nodyn | 2023 £'000 | Ailddatganwyd 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 14,100 | 14,494 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 15 | 20 |
| Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled | 10 | 19,544 | 16,731 |
| Darparu ar gyfer ased pensiynau | 16 | - | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **33,659** | **31,245** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Derbyniadau a rhagdaliadau | 11 | 1,654 | 1,477 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | 60,349 | 56,500 |
| Treth gorfforaethol | 11 | - | 26 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **62,003** | **58,003** |
| **Cyfanswm asedau** | | **95,662** | **89,248** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 13 | 5,374 | 3,469 |
| Incwm a ohiriwyd | 13 | 30,980 | 32,191 |
| Darpariaethau | 15 | 119 | - |
| Treth gorfforaethol | 13 | 1 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **36,474** | **35,660** |
| **Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau** | | **59,188** | **53,588** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy eraill | 13 | 5,956 | 5,868 |
| Treth a ohiriwyd | 13 | 858 | 368 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **6,814** | **6,236** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **52,374** | **47,352** |

| | Nodyn | 2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 46,931 | 43,571 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | - | - |
| Cronfa enillion na wireddwyd o fuddsoddiad | | 5,443 | 3,781 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **52,374** | **47,352** |

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Aelodau'r Cyngor a'u llofnodi ar eu rhan ar 12 Gorffennaf 2024.

**Tom Whiting**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Yr Arglwydd Toby Harris**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 86 i 119 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

| | Nodyn | 2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged o weithgareddau gweithredu | Incwm a Gwariant | 3,239 | 4,691 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 6 | 816 | 1,206 |
| Colled/(Elw) o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | - | 2 |
| Ailasesu'r hawl i ddefnyddio ased | 6 | 193 | - |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | (151) | (22) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau eraill | 13 | 1,285 | (1,620) |
| Llog a dalwyd | | (13) | (8) |
| Symudiadau cyllido yn y gronfa bensiwn | 16 | (66) | 0 |
| Treuliau pensiwn a delir yn uniongyrchol gan y cynllun | 16 | 66 | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | 15 | 119 | - |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 15 | - | (29) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **5,489** | **4,220** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (32) | (436) |
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 9 | - | (21) |
| Elw o werthu asedau | | 3 | 0 |
| Elw o werthu asedau ariannol | 10 | 3,275 | 3,372 |
| Prynu asedau ariannol | 10 | (4,378) | (3,272) |
| Incwm o fuddsoddi | 2 | 586 | 352 |
| Treth | 7 | (516) | 881 |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,062)** | **876** |

| | Nodyn | 2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles | 8 | (578) | - |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(578)** | - |
| Cynnydd net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y cyfnod | | 3,849 | 5,096 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 12 | 56,500 | 51,404 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 12 | 60,349 | 56,500 |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **3,849** | **5,096** |

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 86 i 119 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn £'000 | Y gronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Cronfa enillion na wireddwyd o fuddsoddiad £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2021** | | **38,286** | **-** | **6,577** | **44,863** |
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2022** | | | | | **Ailddatganwyd** |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | Incwm a Gwariant | 2,489 | - | - | 2,489 |
| Elw actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | (319) | 319 | - | - |
| Colled oherwydd effaith uchafswm asedau | 16 | 319 | (319) | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | | - | - | - | - |
| Colledion na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | 2,796 | - | (2,796) | - |
| | | **5,285** | **-** | **(2,796)** | **2,489** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | | **43,571** | **-** | **3,781** | **47,352** |
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2023** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | Incwm a Gwariant | 5,022 | - | - | 5,022 |
| Elw actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | 2,568 | (2,568) | - | - |
| Colled oherwydd effaith uchafswm asedau | 16 | (2,634) | 2,634 | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | 16 | 66 | (66) | - | - |
| Enillion na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | (1,662) | - | 1,662 | - |
| | | **3,360** | **-** | **1,662** | **5,022** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | | **46,931** | **-** | **5,443** | **52,374** |

Mae'r golled oherwydd yr effaith ar derfyn asedau pensiwn o £2.6m (2022: £0.3m) yn ganlyniad i gau Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig y GDC i groni buddion yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2021.

Mae cau'r cynllun i groniadau yn y dyfodol yn rhan o'n gwaith parhaus i gael gwared ar risg ariannol hirdymor y GDC mewn perthynas â'r cynllun.

Mae rhagor o wybodaeth yn esbonio'r terfyn asedau pensiwn uchaf a sut mae'n effeithio arnom yn adran y gronfa bensiwn ar dudalen 37 yr adroddiad hwn.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 86 i 119 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# 10. Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU ac maen nhw'n ystyried egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM) 2023 – 2024. Nodir hyn yn ein Cyfarwyddyd Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, a atgynhyrchir ar dudalen 121 o'r adroddiad hwn. Rydym yn paratoi ein cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy gynnwys buddsoddiadau ar werth y farchnad.

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes hyfyw. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd i baratoi'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cymhwyso'n gyson, wedi'u disgrifio isod.

Sefydlwyd y GDC gan Ddeddf Seneddol yn 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Ei brif swyddfa fusnes yw 37 Wimpole St, Llundain W1G 8DQ.

Cyflwynir y datganiadau ariannol yn ein harian cyfred arferol sef punnoedd sterling.

### 1.1 Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol i ni baratoi ein cyfrifon blynyddol ar ffurf a benderfynir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a gerbron Senedd yr Alban. Disgrifir pwrpas statudol y GDC yng nghyflwyniad yr adroddiad blynyddol.

### 1.2 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Yn ffurfiol, gwnaethom fabwysiadu safon cyfrifyddu ryngwladol newydd 'IFRS 17 Contractau Yswiriant' o 1 Ionawr 2023. Ar ôl ystyried cwmpas y safon, daethpwyd i'r casgliad, gan mai dim ond fel deiliad polisi neu warantiadau gwneuthurwr y mae'r GDC yn cadw contractau yswiriant, nad oedd unrhyw effaith i'n datganiadau ariannol.

## 1.3 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu o bwys

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IAS, rhaid i ni wneud amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau i ddod y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud yr amcangyfrifon a'r dyfarniadau. Gall y profiad gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Isod trafodir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â'r risg fwyaf sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau.

**Buddion pensiwn**

Cyfrifwn am bensiynau'n unol ag 'IAS 19 – Buddion Gweithwyr'. Wrth benderfynu ar gostau pensiwn a rhwymedigaethau buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y GDC, defnyddir nifer o dybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflog, chwyddiant prisiau, yr elw ddisgwyliedig ar fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2013 ymlaen. Cytunir ar y tybiaethau gyda'r actiwari cymwysedig a defnyddir nhw i gyfrifo'r darpariaethau pensiwn. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rhaid i ni gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol gan nad ydym yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw.

Ar 31 Rhagfyr 2023 (2022: dim), nid oes gan y cynllun warged ar sail y tybiaethau IAS 19 a ddefnyddiwyd.

**Darpariaethau**

Mae'r GDC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongladwy, ac sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, ar sail yr amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

**Dibrisio ac amorteiddio**

Cyfrifwn am ddibrisio ac amorteiddio'n unol ag 'IAS 16 – Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar' ac 'IAS 38 – Asedau Anniriaethol'. Mae costau dibrisio ac amorteiddio'n cydnabod y dirywiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnod y bydd yr ased yn cael ei defnyddio.

Gwneir dyfarniadau ynghylch beth fydd oes ddefnyddiol dybiedig yr asedau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol.

Rhoddir manylion pellach yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisio ac amorteiddio isod (nodyn 1.6).

## 1.4 Busnes hyfyw

Rydym yn gorff statudol sy'n parhau i ddarparu gwasanaeth. Cynhyrchir ein hincwm ffioedd drwy ffioedd cofrestru gorfodol i ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol sy'n ymarfer yn y DU.

Cwblhawyd y cyfnod casglu ffioedd cofrestru blynyddol ar gyfer deintyddion ym mis Rhagfyr 2023, gydag 82% o ddeintyddion yn dewis talu'n llawn am y flwyddyn a'r gweddill yn talu rhandaliadau chwarterol. Derbyniwyd 87.8% o gyfanswm cyllideb ffioedd cofrestru blynyddol deintyddion ym mis Rhagfyr 2023.

Cwblhawyd y casgliad ffioedd cofrestru blynyddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2024 ym mis Gorffennaf 2023, gyda 53.2% o gyfanswm ein hincwm cofrestru flynyddol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol ar gyfer 2024 wedi'i dderbyn ar 31 Rhagfyr 2023. Derbyniwyd cyfanswm o 81.2% o'n hincwm gweithredu wedi'i gyllidebu ar gyfer 2024 ar 31 Rhagfyr 2023.

Er bod rhaid inni ystyried y cyfnod 12 mis nesaf o leiaf, rydym yn cwblhau dadansoddiad senario manwl drwy brawf straen i fesur effaith unrhyw leihad yn nifer y gweithwyr cofrestredig ar ein hincwm dros y tair blynedd nesaf. Roedd y senarios a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y wybodaeth ystadegol oedd ar gael gan fodelu effaith gwahanol lefelau risg incwm ar ein hylifedd a lefel ddisgwyliedig ein cronfeydd wrth gefn rhydd. Fel rhan o'r gwaith modelu hwn, rydym wedi cwblhau dadansoddiad sensitifrwydd hefyd i ddeall faint y byddai'n rhaid i nifer y gweithwyr cofrestredig ostwng i'n rhoi mewn sefyllfa arian parod ddybryd.

Mae ein gallu i liniaru unrhyw risg i'n hincwm yn y dyfodol hefyd wedi'i gynorthwyo gan y ffaith y cwblheir ein cynlluniau gweithredol gryn amser ymlaen llaw, gan roi cyfle pellach i ni leihau ein costau i gynnal ein hyfywedd ariannol.

Ar ôl adolygu'r senarios hyn, ystyriwn ei bod yn briodol i ni baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 1.5 Eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol

Mae eitemau o eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol wedi'u datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi.

Cwblheir ymarfer dilysu blynyddol i sicrhau bod yr asedau'n bresennol, ac yn gweithio. Bydd unrhyw gyfarpar sydd wedi'i ddifrodi y tu hwnt i waith atgyweirio darbodus yn cael ei waredu.

Adroddir Asedau Sefydlog Anghyfredol fel eiddo, peiriannau a chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo'n briodol, dosbarthwyd meddalwedd ac asedau datblygu fel Asedau Anniriaethol o dan IAS 38.

Cedwir asedau ar ganol eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost tan y daw'r asedau hynny'n weithredol ac y trosglwyddir nhw i'r dosbarth asedau anghyfredol sy'n berthnasol iddynt.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu dim ond lle mae cost yr ased neu'r grŵp o asedau a brynwyd yn fwy na £1,000.

## 1.6 Dibrisio ac amorteiddio

Darperir ar gyfer dibrisio ac amorteiddio er mwyn dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Mae treuliau dibrisio ac amorteiddio wedi eu cynnwys yn y llinell costau gweinyddol yn y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae oes ddefnyddiol dybiedig asedau fel a ganlyn:

| Dosbarthiad yr ased | Oes yr ased |
|---|---|
| Celfi a gosodiadau | Hyd at 10 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Hyd at 25 mlynedd |
| Cyfarpar TG | Hyd at bum mlynedd |
| Meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd | Hyd at bum mlynedd |
| Asedau hawl defnyddio | Dros weddill y brydles |

Adolygir cyfraddau dibrisio'n rheolaidd drwy gymharu oes wirioneddol ased â chyfraddau'r polisïau cyfrifyddu.

## 1.7 Amhariad

Ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol, adolygwn symiau cario ein hasedau i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi dioddef colled drwy amhariad. Os oes arwydd bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth adenilladwy'r ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad. Codir colled drwy amhariad ar y datganiad incwm yn syth.

Pan fydd cynnydd wedyn yn swm adenilladwy ased oherwydd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddir i benderfynu faint yw'r swm adenilladwy, mae'n cael ei ystyried yn wrthdroad o'r golled flaenorol drwy amhariad ac yn cael ei gydnabod fel swm cario'r ased a fyddai wedi cael ei benderfynu (net o ddibrisio ac amorteiddio) pe na bai colled drwy amhariad wedi'i chydnabod. Mae'r gwrthdroad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant yn syth.

## 1.8 Gwariant

Cyfrifir am wariant ar sail croniadau pan fydd naill ai'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi'i gyflawni. Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei gynnwys gyda'r eitem gost y mae'n berthnasol iddi.

## 1.9 Incwm

Cyfrifir am refeniw dros y cyfnod y mae'n rhaid i ni gynnal cofrestriad unigolyn. Rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion. Rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer gweithwyr DCP.

Telir ffioedd cofrestru staff naill ai'n flynyddol ymlaen llaw neu bob chwarter ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod yr incwm ar sail llinell syth ar draws y cyfnod y mae'r ffi gofrestru'n berthnasol iddo. Nid oes angen unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon allweddol wrth asesu rhwymedigaethau'r GDC, sydd wedi eu gwasgaru'n gyfartal dros y cyfnod cofrestru. Y swm incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd a gawsom ar ddyddiad y fantolen sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol yn y dyfodol.

Mae ffioedd yr Arholiadau Cofrestru Tramor yn cael eu cydnabod pan fydd pobl yn archebu arholiadau.

Cydnabyddir ffioedd y gellir eu derbyn mewn perthynas â ffioedd asesu ceisiadau cofrestru unwaith y bydd gwaith wedi'i wneud i brosesu'r cais yn barod ar gyfer asesiad terfynol.

Mae ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall yn cael eu cydnabod pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol. Mae incwm buddsoddi'n cael ei gydnabod pan ddaw'r difidend neu log yn ddyledus, wedi'i ddatgan fel swm crynswth o dreth adenilladwy.

## 1.10 Prydlesi

Ar gyfer unrhyw gontract newydd a gytunir dros y cyfnod cyfrifyddu, ystyriwn a yw'n brydles neu'n cynnwys prydles. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur ar sail gwerth y taliadau prydles heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, gyda gostyngiad ar sail y gyfradd llog ymhlyg yn y brydles lle bo'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd, neu ar sail ein cyfradd fenthyg gynyddrannol; sy'n unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr, adeg cychwyn y brydles.

Mae'r ased hawl defnyddio'n cael ei fesur ar sail cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o rwymedigaeth y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wariwyd yn sgil defnyddio, amcan o unrhyw gostau i ddatgymalu a symud yr ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae asedau hawl defnyddio'n cael eu dibrisio ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles i ddiwedd ei hoes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Asesir prydlesi ar gyfer amhariad pan fydd arwydd o hynny.

Rydym wedi dewis rhoi cyfrif am brydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel am resymau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles, mae'r taliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel cost o dan elw neu golled, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mae'r Cyngor:

- Wedi trin unrhyw brydles gydag ased sylfaenol gwerth llai na £3,000 fel ased gwerth isel.
- Wedi trin unrhyw brydles gyda llai na 12 mis tan y daw i ben fel prydles tymor byr.
- Wedi cydnabod prydlesi tymor byr a gwerth isel ar sail llinell syth fel cost yn y cyfrif incwm a gwariant.

Yn y datganiad sefyllfa ariannol, mae asedau hawl defnyddio wedi'u cynnwys o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar a rhwymedigaethau prydles o dan symiau taladwy masnachol ac eraill.

Nid oes gennym unrhyw drefniadau is-brydlesu, gwerthu ac ôl-brydlesu, na threfniadau lle'r ydym yn brydlesydd.

### Prydlesi swyddfeydd

Mae'r asedau prydles ar 31 Rhagfyr 2023 yn cynnwys cytundebau rhent ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham.

Nid yw'r prydlesi'n cynnwys unrhyw opsiynau i adnewyddu am gyfnod ychwanegol. Rhaid i unrhyw addasiadau a wneir i'r swyddfeydd gael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r prydlesydd a thrwy roi'r rhybudd contractiol perthnasol.

### Swyddfa Llundain

Darperir y brydles ar gyfer Swyddfa Llundain i ni ar sail rhent hedyn pupur tan fis Ionawr 2057. Mae amodau'r trefniant hwnnw'n pennu bod yr eiddo i'w feddiannu fel pencadlys y GDC. Mae'r brydles yn cynnwys rhandaliad prydles amrywiol ar sail y Mynegai Prisiau Manwerthu, sy'n cael ei ailbrisio bob pum mlynedd.

O dan delerau'r brydles hedyn pupur, rhaid i ni fod ag yswiriant digonol drwy gwmni yswiriant a benodir gan y prydlesydd, rhag tân a difrod i'r eiddo. Rydym yn gyfrifol hefyd am gynnal a chadw a golwg allanol yr eiddo ar sail cyfnodau a nodir yn y contract.

### Swyddfa Birmingham

O dan delerau'r brydles ar gyfer Swyddfa Birmingham rhaid i ni wneud taliadau i'r prydlesydd am wasanaeth ac yswiriant sy'n cael eu penderfynu'n flynyddol fel rheol. Mae'r rhent yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Mae'r cytundeb prydlesu yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 30 Medi 2033 ac nid yw'n cynnwys opsiwn i derfynu'n gynnar. Os penderfynir gadael y safle'n gynnar, gall risg les feichus godi.

Mae'n ofynnol i ni fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant ag enw da ar gyfer risgiau sy'n ymwneud â'r eiddo.

Ailaseswyd y brydles ar 1 Hydref 2023, fel rhan o'n hadolygiad rhent contractiol. Mae effaith yr ailbrisio hwnnw wedi'i gynnwys yn ein datganiadau ariannol.

### 1.11 Treth

Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hyn.

Mae treth a ohiriwyd yn cael ei chydnabod ar bob gwahaniaeth dros dro trethadwy. Fodd bynnag, ni chyfrifir treth a ohiriwyd wrth gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau oni bai bod y trafodiad yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifyddu. Mae ased treth a ohiriwyd hefyd yn cael ei chydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ôl pa mor debygol fydd yr elw trethadwy ar gael i ddefnyddio'r gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ei erbyn. Mesurir rhwymedigaethau ac asedau treth a ohiriwyd ar sail y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i'r cyfnod pan wireddir yr ased neu pan setlir y rhwymedigaeth. Mae mesur hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau treth adennill neu setlo swm cario'r asedau a'r rhwymedigaethau. Mae newidiadau mewn rhwymedigaethau neu asedau treth a ohiriwyd yn cael eu cydnabod fel elfen o gost treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

## 1.12 Cynlluniau pensiwn

Roedd gan y Cyngor dri chynllun pensiwn yn ystod 2023.

| Cynllun Pensiwn | Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Meistr | The People's Pension |
| Adran Buddion Diffiniedig | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol' | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |

Mae gweithwyr a ymunodd â'r GDC ar ôl 31 Rhagfyr 2014 yn dod o dan gynllun Ymddiriedolaeth Meistr The People's Pension. Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaeth y gweithiwr, drwy dalu symiau i'r People's Pension wedi eu cyfrifo ar sail gronnus. Mae'r cyfraniadau'n cael eu pennu ar sail canran o gyflog pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar The People's Pension.

Mae'r ddau gynllun pensiwn arall o fewn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau'n cael eu cadw ar wahân i rai'r Cyngor ac yn cael eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 16.

### Adran buddion diffiniedig

Caewyd yr adran hon i weithwyr newydd a gafodd gynnig swydd ar ôl 31 Rhagfyr 2014 iddynt ac i rai a ymunodd o'r newydd ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Caewyd y cynllun i gronni yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2021, a throsglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r pensiwn Ymddiriedolaeth Meistr o 1 Ebrill 2021.

Codir costau gwasanaeth presennol yr adran buddion diffiniedig, net costau llog y cynllun, a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun am y flwyddyn, ar y cyfrif incwm a gwariant o dan 'costau pensiwn'. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth o dan 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r adran buddion diffiniedig ar sail eu gwerth teg ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol yn defnyddio'r dull amcanwerth unedol, ac wedi eu disgowntio ar gyfradd cyfwerth â'r elw disgwyliedig ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod cyfatebol i gyfnod rhwymedigaethau'r cynllun. Datgelir y rhwymedigaethau neu'r asedau buddion diffiniedig a geir yn sgil hynny ar wahân yn y datganiad sefyllfa ariannol.

O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rhaid i ni gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. Mae unrhyw warged (ased pensiwn) o'r cynllun ar adeg y prisiad yn perthyn i'r cynllun, sy'n endid cyfreithiol ar wahân.

Darperir gwybodaeth am brisiad y gronfa bensiwn ar dudalen 110 yr adroddiad hwn.

**Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol'**

Caewyd yr adran hon i aelodau newydd o 1 Ebrill 2014 ac mae wedi'i chau i unrhyw gyfraniad yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021. Roedd cyfrannu'n wirfoddol a gwnaeth y Cyngor gyfraniad cyfwerth hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy hyd at y dyddiad cau. Codir y cyfraniadau ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## 1.13 Offerynnau ariannol

**Asedau ariannol**

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel gwarannau rhestredig, gwarannau llog sefydlog, ecwiti ynghyd ag ymddiriedolaeth unedau sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig ac arian cadw. Dosberthir y rhain fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9.

Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau canol marchnad diwedd dydd ar y dyddiad cyfrifyddu. Mae enillion na wireddwyd a cholledion o newidiadau mewn gwerth marchnadol yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 10.

**Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Cedwir arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod am gost wedi'i hamorteiddio ac mae'n cynnwys arian parod mewn llaw a blaendaliadau a gedwir ar alwad gyda banciau. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 12.

**Derbyniadau masnachol ac eraill**

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maent yn deillio'n bennaf o dalu ymlaen llaw am wasanaethau a dderbynnir. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 11.

**Symiau taladwy masnachol ac eraill**

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 13.

## 1.14 Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y wybodaeth isod.

**Cronfeydd wrth gefn cyffredinol**

Sef y canlyniadau sy'n weddill ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn.

**Y gronfa bensiwn wrth gefn**

Sef yr enillion a'r colledion actiwaraidd ac effaith y terfyn pensiwn uchaf ar asedau cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y GDC ar gyfer rhwymedigaethau/asedau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

## 1.15 Ailddatganiadau

Yn ystod 2023, rydym wedi cynnwys yr ailddatganiad canlynol i'r flwyddyn ariannol flaenorol:

**Incwm gohiriedig ac incwm cofrestru**

Yn dilyn diwygiadau deddfwriaethol ar gofrestru rhyngwladol, caewyd y llwybr DCP i gofrestru ar gyfer deintyddion cymwys dramor o fis Mawrth 2023. Yn gynnar yn 2023, cawsom nifer digynsail o geisiadau ar gyfer y llwybr hwn, cyn i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig ddod i rym. Nid oedd modd i ni glirio'r cynnydd sydyn mewn ceisiadau yn ystod 2023 oherwydd maint y dasg a oedd yn drech na'r adnoddau mewnol a oedd ar gael. Felly rhagwelwyd y byddai angen addasiad ychwanegol ar gyfer incwm gohiriedig, yn unol ag IFRS 15.

Wrth adolygu ceisiadau heb eu trin, nodwyd gennym y dylai addasiad cyfatebol wedi bod ar waith ar gyfer 2022. Mae hyn bellach wedi'i gyfrifo ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac wedi'i gynnwys fel ailddatganiad.

Gwerth cyfatebol incwm gohiriedig ychwanegol a addaswyd yn 2022 oedd £1m, gyda gostyngiad cyfatebol mewn incwm cofrestru o £1m.

Nid oes unrhyw addasiad cyfatebol ar gyfer 2021 ac felly nid yw trydydd datganiad o gyfnod sefyllfa ariannol wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

# 2. Incwm

## 2.1 Incwm o gofrestru

| | 2023 | | Ailddatganwyd 2022 |
|---|---|---|---|
| | Rhif | £'000 | £'000 |
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 2,107 | 713 | 609 |
| Cofrestru dros dro | 136 | 66 | 53 |
| Nifer a gadwyd | 43,930 | 29,627 | 28,591 |
| Adfer ar ôl cael gwared | 224 | 93 | 83 |
| **Cyfanswm** | **46,397** | **30,499** | **29,336** |
| **Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 6,582 | 360 | 283 |
| Nifer a gadwyd (Awst i Rhagfyr)* | 71,315 | 3,759 | 3,268 |
| Nifer a gadwyd (Ionawr i Orffennaf)** | - | 4,255 | 4,641 |
| Adfer ar ôl cael gwared | 1,410 | 88 | 42 |
| **Cyfanswm** | **79,307** | **8,462** | **8,234** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Ychwanegiadau at y rhestr o arbenigwyr | 158 | 54 | 38 |
| Nifer yr arbenigwyr a gadwyd yn flynyddol | 4,404 | 307 | 309 |
| Ffi adfer arbenigwyr | - | - | 5 |
| **Cyfanswm** | **4,562** | **361** | **352** |
| **Ffioedd prosesu ceisiadau cofrestru** | | **1,357** | **789** |
| **Cyfanswm yr Incwm Cofrestru** | | **40,679** | **38,711** |

*Casglu ffioedd 2023/24 (Gorffennaf 2023)

**Casglu ffioedd 2022/23 (Gorffennaf 2022)

Mae ffioedd prosesu ceisiadau cofrestru wedi'u hailddatgan ar gyfer 2022, i gydnabod bod £1,021k o ffioedd asesu ceisiadau cofrestru wedi'u derbyn yn ystod 2022 lle nad oedd y gwaith paratoi ar gyfer asesiad terfynol i ymuno â'r gofrestr wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2022.

Mae'r ffigurau uchod yn adlewyrchu cofrestreion yn talu ffioedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer y cofrestreion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2023.

## 2.2 Incwm arall

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd Arholiadau | 1,807 | 1,511 |
| Incwm amrywiol | 11 | 14 |
| Incwm o fuddsoddi | 586 | 352 |
| **Cyfanswm incwm arall** | **2,404** | **1,877** |

## 3. Costau staff

| | 2023 | | | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Costau staff** | | | | |
| Tâl a chyflogau | 16,853 | - | 16,853 | 15,332 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,873 | - | 1,873 | 1,770 |
| Costau pensiwn | 1,137 | - | 1,137 | 1,038 |
| Taliadau terfynu a dileu swyddi | 83 | - | 83 | 22 |
| Costau staff eraill | 1,166 | - | 1,166 | 783 |
| **Is-gyfanswm** | **21,112** | **-** | **21,112** | **18,945** |
| Staff dros dro | - | 118 | 118 | 130 |
| **Cyfanswm** | **21,112** | **118** | **21,230** | **19,075** |

## 4. Gwariant ar wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| **Tâl a chostau archwilwyr:** | | |
| Archwilio allanol | 46 | 44 |
| Archwilio allanol – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 12 | 12 |
| Archwilio mewnol | 64 | 106 |
| Ffioedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 297 | 303 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 1,014 | 1,064 |
| Ffioedd y Cwnsleriaid | 1,204 | 1,120 |
| Ffioedd arbenigol | 492 | 605 |
| Costau arholiadau | 1,993 | 1,686 |
| Ffioedd a thaliadau eraill | 1,689 | 1,597 |
| Taliadau eraill | 103 | 161 |
| **Cyfanswm** | **6,914** | **6,698** |
| **Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau di-archwilio canlynol gan ei archwilwyr allanol haysmacintyre:** | | |
| Am gyngor ar dreth gorfforaethol | 6 | 5 |
| Cyngor cyflogaeth a chyngor arall | - | - |
| **Cyfanswm** | **6** | **5** |

## 5. Gwariant ar gyfarfodydd y Cyngor a'r pwyllgorau

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm ffioedd a threuliau'r Cyngor | 466 | 349 |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 2,183 | 2,076 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 119 | 124 |
| Treuliau a ffioedd proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 1,285 | 1,154 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli | 428 | 288 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgor | 4,015 | 3,642 |
| **Cyfanswm Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau** | **4,481** | **3,991** |

Gellir priodoli'r cynnydd blynyddol yn 2023 mewn perthynas â threuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli yn bennaf i baneli ychwanegol yn dilyn cau llwybrau DCP ar gyfer deintyddion a arweiniodd at fwy o geisiadau. Yn ystod mis Awst 2023, dechreuodd y gwaith ar restri arbenigol sydd wedi cynyddu gwariant ymhellach.

## 6. Gwariant gweinyddol arall

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| **Treuliau gweinyddol** | | |
| Dibrisiant | 811 | 1,194 |
| Amorteiddio | 5 | 12 |
| Ailasesu'r ased hawl i ddefnyddio | 193 | - |
| Colled o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | 2 |
| Llogi cyfarpar swyddfa | 13 | 3 |
| Prydlesi adeiladau - taliadau gwasanaeth | 419 | 304 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 2,054 | 1,631 |
| Costau personél | 10 | 1 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 254 | - |
| Costau gweithredu eraill | 679 | 646 |
| **Cyfanswm** | **4,438** | **3,793** |
| | | |
| **Cost cyllid** | | |
| Taliadau llog ar brydlesi cyllid | 298 | 241 |
| **Cyfanswm** | **298** | **241** |
| | | |
| **Treuliau llety** | | |
| Ardrethi busnes | 673 | 546 |
| Glanhau | 224 | 221 |
| Cynnal a chadw a thrwsio | 144 | 379 |
| Costau llety eraill | 411 | 215 |
| **Cyfanswm** | **1,452** | **1,361** |
| | | |
| **Treuliau cyfathrebu a chyhoeddi** | | |
| Cyfathrebu a chyhoeddiadau | 445 | 386 |
| **Cyfanswm** | **445** | **386** |
| | | |
| **Cyfanswm costau eraill** | **6,633** | **5,781** |

# 7. Treth

## 7.1 Dadansoddiad o daliadau treth

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | |
| Treth gorfforaethol y DU ar elw'r flwyddyn | - | - |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | 25 | (26) |
| Trethiant tramor | 1 | - |
| Cyfanswm taliadau treth cyfredol | 26 | (26) |
| **Treth a ohiriwyd** | | |
| Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru | 490 | (650) |
| Effaith newid cyfraddau treth ar y balans agoriadol | - | (205) |
| **Cyfanswm y dreth a ohiriwyd** | **490** | **(855)** |
| **Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin** | **516** | **(881)** |

## 7.2 Ffactorau'n effeithio ar daliadau treth am y cyfnod

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hwn.** | | |
| **Ffactorau'n effeithio ar daliadau treth am y cyfnod** | | |
| Elw am y flwyddyn | 5,538 | 2,629 |
| Treth ddisgwyliedig o 23.52% (2022: 19.0%) | 1,302 | 500 |
| **Effeithiau:** | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | (1,178) | (643) |
| Addasiad i'r gwerthoedd a gariwyd ymlaen | - | (3) |
| Symudiad yn y balans treth a ohiriwyd oherwydd newid yn y cyfraddau treth | - | - |
| Treth ar daliadau cydraddoli a buddsoddiadau llog sefydlog sy'n cynyddu yn eu gwerth | 337 | (503) |
| Credydau trethiant tramor | 1 | - |
| Ail-fesur treth a ohiriwyd ar gyfer newid mewn cyfraddau treth | 29 | (205) |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | 25 | (27) |
| **Treth yn y flwyddyn gyfredol** | **516** | **(881)** |

## 8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | 2023 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwelliannau Lesddaliad | Asedau Hawl Defnyddio | Peiriannau a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 10,347 | 6,727 | 723 | 1,203 | 1,826 | 20,826 |
| Ychwanegiadau | - | (290) | 1 | - | 321 | 32 |
| Ailasesu | - | 578 | - | - | - | 578 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | - |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2023 | 10,347 | 7,015 | 724 | 1,203 | 2,147 | 21,436 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2023 | 1,913 | 1,749 | 380 | 1,030 | 1,260 | 6,332 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 310 | 341 | 39 | (158) | 279 | 811 |
| Ailasesu | - | 193 | - | - | - | 193 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **2,223** | **2,283** | **419** | **872** | **1,539** | **7,336** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **8,124** | **4,732** | **305** | **331** | **608** | **14,100** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **8,434** | **4,978** | **343** | **173** | **566** | **14,494** |

| | 2023 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwelliannau Lesddaliad** | **Asedau Hawl Defnyddio** | **Peiriannau a Chyfarpar** | **Dodrefn a Ffitiadau** | **Technoleg Gwybodaeth** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | 10,302 | 6,727 | 1,154 | 1,157 | 1,523 | 20,863 |
| Ychwanegiadau | 45 | - | 4 | 46 | 341 | 436 |
| Gwarediadau | - | - | (435) | - | (38) | (473) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **10,347** | **6,727** | **723** | **1,203** | **1,826** | **20,826** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 1,604 | 1,312 | 771 | 913 | 1,009 | 5,609 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 309 | 437 | 42 | 117 | 289 | 1,194 |
| Gwarediadau | - | - | (433) | - | (38) | (471) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **1,913** | **1,749** | **380** | **1,030** | **1,260** | **6,332** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **8,434** | **4,978** | **343** | **173** | **566** | **14,494** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2021** | **8,698** | **5,415** | **383** | **244** | **514** | **15,254** |

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau, ac eithrio asedau hawl defnyddio, sef prydlesi eiddo Llundain a Birmingham (gweler nodyn 1.10).

## 9. Asedau anniriaethol

| | | 2023 | |
|---|---|---|---|
| | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | Cyfansymiau £'000 |
| **Cost** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 1,363 | 244 | 1,607 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **1,363** | **244** | **1,607** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 1,363 | 224 | 1,587 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 5 | 5 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **1,363** | **229** | **1,592** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **-** | **15** | **15** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **-** | **20** | **20** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | 1,363 | 223 | 1,586 |
| Ychwanegiadau | - | 21 | 21 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **1,363** | **244** | **1,607** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2022 | 1,362 | 213 | 1,575 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 1 | 11 | 12 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **1,363** | **224** | **1,587** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **-** | **20** | **20** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2021** | **1** | **10** | **11** |

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau.

## 10. Asedau ariannol

| | 2023 | | | 2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ecwitïau | Gwarannau Llog Sefydlog | Cyfanswm | Ecwitïau | Gwarannau Llog Sefydlog | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr | 11,971 | 4,760 | 16,731 | 14,973 | 5,293 | 20,266 |
| Ychwanegiadau | 3,295 | 1,083 | 4,378 | 1,680 | 1,592 | 3,272 |
| Gwarediadau | (2,239) | (1,036) | (3,275) | (2,060) | (1,312) | (3,372) |
| Enillion/(Colledion) a wireddwyd ar fuddsoddiadau | 64 | (16) | 48 | (324) | (315) | (639) |
| Enillion/(Colledion) na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 1,448 | 214 | 1,662 | (2,298) | (498) | (2,796) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **14,539** | **5,005** | **19,544** | **11,971** | **4,760** | **16,731** |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol a ddelir mewn ecwitïau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023: £378k (2022: £315k.

Dyfynnir yr asedau ariannol uchod mewn marchnad weithredol ac maent wedi eu cynnwys ar sail eu gwerth marchnadol. Dosbarthwyd yr holl asedau ariannol uchod yn rhai lefel 1 at ddibenion datgelu o dan IFRS 7, oherwydd mae'r holl symiau'n seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol.

## 11. Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 132 | 137 |
| Treth gorfforaethol | - | 26 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,522 | 1,340 |
| **Cyfanswm** | **1,654** | **1,503** |

Mae oed yr holl dderbyniadau'n gyfredol a phob swm o fewn ei ddyddiad dyledus, ond heb amhariad. Nid oes darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Nid oes unrhyw asedau ariannol gydag amhariad.

## 12. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 56,500 | 51,404 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 3,849 | 5,096 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **60,349** | **56,500** |

| | | |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol ar gadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 39,608 | 45,136 |
| Adneuon banc tymor byr | 20,741 | 11,364 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **60,349** | **56,500** |

## 13. Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Treth gorfforaethol | 1 | - |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | 580 | 541 |
| Taliadau masnachol | 844 | 61 |
| Symiau taladwy eraill | 292 | 266 |
| Croniadau | 2,837 | 1,862 |
| Incwm a ohiriwyd | 30,980 | 32,192 |
| Rhan gyfredol y rhwymedigaethau prydles | 821 | 738 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | **36,355** | **35,660** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 5,956 | 5,868 |
| Treth a ohiriwyd | 858 | 368 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | **6,814** | **6,236** |
| **Cyfanswm taliadau masnachol a rhwymedigaethau eraill** | **43,169** | **41,896** |

Mae ffigurau 2022 yn cael eu hailddatgan mewn perthynas ag incwm gohiriedig (gweler nodyn 2.1) Mae nodyn 1.15 yn nodi sut y cyfrifwyd yr addasiad hwn ac unrhyw gyfyngiadau ar y cyfrifiad hwnnw.

## 14. Offerynnau ariannol a rheoli risgiau ariannol

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Costau wedi'u hamorteiddio** | | |
| Balansau banc ac arian parod | 60,349 | 56,500 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 132 | 137 |
| **Cyfanswm** | **60,481** | **56,637** |

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth teg drwy elw a cholled** | | |
| Ecwitïau | 19,544 | 16,731 |
| **Cyfanswm** | **19,544** | **16,731** |

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau mewn gwarannau rhestredig, ecwiti ac ymddiriedolaeth unedau sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig ac adneuon arian parod. Dosberthir y rhain fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9. Cynhwysir buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu ar sail eu gwerth marchnadol diwedd blwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau canol marchnad diwedd dydd ar y dyddiad cyfrifyddu.

Mae'r buddsoddiadau wedi eu categoreiddio fel rhai lefel un at ddibenion datgelu o dan IFRS 7.

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 4,554 | 2,730 |
| **Cyfanswm** | **4,554** | **2,730** |

Mae'r rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maent yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau.

### Risg credyd

Risg credyd yw risg bod un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn sylweddol. Nid yw'r GDC yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ac nid oes ganddo unrhyw ddyledion allanol. Defnyddiwn amrywiaeth o fesurau lliniaru risg gan gynnwys sgoriau credyd i asesu risg credyd partïon eraill, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

## Risg hylifedd

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian parod yn gylchol ac ar eu huchaf yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian parod yn isel rhwng y cyfnodau hyn oherwydd bod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf yn Rhagfyr pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf pan fydd gweithwyr gofal deintyddol yn talu eu ffioedd hwythau. Mae gwariant y Cyngor wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy'r flwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i wariant yn y dyfodol, yn bennaf ar brydlesi. Oherwydd ein bod yn gorff statudol wedi'i ariannu gan ffioedd cofrestru gorfodol a delir gan ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol, credwn fod y risg na allwn fodloni'r rhwymedigaethau hyn yn isel.

Felly mae'r Cyngor o'r farn nad oes posibilrwydd arwyddocaol o risg hylifedd.

## Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau mewn punnoedd sterling felly nid oes risg arian cyfred o ddal buddsoddiadau ecwiti tramor. Fodd bynnag, mae rhai o'r cronfeydd cyfunol wedi eu buddsoddi dramor a gallai rhai cwmnïau ddatgan difidend mewn arian cyfred gwahanol, ond wedyn talu mewn sterling, felly gall fod amrywiadau arian cyfred.

Mae gan y GDC bolisi cronfeydd wrth gefn. Oherwydd cylchoedd adnewyddu cofrestru a dulliau talu ffioedd gweithwyr cofrestredig, mae gan y GDC swm priodol o arian parod mewn cyfrifon cadw tymor byr i ateb y gwariant y disgwylir ei wario dros y cyfnod talu.

## Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Mae gweithwyr deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae arian gwarged yn cael ei gadw fel a ganlyn:

- Adnau cyfnod penodol – cedwir y rhan fwyaf o'r arian gwarged yn y farchnad arian tymor byr. Chwiliwn am gyfraddau cystadleuol wrth fuddsoddi yn y farchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir y gweddill mewn portffolio o fuddsoddiadau ecwiti ac ymddiriedolaethau unedau lle mae risg bob amser o ostyngiad yn eu gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol drwy strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a niwed diangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r GDC. Cymeradwyodd y Cyngor yr adolygiad blynyddol o'n datganiad o egwyddorion buddsoddi ym mis Rhagfyr 2021.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn arwyddocaol o ran bod y GDC yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei waith.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 2023 | | | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | Darpariaethau Ymadael £'000 | Darpariaethau Eraill £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr | - | - | - | 29 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | (29) | (90) | (119) | - |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | - | - | - | (29) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **(29)** | **(90)** | **(119)** | **-** |

## 16. Y gronfa bensiwn

Hyd at 31 Mawrth 2021, roedd gan y GDC gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu'n llwyr drwy gyfraniadau gan y GDC ac aelodau'r cynllun pensiwn. Cafodd prisiad actiwaraidd tair-blynyddol llawn ei wneud ar 1 Ebrill 2021 a chafodd diweddariad ei wneud ar 31 Rhagfyr 2023 gan actiwari cymwys annibynnol.

Ar 31 Rhagfyr 2023, mae gan y cynllun warged o £7,500k ar sail tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Gwelodd adran buddion diffiniedig y cynllun gynnydd actiwaraidd net yn ei werth o £2m yn 2023, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rydym wedi ein cyfyngu rhag dangos gwarged y cynllun yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth am derfyn uchaf yr asedau pensiwn yn adran y gronfa bensiwn ar dudalen 31 yr adroddiad hwn.

Mae hyd y cynllun oddeutu 30 mlynedd felly disgwylir y byddwn yn talu llifoedd arian parod yn y dyfodol am fwy na 30 mlynedd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ar 31 Rhagfyr 2023 oedd:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Y gyfradd chwyddiant | 3.2% | 3.3% |
| Cyfradd codiadau cyflog | 3.7% | 3.8% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 5.0% ar y mwyaf | 3.0% | 3.2% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 3% o leiaf, 5% ar y mwyaf | 3.7% | 3.6% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 2.5% ar y mwyaf | 2.0% | 2.3% |
| Cyfradd disgownt | 4.5% | 4.7% |
| Cyfran y gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50.0% | 50.0% |

Disgwyliadau oes wrth ymddeol yn 65 oed:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Ymddeol heddiw - dynion | 22.5 | 23.0 |
| Ymddeol heddiw - menywod | 24.2 | 24.6 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – dynion | 23.4 | 23.9 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – menywod | 25.2 | 25.7 |

Mae'r tybiaethau marwolaeth am y cyfnod cyfredol yn dilyn tablau marwolaeth S3PMA Light wedi'u haddasu'n unol â rhagamcaniadau CMI 2022 gyda thuedd tymor hir o 1% y flwyddyn.

Mae prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun fel a ganlyn:

| | Dyraniad (£) 2023 | Dyraniad (%) 2023 | Dyraniad (£) 2022 | Dyraniad (%) 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | - | 0.0% | 1,781 | 5.5% |
| Polisïau blwydd-dal | 3,411 | 11.2% | 3,554 | 11.0% |
| Cronfa ag Elw | 4,004 | 13.1% | 3,802 | 11.7% |
| Arian | 20 | 0.1% | 2,005 | 6.2% |
| LDI | 14,129 | 46.3% | 10,282 | 31.8% |
| Bondiau Corfforaethol | 7,409 | 24.3% | - | 0.0% |
| Eraill | 1,516 | 5.0% | 10,947 | 33.8% |
| **Cyfanswm** | **30,489** | **100.0%** | **32,371** | **100.0%** |

Ni fuddsoddir yr un o asedau'r cynllun pensiwn yn y GDC.

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn | (1,194) | (19,212) |

Dadansoddiad o symiau wedi eu debydu / credydu i'r cyfrifon incwm a gwariant:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Incwm a Gwariant:** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | - | - |
| Costau gweinyddol (a ddelir fel darpariaeth) | 66 | - |
| Cost llog | 1,054 | 769 |
| Incwm llog net ar rwymedigaethau pensiwn net | (1,505) | (934) |
| Llog ar effaith uchafswm asedau / IFRIC14 | 451 | 165 |
| **Cyfanswm incwm/(costau)** | **66** | **-** |

Symiau a gydnabyddir yn y datganiad sefyllfa ariannol:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi eu hariannu | (23,029) | (22,728) |
| Gwerth teg asedau | 30,489 | 32,371 |
| Effaith Uchafswm Asedau | (7,460) | (9,643) |
| **Gwarged** | **-** | **-** |

Symiau o incwm cynhwysfawr arall yn y datganiad:

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm Cynhwysfawr arall:** | | | | |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar asedau'r cynllun | | (2,699) | | (20,146) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaethau buddion diffiniedig | | 131 | | 20,465 |
| o'r rhain, oherwydd profiad | 111 | | (2,037) | |
| o'r rhain, oherwydd tybiaethau demograffig | 249 | | 26 | |
| o'r rhain, oherwydd tybiaethau ariannol | (229) | | 22,476 | |
| Elw/(Colled) oherwydd effaith uchafswm asedau | | 2,634 | | (319) |
| **Cyfanswm (colled)/elw yn y datganiad incwm cynhwysfawr arall** | | **66** | | **-** |

Dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt - gostyngiad o 0.5% y flwyddyn. | 25,792 | 25,455 |
| Chwyddiant RPI - cynnydd o 0.5% y flwyddyn. | 24,180 | 23,864 |
| Marwoldeb – mae disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i ddisgwyliad oes rhywun blwyddyn yn iau | 23,490 | 23,183 |

Newidiadau yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr** | **22,728** | **43,030** |
| Cost llog | 1,054 | 769 |
| Cost gwasanaeth | - | - |
| Cyfraniadau gan aelodau | - | - |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (131) | (20,465) |
| Addasiad i gynnwys pensiynau yswiriedig | - | - |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun/costau gweinyddol a dalwyd | (622) | (606) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr** | **23,029** | **22,728** |

Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth teg ar 1 Ionawr** | **32,371** | **52,189** |
| Incwm llog | 1,505 | 934 |
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | (2,699) | (20,146) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | - | - |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | - | - |
| Costau gweinyddol a dalwyd | (66) | - |
| Addasiad i gynnwys pensiynwyr yswiriedig | - | - |
| Buddion a dalwyd/costau gweinyddol a dalwyd | (622) | (606) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr** | **30,489** | **32,371** |

Newidiadau mewn gwarged adenilladwy ac elfennau o berfformiad y cynllun:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ionawr** | **-** | **-** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | - | - |
| Cost gweinyddu | (66) | - |
| Llog ar warged | - | - |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | - | - |
| (Colled)/elw actiwaraidd | (2,568) | 319 |
| Effaith Uchafswm Asedau | 2,634 | (319) |
| **Balans terfynol** | **-** | **-** |

Symiau am y cyfnodau cyfredol a blaenorol:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 | 2019<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | (2,699) | (20,146) | 4,112 | 2,450 | 4,670 |
| Enillion/(colledion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | | (2,037) | 1,002 | (84) | 32 |
| Newidiadau mewn tybiaethau am werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 0 | 22,476 | 1,720 | (7,582) | (4,544) |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (23,029) | (22,728) | (38,134) | (40,721) | (31,732) |
| Asedau'r cynllun | 30,489 | 32,371 | 47,293 | 41,094 | 37,545 |
| Elw/(Colled) oherwydd effaith uchafswm asedau | 2,634 | (319) | (9,159) | - | - |
| Gwarged | - | - | - | 373 | 5,813 |

Enillion Asedau:

| Enillion asedau | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm £'000 | (1,882) | (19,818) | 9,018 | 2,450 | 4,670 |
| % o asedau'r cynllun | (6.2)% | (61.2)% | 17.3% | 6.0% | 12.4% |

Enillion profiad rhwymedigaethau

| Enillion profiad rhwymedigaethau | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm £'000 | 0 | 0 | 1,002 | (84) | 32 |
| % o rwymedigaethau'r cynllun | 0.0% | 0.0% | 2.3% | (0.2)% | 0.1% |

Mae pawb ar bensiwn yn derbyn cynnydd sicr o 3% y flwyddyn dan delerau'r cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Ar ôl hynny mae'r gwasanaeth yn cael ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Mae unrhyw iawndal pellach am gynnydd mewn costau byw yn cael ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2023, cyfraniad pensiwn blynyddol y cyflogwr oedd £1,137k (2022: £1,038k) i drefniant pensiwn yr ymddiriedolaeth meistr.

Mae'r cynllun wedi'i gyfansoddi fel ymddiriedolaeth ac yn gyfreithiol ac ariannol ar wahân i'r cyflogwr. Mae gan yr ymddiriedolwyr gyfrifoldeb tuag at yr ymddiriedolaeth a ddisgrifir yn ei gweithred a'i rheolau. Yn fyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- Weinyddu a rheoli'r cynllun at ddibenion Deddf Cyllid 2004.
- Penodi neu ddiswyddo actiwari at ddiben y cynllun, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn briodol ac addas.
- Penodi neu ddiswyddo actiwari at ddibenion, ac yn unol â, Deddf Pensiynau 1995.
- Sicrhau bod datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gael, am bob blwyddyn o'r cynllun, i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a phartïon penodol eraill.
- Sicrhau bod gwybodaeth benodol arall am y cynllun ar gael ar ffurf adroddiad blynyddol a pharatoi a chynnal datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion buddsoddi.
- Cytuno gyda'r GDC ynghylch swm ac amseriad cyfraniadau'r aelodau a'r GDC a sicrhau eu bod yn cael eu talu.

Mae'r cynllun, fel y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig eraill, yn wynebu nifer o risgiau gan gynnwys:

- Y risg na fydd yr enillion ar yr asedau, o fuddsoddi, yn ddigon yn y dyfodol i ateb yr amcan cyllido.
- Y risg y gallai chwyddiant fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd.
- Y risg na fydd gostyngiad yng ngwerth yr asedau'n cael ei adlewyrchu gan ostyngiad tebyg yng ngwerth y rhwymedigaethau, gan leihau lefel gyllido'r cynllun.
- Y risg y bydd newidiadau annisgwyl mewn marwolaethau yn y dyfodol, neu ffactorau eraill, yn cynyddu cost y buddion.
- Y risg bosibl na fydd y Cyngor yn gallu talu cyfraniadau neu wneud iawn am ddiffyg ariannol yn y dyfodol.
- Y risg ynglŷn â'r posibilrwydd bod (aelodau neu eraill) yn ymarfer opsiynau yn erbyn y cynllun.
- Y risg o newidiadau deddfwriaethol andwyol.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Oherwydd y risgiau hyn, gallai unrhyw brofiad andwyol o ganlyniad iddynt olygu bod angen i'r cyflogwr wneud cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol.

Caewyd y cynllun i gronni yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2021 ac felly ni thrafodwyd unrhyw gyfraniadau cyflogwr gwasanaeth cyfredol rhwng y cyflogwr a'r Ymddiriedolwr. Ni chytunodd y Cyngor ar unrhyw gyfraniadau cyflogwr ychwanegol i'r cynllun ar gyfer 2023. (2022: dim)

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesu rhwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2023. Cyfrifwyd yr ystyriaethau sensitifrwydd gan ddefnyddio'r un fethodoleg.

Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2021, wedi eu rhagamcangyfrif drwy ganiatáu ar gyfer cronni buddion, yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, yr union gyfraniadau a llifoedd arian, a chwtogi'r cynllun, ac wedi eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y tybiaethau IAS19 a ddisgrifir uchod.

Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau a'r ystyriaethau sensitifrwydd.

Pe cyfrifwyd rhwymedigaethau ac ystyriaethau sensitifrwydd ar 31 Rhagfyr 2023 ar sail yr union ddata aelodaeth ohiriedig a phensiynwr ar y dyddiad hwnnw, gallai'r canlyniadau fod yn wahanol. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaeth mawr.

Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn y Cyngor yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 65.

## 17. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Llifoedd arian parod contractiol heb ddisgownt.

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Tir ac adeiladau** | | |
| Llai na blwyddyn | 821 | 738 |
| Un i bum mlynedd | 3,286 | 2,950 |
| Mwy na phum mlynedd | 4,094 | 4,437 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau prydles heb ddisgownt ar 31 Rhagfyr** | **8,201** | **8,125** |
| **Rhwymedigaethau prydles wedi eu cynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr** | **6,777** | **6,606** |
| Cyfredol | 821 | 738 |
| Anghyfredol | 5,956 | 5,868 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad incwm:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau prydles | 298 | 241 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad llif arian:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Talu rhwymedigaethau prydles | 347 | 225 |

Datgelir y swm cario, y taliadau adio a dibrisiant sy'n gysylltiedig ag asedau hawl i ddefnyddio yn nodyn 8, a datgelir y gost llog sy'n codi ar atebolrwydd y brydles yn nodyn 6 o'r cyfrifon hyn.

Rhoddir mwy o wybodaeth am brydlesi yn nodyn 1.10 i'r cyfrifon hyn.

## 18. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd gan y GDC ymrwymiadau cyfalaf contractiol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2023 (2022: dim).

## 19. Trafodion parti cysylltiedig

Ni nodwyd unrhyw drafodiad parti cysylltiedig gydag aelodau'r Cyngor, ac eithrio iawndal a dalwyd iddynt, a lle mae aelodau'r Cyngor hefyd yn weithiwr deintyddol proffesiynol, y ffi gadw flynyddol safonol y maent yn ei thalu i'r GDC. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor wedi'u nodi yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol ar dudalen 60. (2022: dim).

Ni nodwyd unrhyw drafodion parti cysylltiedig gydag uwch reolwyr, ac eithrio cyflog a dalwyd iddynt fel y datgelwyd yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol ar dudalennau 62 i 63. (2022: dim).

Ni nodwyd unrhyw drafodion parti cysylltiedig â'n deiliaid cyllideb, ac eithrio cyflogau a dalwyd iddynt (2022: dim).

Nid oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig eraill a nodwyd. (2022: dim).

## 20. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Rydym wedi ystyried dyfarniad Somerville v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), lle cafodd Mr Somerville ei ganfod yn weithiwr gan y Tribiwnlys Cyflogaeth, o ran a yw'n debygol y byddwn yn wynebu rhwymedigaethau tebyg.

Mae'r GDC wedi adolygu ei drefniadau ac wedi cyfrifo bod amcangyfrif gorau o unrhyw atebolrwydd posibl oddeutu £853k. Nid oes unrhyw hawliadau wedi'u gwneud yn erbyn y GDC hyd yma, ac felly nid oes unrhyw rwymedigaeth wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn.

(2022: dim rhwymedigaeth ddigwyddiadol).

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 20 Chwefror 2024, cwblhawyd yr adolygiad rhent mewn perthynas â'n heiddo yn Colmore Square. Mae'r cynnydd mewn rhent sy'n ddyledus o dan y cytundeb hwnnw (o 1 Hydref 2023) wedi'i adlewyrchu yn unol â hynny yn y datganiadau ariannol hyn.

Ar 9 Ebrill 2024, cyhoeddodd y Tribiwnlys Cyflogaeth y dyfarniad a ddeilliodd o achos Somerville v NMC. Gwnaethom ystyried goblygiad y dyfarniad hwn ac rydym wedi adlewyrchu ein safbwynt presennol yn nodyn 20 i'r datganiadau ariannol hyn.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol eraill ar ôl 31 Rhagfyr 2023, sy'n gofyn am addasu'r datganiadau ariannol neu'r hyn sy'n cael ei ddatgelu ynddynt. (2022: dim)

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr a Chofrestrydd) gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# 11. Cynghorwyr

**Bancwyr**

Lloyds Banking Group
Mid Corporates
25 Gresham Street
Llundain
EC2V 7HN

National Westminster Bank PLC
5th Floor
2 St Philips Place
Birmingham
B3 2RB

**Buddsoddiadau**

Evelyn Partners Investment Management LLP
45 Gresham Street
Llundain
EC2V 7BG

**Cyfreithiol**

Capsticks Solicitors LLP
St George's House East
1 St George's Road
Wimbledon
Llundain
SW19 4DR

Kingsley Napley LLP
Knights Quarter
14 St John's Lane
Llundain
EC1M 4AJ

Blake Morgan LLP
6 New Street Square
Llundain
EC4A 3DJ

Mills and Reeve LLP
Botanic House
100 Hills Road
Cambridge
CB2 1PH

**Archwilwyr Allanol**

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

**Archwilwyr Mewnol**

RSM UK Assurance Services LLP
25 Farringdon Street
Llundain
EC4A 4AB

**Actiwari a'r Cynllun Pensiwn**

Lane, Clark and Peacock LLP
95 Wigmore Street
Llundain
W1U 1DQ

# 12. Atodiad

## a) Dyfarniad ar y Cyfrifon

### Y Dyfarniad ar y Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r Arglwyddi'n dyfarnu fel a ganlyn wrth ymarfer eu pwerau o dan adran 2C(1) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r dyfarniad hwn mewn grym o 16 Mai 2016 ymlaen:

### Dehongliad

Yn y dyfarniad hwn –

mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w baratoi o dan adran 2C(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984.

mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

mae "y FReM" yn golygu'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EF sydd mewn grym am y flwyddyn galendr berthnasol.

### Dyfarniad

Rhaid i'r Cyngor baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr. Wrth baratoi ei gyfrifon, dylai'r Cyngor ystyried datgeliadau ac egwyddorion cyfrifyddu'r FReM.

Rhaid paratoi'r cyfrifon er mwyn:

- Rhoi darlun cywir a theg o'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac o incwm a gwariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, ac o lif arian y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben.
- Datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na wariwyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Bydd y dyfarniad hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

Mae'r Dyfarniad ar y Cyfrifon a wnaed ar 22 Rhagfyr 2015 yn cael ei ddiddymu drwy hyn.

General
Dental
Council

Gwiriwch fod eich gweithiwr deintyddol yn gofrestredig: www.gdc-uk.org

**Rydym eisiau sicrhau bod ein gwasanaethau i gyd ar gael i bawb.**

**Os hoffech gopi o'r adroddiad hwn** mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft mewn print bras neu ar ffurf sain), cofiwch gysylltu.

**Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.**

**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ
**020 7167 6000**
**information@gdc-uk.org**
**www.gdc-uk.org**

E03097942
ISBN: 978-1-5286-4773-1
HC 104